


Ellen G. White Estate

A photograph of a white lighthouse on a hill overlooking the ocean at dusk. The lighthouse is illuminated from within, and the sky is a mix of blue and purple. Palm trees are visible in the foreground. The title 'CAMAU AT GRIST' is overlaid in large white letters.

# CAMAU AT GRIST

ELLEN G. WHITE



---

# **Camau at Grist**

---

**Ellen G. White**

**Copyright © 2012  
Ellen G. White Estate, Inc.**



## **Information about this Book**

### **Overview**

This eBook is provided by the [Ellen G. White Estate](#). It is included in the larger free [Online Books](#) collection on the Ellen G. White Estate Web site.

### **About the Author**

Ellen G. White (1827-1915) is considered the most widely translated American author, her works having been published in more than 160 languages. She wrote more than 100,000 pages on a wide variety of spiritual and practical topics. Guided by the Holy Spirit, she exalted Jesus and pointed to the Scriptures as the basis of one's faith.

### **Further Links**

[A Brief Biography of Ellen G. White](#)  
[About the Ellen G. White Estate](#)

### **End User License Agreement**

The viewing, printing or downloading of this book grants you only a limited, nonexclusive and nontransferable license for use solely by you for your own personal use. This license does not permit republication, distribution, assignment, sublicense, sale, preparation of derivative works, or other use. Any unauthorized use of this book terminates the license granted hereby.

### **Further Information**

For more information about the author, publishers, or how you can support this service, please contact the Ellen G. White Estate at [mail@whiteestate.org](mailto:mail@whiteestate.org). We are thankful for your interest and feedback and wish you God's blessing as you read.





## Cynnwys

Information about this Book . . . . .	i
Article 1—Cariad dum at ddyn . . . . .	5
Article 2—Angen y pechadur am Grist. . . . .	10
Article 3—Edifeirwch. . . . .	14
Article 4—Cyffesu YFFESU . . . . .	24
Article 5—Ymgysegrïad. . . . .	27
Article 6—Ffydd a derbyniad . . . . .	31
Article 7—Y prawf o fod yn ddisgybl. . . . .	36
Article 8—Cynyddu i Grist . . . . .	42
Article 9—Y gwaith a'r bywyd . . . . .	48
Article 10—Gwybodaeth am dduw . . . . .	53
Article 11—Rhagorfraint gweddi . . . . .	58
Article 12—Beth I'w wneud ag amheuaeth . . . . .	67
Article 13—Llawenhau yn yr arglwydd . . . . .	73



## Article 1—Cariad dum at ddyn

MAE NATUR A datguddiad yr un modd yn tystiolaethu am gariad Duw. Ein Tad yn y nefoedd ydyw ffynhonell bywyd, doethineb, a llawenydd. Edrychwch ar ryfeddodau a phrydferthion natur. Meddyl-wch am eu haddasrwydd rhyfedd at anghenion a dedwyddwch, nid yn unig eiddo dyn, eithr pob creadur byw. Yr heulwen a'r glaw, sydd yn llawenyachu ac adfywio y ddaear, y bryniau a'r moroedd a'r gwastadeddau, maent oll yn llefaru wrthym am gariad y Creawdwr. Duw sydd yn diwallu anghenion dyddiol ei holl greaduriaid. Yng ngeiriau prydfferth y Salmydd -

“Llygaid pob peth a ddisgwyliant wrthyt;  
Ac yr ydwyd yn rhoddi eu bwyd iddynt yn ei bryd;  
Gan agoryd dy law,  
A diwallu pob peth byw a'th ewyllys da.”

Salm 145:15, 16.

Gwnaeth Duw ddyn yn berffaith sanctaidd a dedwydd; ac nid oedd y ddaear deg, fel y daeth o law y Creawdwr, yn dwyn unrhyw falltod, pydredd neu gysgod y felltith. Trosedd yn erbyn deddf Duw deddf cariad - sydd wedi dwyn gwae a marwolaeth. Eto, hyd yn oed yng nghanol y dioddefaint sydd yn dilyn pechod mae cariad Duw yn cael ei ddatguddio. Mae yn ysgrifenedig i Dduw felltithio y ddaear o achos dyn. (Gen. 3:17.) Y ddraenen a'r ysgallen, yr anhawsterau a'r treialon a wnant ei fywyd yn un o lafur a gofal, a benodwyd er ei ddaioni, fel rhan o'r ddisgyblaeth angenrheidiol yng nghynllun Duw er ei ddyrchafu o'r dinystr a'r diraddiad a gyflawnodd pechod. Nid yw'r byd, er iddo syrthio, oll yn flinder a thrueni. Ceir yn natur ei hunan genadwriaethau gobaith a chysur. Ceir blodau ar yr ysgall, a'r drain a orchuddir â rhosynau.

“Duw cariad yw,” sydd ysgrifenedig ar bob blaguryn, ar bob blewyn o laswellt. Yr adar mwynion sy'n gwneud yr awel yn son-iarus â'u caniadau hapus, y blodau tyner yn eu perffeithrwydd sy'n [8]

perarogli'r awyr, prennau uchel y goedwig â'u goludog ddail o wyrddlesni byw - maent oll yn dwyn tystiolaeth i ofal tadol tyner ein Duw ni, ac i'w ddymuniaid i wneud ei blant yn ddedwydd.

Mae Gair Duw yn datguddio ei gymeriad. Hysbysodd Ef ei hunan ei anfeidrol gariad a'i dosturi. Pan oedd Moses yn gweddio, "Dangos i mi dy ogoniant," yr Arglwydd a atebodd, "Gwnaf i'm holl ddaioni fyned heibio o flaen dy wyneb." Exodus 33:18, 19. Dyma ei ogoniant. Aeth yr Arglwydd heibio o flaen Moses, ac a lefarodd, "Jehofah, Jehofah, y Duw trugarog, a graslon, hwyrfrydig i ddig, ac aml o drugaredd a gwirionedd; Yr hwn sydd yn cadw trugaredd i filoedd, gan faddau anwiredd, a chamwedd, a phechod." Exodus 34:6, 7. Mae Efe yn "hwyrfrydig i ddig, ac aml o drugaredd" (Jonah 4:2), "am fod yn hoff ganddo drugaredd." Micah 7:18.

Mae Duw wedi rhwymo ein calonnau wrtho Ef ei hun trwy arwyddion di-rif yn y nef a'r ddaear. Trwy bethau natur, a'r rhwymau daearol dyfnaf a thyneraf y gall calonnau dynol eu gwybod, y mae wedi ceisio datguddio ei hun i ni. Eto ni wna y rhai hyn ond gosod allan ei gariad yn amherffaith. Er yr holl dystiolaethau hyn, dallodd y gelyn da feddyliau dynion, fel yr edrychasant ar Dduw gydag ofn, meddylasant amdano fel rhywun llym ac anfaddeugar. Arweiniodd Satan ddynton i feddwl am Dduw fel Bod â'i brif briodoledd yn gyfiawnder ystyfnig - un sydd yn farnwr llym, yn ofynwr manwl a chaled. Darluniodd y Creawdwr fel Bod sydd yn gwyllo gyda llygad eiddigus i ganfod cyfeiliornadau a chamgymeriadau dynion, fel y gall anfon barn arnynt. Er mwyn symud y cysgod tywyll yma, trwy ddatguddio i'r byd anfeidrol gariad Duw, y daeth yr Iesu i fyw ymysg dynion.

Daeth Mab Duw o'r nef i amlygu'r Tad. "Ni welodd neb Dduw erioed: yr unig-anedig Fab, yr hwn sydd ym mynwes y Tad, hwnnw a'i hysbysodd Ef." Ioan 1:18. "Ac nid edwyn neb y Tad ond y Mab; a'r hwn yr ewyllysio'r Mab ei ddatguddio iddo." Matt. 11:27. Pan ofynwyd gan un o'r disgyblion, "Dangos i ni y Tad," yr Iesu a atebodd, "A ydwyf gyhyd o amser gyda chwi, ac nid adnabuost fi, [9] Philip? Y neb a'm gwelodd i, a welodd y Tad; a pha fodd yr wyt ti yn dywedyd, Dangos i ni y Tad?" Ioan 14:8. 9.

Wrth ddisgrifio ei genhadaeth ddaearol, yr Iesu a ddywedodd, yr Arglwydd a'm "heneiniodd i; i bregethu i'r tlodion yr anfonodd fi, i iacháu'r drylliedig o galon, i bregethu gollyngdod i'r caethion, a

chaffaeliad golwg i'r deillion, i ollwng y rhai ysig mewn rhydd-deb.” Luc 4:18. Dyma oedd ei waith. Aeth o gwmpas yn gwneud daioni, ac yn iacháu pawb a orthrymid gan Satan. Ceid pentrefi cyfain lle nad oedd cwynfan cystudd mewn un ty; canys yr oedd Efe wedi mynd drwyddynt, ac iacháu eu holl gleifion. Rhoddai ei waith brawf o'i ddwyfol eneiad. Yr oedd cariad, trugaredd, a chydymdeimlad yn cael eu datguddio ym mhob gweithred o'i fywyd, elai ei galon allan mewn cydymdeimlad tyner à meibion dynion. Cymerodd natur dyn, fel y gallai gyrraedd anghenion dyn. Nid oedd y rhai isaf a thlotaf yn ofni mynd ato. Yr oedd hyd yn oed blant bach yn cael eu denu ato. Yr oeddynt yn caru dringo ar ei liniau, a chraffu i'r wyneb athrist hwn, oedd yn dirion gan gariad.

Ni ataliodd yr Iesu un gair o wirionedd, eithr Efe a'i mynegodd bob amser mewn cariad. Arferai y medr mwyaf, a sylw caredig a meddylgar yn ei ymdrafodaeth â'r bobl. Nid oedd byth yn arw, byth yn llefaru gair chwerw yn ddianghenraid, byth yn rhoddi poen i enaid tyner, yn ddiangen. Ni cheryddai wendid dynol. Llefarai y gwirionedd, ond bob amser mewn cariad. Bygythiai ragrith, anghrediniaeth, a drygioni; ond yr oedd dagrau yn ei lais wrth gyhoeddi ei gerydd dinistriol. Wylodd dros Jerusalem, y ddinas a garai, yr hon a wrthododd ei dderbyn, y Ffordd, y Gwirionedd, a'r Bywyd. Gwrthodasant Ef, y Gwardwr, ond edrychai arnynt â thynnerwch tosturiol. Yr oedd ei fywyd yn un o hunan-ymwadiad a gofal meddylgar dros eraill. Yr oedd pob enaid yn werthfawr yn ei olwg. Tra bob amser yn ymagweddu ag urddas dwyfol, Efe a ymostyngai gyda'r sylw tyneraf i bob aelod o deulu Duw. Ym mhob dyn gwelai enaid syrthiedig, a'i achub oedd ei genhadaeth.

Datguddir cymeriad Duw yn ei fywyd. Dyma gymeriad Duw. O galon y Tad y llifai allan i feibion dynion y ffrydiau o gydymdeimlad Dwyfol, a eglurwyd yng Nghrist. “Duw a ymddangosodd yn y cnawd” (1 Tim. 3:16) oedd yr Iesu, y Gwardwr tyner a thosturiol.

Er ein cadw ni y bu yr Iesu fyw, dioddef, a marw. Efe a ddaeth yn “Wr gofidus”, fel y gallem ni gael ein gwneud yn gyfranogion o'r tragwyddol lawenydd. Caniataodd Duw i'w annwyl Fab, llawn gras a gwirionedd, i ddyfod o fyd y gogoniant anhygoel, i fyd a glwyfwyd ac a ddifethwyd gan bechod, a dywyllwyd â chysgod marwolaeth a'r felltith. Caniataodd iddo adael mynwes ei gariad, gwrthrych moliant yr angylion. i ddioddef gwarth, dirmyg, darostyngiad, casineb, a

marwolaeth. “Cosbedigaeth ein heddwch ni oedd arno ef; a thrwy ei gleisiau ef yr iachawyd ni.” Esa. 53:5. Gwelwch Ef yn yr anialwch, yng Ngethsemane, ar y groes. Cymerodd Mab difrycheulyd Duw arno ei hunan faich ein pechod. Yr Hwn a fu yn un â Duw, a deimlodd yn ei enaid yr ysgariad ofnadwy a greodd bechod rhwng Duw a dyn. Hyn a wasgodd o’i wefusau yr ochenaidd ingol, “Fy Nuw, fy Nuw, paham y’ m gadewaist?” Matt. 27:46. Baich y pechod, yr ymdeimlad o’i ddrygioni ofnadwy, o ysgariad yr enaid oddi wrth Dduw - hyn a dorrodd galon Mab Duw.

Eithr ni wnaed yr aberth fawr yma i greu yng nghalon y Tad gariad at ddyn, nid i’w wneud yn ewyllysgar i achub. Na, na. “Felly y carodd Duw y byd, fel y rhoddodd efe ei unig-anedig Fab.” Ioan 3:16. Mae y Tad yn ein caru, nid oherwydd yr iawn mawr, ond Efe a ddarparodd yr iawn am ei fod yn ein caru. Drwy gyfrwng Crist gallai Duw dywallt allan ei gariad anfeidrol ar fyd syrthiedig. “Duw yng Nghrist yn cymodi’r byd ag ef ei hun.” 2 Cor. 5:19. Dioddefodd Duw gyda’r Mab. Yn ing Gethsemane, ac angau Calfaria, calon Cariad Anfeidrol a dalodd bris ein hadferiad.

Yr Iesu a ddywedodd, “Am hyn y mae’r Tad yn fy ngharu i, am fy mod i yn doddi fy einioes, fel y cymmerwyf hi drachefn.” Ioan 10:17. Hynny yw, “Felly y carodd fy Nhad chwi fel mae hyd yn oed yn fy ngharu i yn fwy am ddodi fy einioes i’ch gwaredu chwi. Wrth ddyfod i chwi yn Ddirprwywr, ac yn Fechnïydd. wrth roddi fy mywyd i lawr, wrth gymryd eich dyledion, eich troseddau, yr wyf yn cael fy ngwneuthur yn annwylach i fy Nhad; oblegid trwy fy aberth i gall Duw fod yn gyfiawn, ac eto yn Gyfiawnhawr y neb a greddo yn yr Iesu.”

Ni allai neb ond Mab Duw ddwyn i fod ein hiachawdwriaeth; canys Efe yr Hwn oedd ym mynwes y Tad yn unig allai ei hysbysu. Efe yr Hwn yn unig a wyddai uchder a dyfnder cariad Duw allai ei egluro. Ni allai dim llai na’r aberth anfeidrol a wnaeth Crist ar ran dyn syrthiedig ddangos cariad y Tad at ddynoliaeth golledig.

[11]

“Felly y carodd Duw y byd, fel y rhoddodd efe ei unig-anedig Fab.” Rhoddodd Ef nid yn unig i fyw ymysg dynion. i ddwyn eu pechodau, a marw yn aberth drostynt; rhoddodd Ef i’r hil syrthiedig. Yr oedd Crist i wneud lles ac anghenion dynion yn eiddo iddo ei hun. Mae’r Hwn oedd yn un â Duw wedi cysylltu ei hunan â phlant dynion trwy rwymau nad ydynt byth i gael eu torri. Nid

“cywilyddus” gan yr Iesu “eu galw hwy yn frodyr;” (Heb. 2:11), ein Haberth, ein Heiriolwr, ein Brawd, yn dwyn ein ffurf ddynol gerbron gorseddfainc y Tad, a thrwy’r oesoedd tragwyddol yn un â’r hiliogaeth a waredwyd ganddo - yn Fab y dyn. A hyn oll fel y gellid dyrchafu dyn o ddirywiad a dinistr pechod, fel y gallo adlewyrchu cariad Duw, a chyfranogi o lawenydd sancteiddrwydd.

Dylai y pris a dalwn am ein hadferiad, yr aberth anfeidrol o eiddo ein Tad nefol yn rhoddi ei Fab i farw drosom, roddi i ni syniadau dyrchafedig am yr hyn a all digwydd i ni drwy Grist. Fel y mae’r Apostol ysbrydoledig loan yn edrych ar uchder, a dyfnder, a lled cariad y Tad at hiliogaeth ar drengi, llenwir ef â pharch ac addolgarwch, ac wrth fethu cael iaith addas i osod allan fawredd a thynnerwch y cariad hwn, geilw ar y byd i edrych amo. “Gwelwch pa fath gariad a roes y Tad arnom, fel y’n gelwid yn feibion i Dduw.” 1 Ioan 3:1. Y fath werth a rydd hyn ar ddyn! Trwy gamwedd daw meibion dyn yn ddeiliaid Satan. Trwy ffydd yn aberth iawnol Crist, gall meibion Adda ddyfod yn feibion Duw. Trwy gymryd arno natur ddynol dyrchafa Crist ddynoliaeth. Mae dynion syrthiedig yn cael eu gosod ar dir lle gallont yn wir, trwy gysylltiad â Christ, ddyfod yn deilwng o’r enw “meibion Duw”.

Mae’r cyfryw gariad heb gymhariaeth. Plant y Brenin nefol! Addewid werthfawr! Testun y fyfyrdod fwyaf dofn! Cariad anghymharol Duw at fyd nad oedd yn ei garu! Mae i’r syniad ddylanwad lleddfau ar yr enaid, ac yn dwyn y meddwl yn gaeth i ewyllys Duw. Po fwyaf yr astudiwn ar y cymeriad Dwyfol yng ngoleuni y groes, mwyaf oll a welwn o drugaredd, tynerwch, a maddeuant yn gymysg ag uniondeb a chyfiawnder, a chliriaf oll y gwelwn brofion afrifed o gariad anfeidrol, a thosturi tyner sydd tu hwnt i gydymdeimlad hiraethus mam am ei phlentyn croes.

Gall y dynol gwllwm ddatod, Câr i’w gyfaill wadu’r ffydd.

[12]

[13]

## Article 2—Angen y pechadur am Grist

CAFODD DYN YN wreiddiol ei gynysgaeddu â galluoedd urddasol a meddwl cytbwys. Yr oedd yn berffaith yn ei hanfod, ac mewn cytgord â Duw. Yr oedd ei feddyliau yn bur, ei amcanion yn sanctaidd. Ond trwy anufudd-dod, llygrwyd ei alluoedd, a chymerodd hunanoldeb le cariad. Daeth ei natur mor wan drwy gamweddau fel yr oedd yn amhosibl iddo, yn ei nerth ei hun, wrthsefyll gallu pechod. Gwnaed ef yn gaethwas gan Satan, a byddai wedi aros felly byth pe na bai Duw wedi ymyrryd mewn ffordd arbennig. Bwriad y temtiwr oedd rhwystro y cynllun Dwyfol yng nghreadigaeth dyn, a llanw y ddaear â gwae ac anrhaith. A byddai Satan wedi cyfeirio at y drwg yma i gyd fel canlyniad gwaith Duw yn creu dyn.

Yn ei sefyllfa ddibechod, daliai dyn gymundeb llawen ag Ef “yn yr hwn y mae holl drysorau doethineb a gwybodaeth yn guddiedig”. Col. 2:3. Ond ar ôl ei bechod, ni allai mwy gael llawenydd mewn sancteiddrwydd, a cheisiodd ymguddio rhag presenoldeb Duw. Dyma gyflwr y galon ddi-ailenedig o hyd. Nid yw mewn cytgord â Duw, ac ni chaiff ddim llawenydd mewn cymundeb ag Ef. Ni allai y pechadur fod yn ddedwydd ym mhresenoldeb Duw; ciliai o gymdeithas bodau sanctaidd. Pe gellid caniatu iddo fynd i mewn i’r nefoedd, ni fyddai dim llawenydd iddo ef. Ni fyddai ysbryd y cariad anhunanol sydd yn teyrnasu yno - pob calon yn ateb i galon Anfeidrol Gariad - yn cyffwrdd ag unrhyw dant cyfatebol yn ei enaid. Byddai ei feddyliau. ei ddiddordeb, ei gymhellion, yn estronol i’r rhai hynny sydd yn cymhell y preswylwyr dibechod yno. Byddai y nef iddo ef yn lle o boenedigaeth; hiraethai am gael ei guddio oddi wrth yr Hwn sydd yn oleuni iddi, ac yn ganolbwynt ei lawenydd. Nid unrhyw fwriad tra-arglwyddiaethol ar ran Duw sydd yn cau allan y drygionus o’r nefoedd; caëir hwynt allan gan eu hanaddasrwydd eu hunain i’w chymdeithas. Byddai gogoniant Duw iddynt hwy yn dân ysol. Byddai iddynt groesawu dinistr, fel y gallent gael eu cuddio rhag gwyneb yr Hwn a fu farw i’w gwaredu.

[14]

Mae yn amhosibl i ni, ohonom ein hunain. ddianc o bydew pechod yn yr hwn yr ydym wedi suddo. Mae ein calonnau yn ddrygionus, ac ni allwn eu newid. “Pwy a ddyry beth glân allan o beth aflan? neb.” Job 14:4. “Syniad y cnawd sydd elyniaeth yn erbyn Duw; canys nid yw ddarostyngedig i ddeddf Duw; oblegid nis gall chwaith.” Rhuf. 8:7. Mae i addysg, diwylliant, ymarfer yr ewylllys, ymdrech ddynol, oll eu cylch priodol, ond yma y maent yn ddirym. Gallant ddangos cywirdeb allanol ymddygiad, eithr ni allant newid y galon; ni allant buro ffynonellau bywyd. Rhaid fod gallu yn gweithio oddi mewn, bywyd newydd oddi uchod, cyn y gall dynion gael eu harwain oddi wrth bechod at sancteiddrwydd. Y gallu hwnnw yw Crist. Ei ras Ef yn unig a ddichon fywiocâu cyneddfau difwyd yr enaid, a’i dynnu at Dduw a sancteiddrwydd.

Y Gwaredwr a ddywedodd, “Oddieithr geni dyn drachefn (oddi uchod),” - oddieithr iddo dderbyn calon newydd, dymuniadau, amcanion, a chymhellion newydd, sy’n arwain i fywyd newydd - “Ni ddichon efe weled teyrnas Dduw.” Ioan 3:3. Nid yw y syniad mai yr hyn sydd yn angenrheidiol yn unig ydyw datblygu y da sydd yn bod mewn dyn wrth natur ond twyll marwol. “Eithr dyn anianol nid yw yn derbyn y pethau sydd o Ysbryd Duw: canys ffolineb ydynt ganddo ef; ac nis gall eu gwybod, oblegid yn ysbrydol y bernir hwynt.” 1 Cor. 2:14. “Na ryfedda ddywedyd ohonof fi wrthyt, y mae’n rhaid eich geni chwi drachefn.” Ioan 3:7. Am Grist yr ysgrifenydd, “Ynddo ef yr oedd bywyd; a’r bywyd oedd oleuni dynion.” Ioan 1:4. Yr eiddo Ef ydyw yr unig “enw dan y nef, wedi ei roddi ymhlith dynion, trwy yr hwn y mae’n rhaid i ni fod yn gadwedig.” Actau 4:12.

Nid digon yw canfod trugarogrwydd Duw, cymwynasgarwch, tynerwch tadol ei gymeriad. Nid digon yw gweld doethineb a chyfiawnder ei gyfraith - gweld ei bod yn sylfaenedig ar egwyddor dragwyddol cariad. Gwelodd Paul yr Apostol hyn oll pan waeddodd, “Yr wyf fi yn cydsynio â’r ddeddf mai da ydyw.” “Y mae’r ddeddf yn sanctaidd; a’r gorchymyn yn sanctaidd, ac yn gyfiawn, ac yn dda.” [15] Eithr ychwanegodd, yn chwerwder ing ei enaid a’i anobaith, “Eithr myfi sydd gnawdol, wedi fy ngwerthu dan bechod.” Rhuf. 7:16, 12, 14. Hiraethai am y purdeb, y cyfiawnder, ag yr oedd yn analluog ohono ei hun i’w gyrraedd, a gwaeddodd allan, “Ys truan

o ddyn wyf fi! pwy a'm gwared i oddi wrth gorff y farwolaeth hon?" Rhuf. 7:24. Dyma y cri sydd wedi esgyn o galonnau llwythog ym mhob gwlad ac ym mhob oes. Nid oes ond un ateb i bawb, "Wele Oen Duw, yr hwn sydd yn tynnu ymaith bechodau'r byd." Ioan 1:29.

Ceisiodd Ysbryd Duw egluro y gwirionedd hwn mewn llawer ffordd, a'i wneud yn amlwg i eneidiau yn hiraethu am eu rhyddhau oddi wrth faich euogrydd. Pan, ar ôl ei bechod yn twyllo Esau, y dihangodd Jacob o gartref ei dad, suddodd dan bwys teimlad o euogrydd. Yn unig ac alltud fel yr ydoedd, wedi ei ysgaru oddi wrth yr oll a wnaeth fywyd yn annwyl, yr un meddwl uwchlaw pob un arall a bwysai ar ei enaid oedd yr ofn fod ei bechod wedi ei dorri ymaith oddi wrth Dduw, ei fod yn wrthodedig yn y Nefoedd. Mewn tristwch y gorweddai i lawr i orffwys ar y ddaear noeth. dim ond y bryniau unig o'i amgylch, ac uwch ei ben y nefoedd yn ddisglair gan sêr. Fel y cysgai, torrodd goleuni dieithr ar ei olwg; ac wele, oddi ar y gwastadedd lle gorweddai, ymddangosai grisiau tywyll enfawr yn arwain i fyny hyd at borth y nef, ac arnynt angylion Duw yn symud i fyny ac i lawr; tra o'r gogoniant fry, y clywid llais Duw mewn cenadwri o gysur a gobaith. Fel hyn y gwnaed yn hysbys i Jacob yr hyn a ddiwallai angen a hiraeth ei enaid - y Gwaredwr. Gyda llawenydd a diolch y gwelodd ffordd yn cael ei datguddio, ac y gallai efe, yn bechadur, gael ei adfer i gymundeb â Duw. Yr oedd ysgol gyfrin ei freuddwyd yn cynrychioli yr Iesu, unig gyfrwng cymundeb rhwng Duw a dyn.

At yr un darlun hwn y cyfeiria Crist yn ei ymddiddan â Nathanael, pan y dywedodd, "Ar ôl hyn y gwelwch y nef yn agored, ac angylion Duw yn esgyn ac yn disgyn ar Fab y dyn." Ioan 1:51. Yn y gwrthgiliad, ymddieithriodd dyn oddi wrth Dduw; torrwyd y ddaear oddi wrth y nefoedd. Ni allai fod dim cymundeb dros y gagendor a orweddai rhyngddynt. Ond trwy Grist mae'r ddaear eto wedi ei dolenu wrth y nef. Gyda'i haeddiant ei hun pontiodd Crist y gagendor a wnaed gan bechod, fel y gall yr angylion gwasanaethgar ddal cymundeb â dyn. Mae Crist yn cysylltu y dyn syrthiedig, yn ei wendid a'i anallu, â Ffynhonell y nerth anfeidrol.

Eithr ofer yw breuddwydion dynion ynghylch cynnydd, ofer pob ymdrechion er dyrchafu dynoliaeth, os esgeulusant unig Ffynhonell gobaith a chymorth i'r hil syrthiedig. "Pob rhoddiad daionus, a phob rhodd berffaith" (Iago 1:17), oddiwrth Dduw y maent. Nid oes gwir



ragoriaeth cymeriad ar wahan iddo Ef. A'r unig ffordd at Dduw ydyw Crist. Efe a ddywed, "Myfi yw'r ffordd, a'r gwirionedd, a'r bywyd: nid yw neb yn dyfod at y Tad, ond trwof fi." Ioan 14:6.

Mae calon Duw yn hiraethu ar ôl ei blant daearol gyda chariad cryfach nac angau. Wrth roddi i fyny ei Fab, Efe a dywalltodd allan i ni yr holl nefoedd mewn un rhodd. Mae bywyd a marwolaeth ac eiriolaeth y Gwardwr. gweinidogaeth angylion, ymryson yr Ysbryd, y Tad yn gweithio uchod a thrwy bob peth, diddordeb diddarfod y bodau nefol - yr oll wedi ymrestru o blaid iachawdwriaeth dyn.

O, gadewch i ni fyfyrion ar yr aberth rhyfeddol a wnaed drosom ni! Gadewch i ni geisio gwerthfawrogi y llafur a'r egni a waria y Nefoedd er adfer y colledig, a'u dwyn yn ôl i dŷ eu Tad. Ni allesid byth greu cymhellion cryfach, na goruchwyliaeth mwy nerthol - y gwobrwyon tra-ragorol am wneud y da, y mwynhad o'r nefoedd, y gymdeithas â'r angylion, cymundeb â chariad Duw a'i Fab, dyrchafiad ac ehangiad ein holl alluoedd am oesoedd tragwyddol - onid yw'r rhai hyn yn ein symbylu a'n cymhell i roddi gwasanaeth serchus y galon i n Creawdwr a'n Hiachawdwr?

Ac ar y llaw arall, cawn farnedigaethau Duw a gyhoeddir yn erbyn pechod, yr ad-daliad anocheladwy, y diraddiad o'n cymeriad a'r dinistr terfynol, yn cael eu cyflwyno yng Ngair Duw i'n rhybuddio rhag gwasanaeth Satan.

Oni ystyriwn drugaredd Duw? Beth yn fwy allasai wneuthur? Bydded i ni osod ein hunain mewn iawn berthynas ag Ef yr hwn a'n carodd â chariad rhyfeddol. Gadewch i ni gymryd gafael yn y moddion ddarparwyd ar ein cyfer er mantais i ni ein hunain, fel y gallom gael ein trawsnewid i'w ddelw Ef, a chael ein hadfer i gymdeithas â'r angylion gwasanaethgar, i gydgordiad a chymundeb â'r Tad a'r Mab.

[17]

[18]

## Article 3—Edifeirwch

PA FODD Y gall dyn fod yn gyfiawn gyda Duw? Pa fodd y gall y pechadur gael ei wneud yn gyfiawn? Trwy Grist yn unig y gellir ein dwyn i gydgordiad gyda Duw, gyda sancteiddrwydd; ond pa fodd yr ydym i ddyfod at Grist? Mae llawer yn gofyn yr un cwestiwn ag a ofynwyd gan y lliaws ar ddydd y Pentecost, pan dan argyhoeddiad o bechod, y gwaeddasant allan, “Beth a wnawn ni?” Y gair cyntaf o atebiad Pedr oedd, “Edifarhewch.” Ar adeg arall, yn fuan ar ol hyn, y dywedodd, “Edifarhewch ... a dychwelwch, fel y dileër eich pechodau.” Actau 2:38; 3:19.

Cynnwysa edifeirwch ofid am bechod, a throi ymaith oddi wrtho. Ni bydd i ni ddiarddel pechod nes y gwelwn ei bechadurusrwydd; hyd nes y trown ymaith oddi wrtho yn y galon, ni bydd cyfnewidiad gwirioneddol yn y bywyd.

Ceir llawer sydd yn methu deall gwir natur edifeirwch. Mae lluoedd yn gofidio am iddynt bechu, ac hyd yn oed yn gwneud adnewyddiad allanol, am eu bod yn ofni i’w drygioni ddwyn dioddefaint arnynt eu hunain. Eithr nid hyn yw edifeirwch yn ystyr y Beibl. Galarant oherwydd y dioddef, yn hytrach na’r pechod. Dyma oedd tristwch Esau pan welodd fod yr enedigaeth-fraint wedi ei cholli iddo am byth. Darfu i Balaam, ar ôl ei ddychrynu gan yr angel a safai ar ei lwybr gyda chleddyf noeth, gydnabod ei euogrwydd rhag ofn iddo golli ei fywyd; eithr nid oedd yno edifeirwch pur am bechod, dim argyhoeddiad amcan, dim atgasedd at ddrwg. Judas Iscariot, ar ôl iddo fradychu ei Arglwydd, ddywedodd, “Pechais, gan fradychu gwaed gwirion.” Matt. 27:4.

[19] Gwthiwyd y cyffesiad allan o’i enaid euog gan ymdeimlad ofnadwy o ddamnedigaeth a golwg ddychrynlyd ar farnedigaeth. Llanwyd ef â dychryn gan y canlyniadau oedd i ddilyn iddo ef, ond nid oedd gofid dwfn yn ei enaid am iddo fradychu Mab difrycheul Duw, a gwadu Sanct yr Israel. Pan oedd Pharaoh yn dioddef dan farnedigaethau Duw, cydnabyddodd ei bechod, er mwyn osgoi cosb bellach, eithr dychwelodd i herio’r Nefoedd cyn gynted ag y cafodd

y plâu eu hatal. Galarai y rhai hyn oll am ganlyniadau pechod, eithr nid oeddynt yn gofidio am y pechod ei hun.

Ond pan ildia y galon i ddylanwad Ysbryd Duw, caiff y gydwybod ei deffro, a chenfydd y pechadur rywfaint o ddyfnder a chysegr-edigrwydd cyfraith sanctaidd Duw, sail ei lywodraeth mewn nef a daear. Y “Goleuni, yr hwn sydd yn goleuo pob dyn a’r y sydd yn dyfod i’r byd” (Ioan 1:9), a oleua gelloedd dirgel yr enaid, a gwneud yn amlwg bethau cuddiedig y tywyllwch. Cymer argyhoeddiad afael ar y meddwl a’r galon. Mae gan y pechadur syniad o gyfiawnder y Jehofah, a theimla yr arswyd o ymddangos, yn ei euogrwydd a’i aflendid ei hunan, gerbron Chwiliwr y calonnau. Mae’n gweld cariad Duw, prydferthwch sancteiddrwydd, a llawenydd purdeb; hiraetha am gael ei olchi, a chael ei adfer i gymundeb â’r Nef.

Mae gweddi Dafydd ar ôl ei gwypm yn egluro natur gwir dristwch am bechod. Yr oedd ei edifeirwch yn ddidwyll a dwfn. Nid oedd yno un ymgais i guddio euogrwydd ag esgus; na’r un dymuniad i osgoi y farnedigaeth fygythiol yn ysbrydoli ei weddi. Gwelodd Dafydd faint ei drosedd; gwelodd halogrwydd ei enaid; ffeiddiodd at ei bechod. Nid am faddeuant yn unig y gweddiodd, ond am burdeb calon. Hiraethai am lawenydd sancteiddrwydd - am gael ei adfer i gydgordiad a chymundeb â Duw. Dyma oedd iaith ei enaid:

Gwyn ei fyd y neb y maddeuwyd ei drosedd, ac y cuddiwyd ei bechod.

Gwyn ei fyd y dyn ni chyfrif yr Arglwydd iddo anwiredd,  
Ac ni byddo dichell yn ei ysbryd.

Trugarha wrthyf, o Dduw, yn ôl dy drugarowgrwydd:  
Yn ôl lliaws dy dosturiaethau, dilea fy anwireddau....

Canys yr wyf yn cydnabod fy nghamweddau: a’ m pechod  
sydd yn wastad ger fy mron. . . .

Glanha fi ag isop, a mi a lanheir: golch fi, a byddaf wynnach na’r  
eira....

Crea galon lân ynof, O Dduw;  
Ac adnewydd ysbryd uniawn o’ m mewn.

Na fwrw fi ymaith oddi ger dy fron;  
Ac na chymer dy ysbryd sanctaidd oddi wrthyf.

Dyro drachefn i mi orfoledd dy iachawdwriaeth;  
Ac a’th hael ysbryd cynnal fi. . . .

Gwared fi oddi wrth waed, O Dduw, Duw fy iachawdwriaeth:

A'm tafod a gân yn llafar am dy gyfiawnder.”

**Salm 32:1, 2; 51:1-14.**

Mae edifeirwch fel hwn tu hwnt i'n galluoedd ein hunain ei gyrraedd; derbynir ef yn unig oddi wrth Grist, yr hwn a esgynodd yn uchel, ac a roes roddion i ddynion.

Ceir yma bwynt lle mae llawer yn cyfeiliorni, a thrwy hynny y maent yn methu derbyn y cymorth y dymuna Crist ei roddi iddynt. Tybiant na allant ddyfod at Grist os na wnânt yn gyntaf edifarhau, a bod yr edifeirwch hwnnw yn paratoi y ffordd i faddeuant o'u pechodau. Gwir fod edifeirwch yn blaenori maddeuant pechodau; oblegid y galon doredig a chystuddiedig yn unig a deimla yr angen am Waredwr. Ond a raid i'r pechadur aros nes iddo edifarhau cyn y gall ddyfod at yr Iesu? A yw edifeirwch i gael ei wneud yn atalfa rhwng y pechadur a'r Gwaredwr?

Nid yw'r Beibl yn dysgu fod yn rhaid i'r pechadur edifarhau cyn y gall ystyried gwahoddiad Crist. “Deuwch ataf fi bawb a'r y sydd yn flinderog ac yn llwythog, a mi a esmwythâf arnoch.” Matt. 11:28. Y rhinwedd sydd yn mynd allan o Grist yw'r hyn sydd yn arwain i edifeirwch pur. Gwnaeth Pedr y mater yn glir yn ei ddatganiad i'r Israeliaid, pan y dywedodd, “Hwn a ddyrchafodd Duw â'i ddeheulaw, yn Dywysog, ac yn Iachawdwr, i roddi edifeirwch i Israel, a maddeuant pechodau.” Actau 5:31. Ni allwn edifarhau heb Ysbryd Crist i ddeffro ein cydwybod mwy nac y gellir maddau heb Grist.

Crist ydyw ffynhonell pob cymhelliad da. Efe yw'r unig un all blannu gelyniaeth at bechod yn y galon. Mae pob dymuniad am wirionedd a phurdeb, pob argyhoeddiad o'n pechod ein hunain, yn brawf fod ei Ysbryd Ef yn symud ar wyneb ein calonnau.

Yr Iesu a ddywedodd, “A minnau, os dyrchefir fi oddi ar y ddaear, a dynnaf bawb ataf fy hun.” Ioan 12:32. Rhaid i Grist gael ei ddatguddio i'r pechadur fel Iachawdwr yn marw dros bechodau y byd; ac fel yr edrychwn ar Fab Duw ar groes Calfaria, mae dirgelwch iachawdwriaeth yn dechrau datblygu yn ein meddyliau, ac mae da-

[21]

ioni Duw yn ein tywys i edifeirwch. Wrth farw dros bechaduriaid,

eglurodd Crist y cariad sydd yn y tu hwnt i amgyffred; ac fel mae'r pechadur yn canfod y cariad hwn, mae yn tyneru y galon, yn gwneud argraff ar y meddwl, ac yn ysbrydoli edifeirwch yn yr enaid.

Mae'n wir fod dynion weithiau yn dyfod i deimlo cywilydd am eu ffvrdd pechadurus, ac yn rhoddi heibio rai o'u harferion drygionus, cyn eu bod yn ymwybodol eu bod yn cael eu tynnu at Grist. Ond pa bryd bynnag y gwnant ymdrech at ddiwygio, oherwydd dymuniad cywir am wneud yr hyn sydd iawn, gallu Crist sydd yn eu tynnu. Gweithreda ar yr enaid ddylanwad o ba un y maent hwy yn anymwybodol, a bywioceir y gydwybod, ac mae'r bywyd allanol yn cael ei ddiwygio. Ac fel mae Crist yn eu tynnu i edrych ar ei groes Ef, i edrych arno Ef yr Hwn a drywanwyd gan eu pechodau. daw y gorchymyn adref i'r gydwybod. Datguddir iddynt ddrygioni eu bywyd, a phechod dwfn yr enaid. Dechreuant amgyffred rhywbeth o gyfiawnder Crist, a gwaeddant, "Beth yw pechod, fel y gofynid y fath aberth er adferiad yr un sydd yn aberth iddo? A oedd yr holl gariad hwn, yr holl ddioddef yma, y darostyngiad hwn i gyd, yn cael ei ofyn, fel na chollid ni, eithr caffael ohonom fywyd tragwyddol?"

Gall y pechadur wrthwynebu y cariad hwn, gwrthod cymryd ei dynnu at Grist; ond os na wrthwyneba, bydd iddo gael ei dynnu at Grist; bydd i wybodaeth o drefn yr iachawdwriaeth ei arwain at droed y groes mewn edifeirwch am ei bechodau, y rhai fu yn achos i Fab Duw ddioddef.

Yr un meddwl Dwyfol sydd yn gweithio ar bethau natur sydd yn llefaru wrth galonnau dynion, ac yn creu blys anhraethadwy am rhywbeth nad yw ganddynt. Ni all pethau y byd fodloni eu hiraeth. Mae Ysbryd Duw yn erfyn arnynt i geisio y pethau hynny a all yn unig roddi tangnefedd a gorffwys - gras Crist, a llawenydd sancteiddrwydd. Trwy ddylanwadau gweledig ac anweledig, mae ein Gwardwr yn gyson ar waith yn denu meddyliau dynion oddi wrth bleserau pechod, na allant fodloni, at y bendithion anfeidrol a all fod yn eiddo iddynt ynddo Ef. At yr holl eneidiau hynny, sy'n ceisio yn ofer yfed o bydewau toredig y byd yma, mae'r genadwri Ddwyfol yn cael ei chyfeirio, "A'r hwn sydd â syched arno, deued. A'r hwn sydd yn ewyllysio, cymered ddwfr y bywyd yn rhad." Dat. [22] 22:17.

Boed i ti sydd yn dy galon yn hiraethu am rywbeth gwell nas dichon y byd hwn ei roddi, adnabod yr hiraeth hwn fel llais Duw

i’th enaid. Gofyn iddo Ef roddi i ti edifeirwch, i ddatguddio Crist i ti yn ei anfeidrol gariad, yn ei burdeb perffaith. Cafodd egwyddorion deddf Duw - cariad at Dduw a dyn - eu hegluro yn berffaith ym mywyd y Gwardedwr. Cymwynasgarwch, cariad anhunanol oedd bywyd ei enaid Ef. Yn ôl fel y byddwn yn edrych arno Ef, fel y disgyna y goleuni oddi wrth y Gwardedwr arnom ni, y gwelwn bechadurusrwydd ein calonnau ein hunain.

Dichon i ni fod yn canmol ein hunain, fel y gwnaeth Nicodemus, fod ein bywyd wedi bod yn dda, fod ein cymeriad moesol yn gywir, a chredu nad oes angen arnom ni ddarostwng y galon gerbron Duw, fel y pechadur cyffredin; ond pan lewyrcha y goleuni oddi wrth Grist i mewn i’n heneidiau, cawn weld pa mor amhur ydym; cawn weld hunanoldeb, yr elyniaeth yn erbyn Duw, a haloga bob gweithred. Y pryd hynny y cawn sylweddoli fod ein cyfiawnderau ein hunain yn wir megis bratiau budron, ac mai gwaed Crist yn unig a ddichon ein glanhau oddiwrth halogrwydd pechod, ac adnewyddu ein calonnau yn ôl ei ddelw ei hun.

Un pelydryn o ogoniant Duw, un tywyniad o burdeb Crist, yn treiddio i’r enaid, wnaiff bob brycheuyn o halogrwydd yn boenus amlwg, gan ddinoethi gwrthuni a diffygion y cymeriad dynol. Dengys yn amlwg y dymuniadau ansanctaid, anghrediniaeth y galon, halogrwydd y gwefusau. Gwneir yn noeth i lygaid y pechadur ei weithredoedd anheyrngar sy’n gwneuthur yn ddirym gyfraith Duw, a gwneir ei ysbryd yn ddiymadferth a chystuddiedig dan ddylanwad treiddiol Ysbryd Duw. Efe a ffeiddia ei hun wrth edrych ar gymeriad pur a difrycheulyd Crist.

Pan welodd y proffwyd Daniel y gogoniant a amgylchynai y cenhadwr nefol a ddanfonwyd ato, gorchfygwyd ef gan deimlad o’i wendid a’i amherffeithrwydd ei hun. Wrth ddisgrifio effaith y weledigaeth ryfedd, dywed, “Ac ni thrigodd nerth ynof: canys fy ngwedd a drodd ynof yn llygredigaeth, ac nid ateliais nerth.” Dan. 10:8. Mae’r enaid a gyffyrddir fel hyn yn casáu ei hunanoldeb, yn ffeiddio ei hunan-gariad, a thrwy gyfiawnder Crist yn ceisio y purdeb calon sydd mewn cytgoriad â deddf Duw a chymeriad Crist.

Dywed Paul ei fod “yn ôl y cyfiawnder sydd yn y ddeddf” - mor bell ag yr oedd gweithredoedd allanol yn y cwestiwn - yn “ddiargyhoedd” (Phil. 3:6); ond pan welwyd cymeriad ysbrydol y ddeddf gwelodd ei hun yn bechadur. A barnu ei hun yn ôl llythyren

y gyfraith, fel mae dynion yn ei chymwysu at y bywyd allanol, yr oedd wedi ymwrthod â phechod; eithr pan edrychodd i ddyfnderoedd ei gorchymynion sanctaidd a gweld ei hun fel yr oedd Duw yn ei weld, plygodd mewn ymddarostyngiad, a chyffesodd ei euogrwydd. Dywed, “Eithr yr oeddwn i gynt yn fyw heb y ddeddf; ond pan ddaeth y gorchymyn, yr adfywiodd pechod, a minnau a fûm farw.” Rhuf. 7:9. Pan welodd natur ysbrydol y ddeddf, ymddangosodd pechod yn ei wir erchylltra, a’i hunan-gyfiawnder a giliodd.

Nid yw bob pechod yn gyfartal yng ngolwg Duw; mae graddau euogrwydd yn ei olwg Ef, yn ogystal ag yng nghyfrif dyn; ond pa mor ddibwys bynnag y dichon i’r weithred ddrwg hon neu arall ymddangos yng ngolwg dynion, nid oes un pechod yn fychan yng ngolwg Duw. Mae dyfarniad dyn yn rhannol ac amherffaith; ond y mae Duw yn cyfrif pob peth fel y maent mewn gwirionedd. Dirmygir y meddwyn, a dywedir wrtho y bydd i’w bechod ei gau allan o’r nefoedd; tra mae balchder, hunanoldeb, a chybydd-dod yn rhy fynych yn mynd heb gerydd. Eithr mae y rhai hyn yn bechodau sydd yn neilltuol wrthun i Dduw; oblegid y maent yn groes i gymwyn-asgarwch, ei gymeriad, i’r cariad anhunanol hwnnw sydd yn wir awyrgylch y greadigaeth ddigwmp. Gall yr hwn a syrthia i rai o’r bechodau mwyaf gwrthun feddu ymdeimlad o’i warth, a’i dlodi, a’i angen am ras Crist; ond ni theimla balchder angen o gwbl, a thrwy hynny mae yn cau y galon yn erbyn Crist, a’r bendithion anfeidrol y daeth Ef i’w cyfranu.

Publican druan a weddiodd, “O Dduw, bydd drugarog wrthyf bechadur” (Luc 18:13), ac edrychai arno ei hun fel dyn tra phechadurus, ac edrychai eraill arno yn yr un golau; ond yr oedd ef yn sylweddoli ei angen, a chyda’i faich o euogrwydd a gwarth daeth gerbron Duw, gan ofyn am drugaredd. Yr oedd ei galon yn agored i Ysbryd Duw wneud ei waith grasol, a’i ryddhau oddi wrth allu pechod. Dangosai gweddi fostfawr, hunan-gyfiawn y Pharisead fod ei galon yn gaeëdig i ddylanwad yr Ysbryd Glân. Oherwydd ei bellter oddi wrth Dduw nid oedd ganddo ymdeimlad o’i halogrwydd ei hun mewn cyferbyniad â’r perffeithrwydd sanctaidd Dwyfol. Ni theimlai ddim angen, a chan hynny ni allai dderbyn dim.

Os wyt yn gweld dy bechadurusrwydd, paid ag aros i wneud dy hunan yn well. Pa faint sydd yn meddwl nad ydynt yn ddigon da i ddyfod at Grist. A wyt yn disgwyl dyfod yn well drwy dy

ymdrechion dy hunan? “A newidia yr Ethiopiad ei groen, neu y llewpard ei frychni? felly chwithau a ellwch wneuthur da, y rhai a gynefinwyd â gwneuthur drwg.” Jer. 13:23. Yn Nuw yn unig y ceir cymorth i ni. Ni ddylem ddisgwyl am gymhellion cryfach, am gyfleusterau gwell, neu am dymherau mwy sanctaidd. Ni allwn wneud dim ohonom ein hunain. Rhaid i ni ddyfod at Grist megis ag yr ydym.

Eithr na thwyllled neb ei hunan gyda’r syniad y gwna Duw, yn ei fawr gariad a’i drugaredd, eto achub hyd yn oed wrthodwyr ei ras. Yng ngoleuni y groes yn unig y gellir cyfrif pechaduruswydd dirfawr bechod. Pan argymhella dynion fod Duw yn rhy dda i fwrw ymaith y pechadur, boed iddynt edrych i Galfaria. Am nad oedd ffordd arall i gadw dyn. oherwydd ei bod yn amhosibl i’r hil ddynol ddianc rhag dylanwad llwgr pechod heb y cyfryw aberth, a chael eu hadfer i gymundeb â bodau sanctaidd - yn amhosibl iddynt drachefn ddyfod yn gyfranogion o’r bywyd ysbrydol - oherwydd hyn y cymerodd Crist arno ei hunan euogrydd yr anufudd-dod, a dioddef yn lle’r pechadur. Mae cariad a dioddefaint a marwolaeth Mab Duw oll yn tystio i ddrygioni ofnadwy pechod, ac yn dangos nad oes dihangfa rhag ei awdurdod, dim gobaith am fywyd uwch, ond trwy ymostyngiad yr enaid i Grist.

Mae’r anedifeiriol weithiau yn ymesgusodi trwy ddweud am Gristionogion proffesedig, “Yr wyf fi cystal â hwythau. Nid ydynt yn fwy hunanymwadol, difrifol, neu ochelgar yn eu hymddygiad nac ydwyf finnau. Maent yn caru pleser a hunanfodddhad yn gystal â minnau.” Yn y modd yma, gwnânt ddiffygion eraill yn esgus dros eu hesgeulusdra eu hunain o ddyletswydd. Eithr nid yw pechodau a diffygion eraill yn esgusodi neb; oblegid ni roddodd yr Arglwydd i ni gynllun dynol diffygiol. Rhoddwyd Mab difrycheulyd Duw fel ein hesiampl, a’r rhai sy’n cwyno am gam-fuchedd Cristionogion proffesedig yw r rhai a ddylai ddangos bywydau gwell, ac esiamplau ardderchocach. Os oes ganddynt syniad mor uchel am yr hyn y dylai Cristion fod, onid yw eu pechod eu hunain gymaint â hynny yn fwy? Gwyddant pa beth sydd yn iawn, ac eto gwrthodant ei wneuthur.

Gochelwch rhag oedi. Peidiwch ag esgeuluso y gwaith o ymadael â’ch pechodau a cheisio purdeb calon drwy’r Iesu. Dyma lle mae miloedd wedi methu, er eu colled dragwyddol. Ni arhosaf yma ar fyrder ac ansicrwydd bywyd; ond mae perygl ofnadwy - perygl nad



yw yn cael ei ddeall yn ddigonol - mewn oedi ildio i lais perswâd yr Ysbryd Sanctaidd Duw, trwy ddewis byw mewn pechod; canys dyna mewn gwirionedd yw'r oediad hwn. Ni ellir ymfodloni mewn pechod, pa mor fychan bynnag y dichon iddo gael ei gyfrif, ond yn unig dan berygl colled anfeidrol. Yr hyn na orchfygir a'n gorchfyga ni, a gweithia allan ein dinistr.

Darfu i Adda ac Efa berswadio eu hunain na allai y fath ganlyniadau erchyll ag a fynegwyd gan Dduw ddilyn peth mor fychan â bwyta o'r ffrwyth gwaharddedig. Ond y peth bychan hwn oedd troseddu yn erbyn deddf sanctaidd ac anghyfnewidiol Duw, a darfu iddo ysgaru dyn oddi wrth Dduw, ac agor llif-ddorau marwolaeth a gwae nas mynegwyd ar ein byd ni. Oes ar ôl oes y mae cri barhaus o alar wedi esgyn i fyny o'n daear ni, ac mae'r holl greadigaeth yn cydochneidio ac yn cydofidio mewn poen, o ganlyniad i anufuddod dyn. Teimlodd y nefoedd ei hunan effeithiau ei wrthryfel yn erbyn Duw. Saif Calfaria fel cof-golofn o'r aberth ryfeddol oedd yn ofynol er adfer yr hyn a gollwyd trwy droseddu y gyfraith Ddwyfol. Na fydded i ni edrych ar bechod fel peth dibwys.

Mae pob gweithred o drosedd, pob esgeulusdod neu wrthodiado ras Crist, yn adweithio arnoch eich hunain; maent yn caledu y galon, yn llygru yr ewyllys, yn marweddio y deall, ac nid yn unig yn eich gwneud yn llai tueddol i ildio, ond yn llai galluog i ildio i berswâd tyner Ysbryd Sanctaidd Duw.

Mae llawer yn tawelu cydwybod gyffrous gyda'r dybiaeth y gallant newid cwrs pechod pryd y mynont; y gallant chwarae â gwahoddiadau trugaredd, ac eto gael argraffu arnynt drachefn a thrachefn. Tybiant y gallant, ar ôl dirmygu Ysbryd y gras, ar ôl taflu eu dylanwad o blaid Satan, newid eu cwrs mewn moment o wasgfa erchyll. Ond nid mor hawdd y gwneir hyn. Mae profiad, yr addysg am fywyd, wedi ffurfio y cymeriad mor drwyadl fel mai ychydig y pryd hynny a ddymunent dderbyn delw yr Iesu.

[26]

Mae hyd yn oed un linell ddrwg o gymeriad, un dymuniad pechadurus, o'i achlesu yn barhaus yn gwneud holl ddylanwad yr Efyngyl yn ddi-rym. Mae pob ymfodddhad pechadurus yn cryfhau gwrthwynebiad yr enaid i Dduw. Ni wna y dyn a ddengys hyfdra yr anffyddiwr, neu ddifaterwch ynfyd o wirionedd Dwyfol, ond medi yr hyn a haedd ei hunan. Ni cheir yn yr holl Feibl rybudd mwy

arswydus yn erbyn chwarae â drwg na geiriau y gŵr doeth, fod yr annuwiol yn cael ei ddal “â rhaffau ei bechod ei hun.” Diar. 5:22.

Mae Crist yn barod i'n rhyddhau oddi wrth bechod, ond nid yw yn gorfodi yr ewyllys; ac os yw'r ewyllys ei hunan trwy droseddu parhaus yn gwbl dueddol at ddrwg, a ninnau heb ddymuno cael ein rhyddhau, os na ewyllysiwn dderbyn ei ras, pa beth yn fwy all Efe ei wneuthur? Yr ydym wedi dinistrio ein hunain trwy wrthod yn fwriadol ei gariad Ef. “Wele, yn awr yr amser cymeradwy; wele, yn awr ddydd yr iachawdwriaeth.” 2 Cor. 6:2. “Heddiw, os gwrandewch ar ei leferydd ef, na chaledwch eich calonnau.” Heb. 3:7, 8.

“Canys dyn a edrych ar y golygiad; ond yr Arglwydd a edrych ar y galon” (1 Sam. 16:7) - y galon ddynol, gyda'i theimladau ymrysonol o lawenydd a thristwch - y galon ystyfnig, grwydredig, sydd yn drigfa cymaint o amhuredd a thwyll. Gŵyr Efe ei chymhellion, ei gwir amcanion a'i bwriadau. Dos ato Ef gyda'th enaid fel y mae wedi ei hollol lychwino. Tafl ei chilfachau, fel y Salmydd, yn agored i'r Llygad Hollweledig, a dywed, “Chwilia fi, O Dduw, a gwybydd fy nghalon; prawf fi, a ewybydd fy meddyliau. A gwêl a oes ffordd annuwiol gennyf, a thywys fi yn y ffordd dragwyddol.” Salm 139:23, 24.

Pan nad yw'r galon wedi ei glanhau ceir llawer yn derbyn crefydd deallol, rhith duwioldeb. Bydded i'th weddi fod, “Crea galon lân ynof, O Dduw, ac adnewyddda ysbryd uniawn o'm mewn.” Salm 51:10. Delia yn onest â'th enaid dy hun. Bydd mor ddifrifol, mor ddyfal-barhaol, fel y buaset pe byddai dy fywyd marwol mewn perygl. Mater i'w benderfynu rhwng Duw a'th enaid dy hun ydyw hwn - i'w benderfynu am dragwyddoldeb. Bydd i obaith tybiedig, a dim mwy, brofi yn ddinistr i ti.

[27] Myfyria dros Air Duw yn weddigar. Gesyd y Gair hwnnw o'th flaen, yng nghyfraith Duw a bywyd Crist, egwyddorion mawr sanct-eiddrwydd, “heb yr hwn ni chaiff neb weled yr Arglwydd.” Heb. 12:14. Mae yn dy argyhoeddi o bechod; mae yn datguddio yn eglur ffordd iachawdwriaeth. Dyro ystyriaeth iddo fel Uais Duw yn llefaru wrth dy enaid.

Wrth i ti weld erchylldra dy bechod, wrth i ti weld dy hunan fel yr wyt mewn gwirionedd, paid ag anobeithio. I gadw pechaduriaid y daeth Crist. Ni raid i ni gymodi Duw â ni, ond - O gariad rhyfeddol!

Mae Duw yng Nghrist yn “cymodi’r byd ag ef ei hun.” 2 Cor. 5:19. A’i gariad tyner mae yn denu calonnau ei blant camweddus. Ni allai un rhiant daearol fod mor amyneddgar gyda diffygion a chamgymeriadau ei blant ag ydyw Duw gyda’r rhai y ceisia eu cadw. Ni allai neb bledio yn fwy tyner gyda’r troseddwr. Ni ddarfu unrhyw wefusau dynol erioed dywallt allan erfyniadau tynerach at y crwydryn nac y gwna Efe. Nid yw ei holl addewidion a’i rybuddion ond anadliad cariad anhraethadwy.

Pan ddaw Satan i ddweud wrthyt dy fod yn bechadur mawr, edrych i fyny at dy Waredwr, a siarad am ei haeddianau. Yr hyn a’th gynorthwya ydyw edrych i fyny at ei oleuni Ef. Addefa dy bechod, ond dywed wrth y gelyn “Ddyfod Crist Iesu i’r byd i gadw pechaduriaid” (1 Tim. 1:15), ac y gellir dy gadw dithau drwy ei gariad anhraethol. Gofynnodd yr Iesu i Simon gwestiwn ynghylch dau ddyledwr. Yr oedd un yn nyled ei arglwydd o swm bychan, a’r llall yn ei ddyled o swm mawr iawn; eithr efe a faddeuodd i’r ddau, a gofynnodd Crist i Simon pa ddyledwr a garai ei arglwydd fwyaf. Atebodd Simon, “mai’r hwn y maddeuodd efe iddo fwyaf.” Luc 7:43. Ni a fuom bechaduriaid mawrion; eithr bu Crist farw fel y gellid maddau i ni, a chael ein hadfer i gytgordiad â’r nef. Ei gyfiawnder Ef yn unig all roddi i ni allu i fod yn feibion i Dduw. Y rhai y maddeuodd iddynt fwyaf a’i carant fwyaf, ac a safant agosaf at ei orsedd i’w foliannu am ei fawr gariad a’i aberth anfeidrol. Yn ôl fel y byddwn yn amgyffred cariad Duw y bydd i ni sylweddoli pechadurusrwydd pechod. Pan welwn hyd y gadwyn a ollyngwyd i lawr i ni, pan ddeallwn rywbeth o’r aberth anfeidrol a wnaeth Crist drosom. toddir y galon i dynerwch ac edifeirwch.

## Article 4—CyffesuYFFESU

“Y NEB A guddio ei bechodau, ni Iwydda: ond y neb a’u haddefo, ac a’u gadawo, a gaiff drugaredd.” Diar. 28:13.

Mae amodau derbyn trugaredd gan Dduw yn syml, yn gyfiawn, a rhesymol. Nid yw’r Arglwydd yn gofyn i ni wneud rhywbeth poenus er mwyn cael maddeuant o bechod. Ni raid i ni wneud pererindodau pellenig a blinderus, na chyflawni penyd poenus, i gymeradwyo ein heneidiau i Dduw y nefoedd neu i wneud iawn am ein trosedd; ond y neb a gyffeso ac a adawo ei bechod a gaiff drugaredd.

Dywed yr apostol, “Cyffeswch eich camweddau bawb i’ch gilydd, ... fel y’ch iachaer.” Iago 5:16. Cyffeswch eich pechodau i Dduw, Ef yn unig all eu maddau, a’ch diffygion i’ch gilydd. Os gwnaethoch ddrwg i’ch cyfaill neu gymydog, yr ydych i gydnabod eich bai, a’i ddyletswydd yntau ydyw maddau i chwi yn rhydd. Wedi hynny, dylech ceisio maddeuant gan Dduw, oblegid mae’r brawd a ddoluriwyd gennych yn eiddo Duw, ac wrth ei niweidio ef, ‘rydych wedi pechu yn erbyn ei Greawdwr a’i lachawdwr. Dygir yr achos gerbron yr unig wir Gyfryngwr, ein Harchoffeiriad mawr, a demtiwyd “ym mhob peth yr un ffunud â ninnau, eto heb bechod,” a’r hwn sydd yn medru “cyd-ddioddef gyda’n gwendid ni” (Heb. 4:15), ac yn abl i’n glanhau oddi wrth bob staen o anwiredd.

Nid yw’r rhai hynny nad ydynt wedi darostwng eu heneidiau gerbron Duw mewn cydnabyddiaeth o’u heuogrwydd, eto wedi cyflawni amod gyntaf cymeradwyaeth. Os nad ydym wedi profi’r edifeirwch hwnnw yr hwn nad edifarheir amdano, ac nad ydym gyda gwir ymstyngiad enaid ac ysbryd drylliedig wedi cyffesu ein pechodau, gan ffeiddio ein hanwiredd, nid ydym erioed yn ddifrifol wedi ceisio maddeuant pechodau; ac os na ddarfu i ni erioed geisio, nid ydym erioed wedi derbyn heddwch Duw. Yr unig reswm nad ydym yn derbyn maddeuant y pechodau a wnaed o’r blaen yw, nad ydym am ddarostwng ein calonnau a chydymffurfio ag amodau Gair y gwirionedd. Rhwir cyfarwyddyd clir yn y mater hwn. Dylai cyfaddef pechod, boed gyhoeddus neu ddirgel, gael ei deimlo yn y galon, a’i

ddatgan yn rhydd. Nid yw i gael ei dynnu oddi wrth y pechadur. Nid yw i gael ei wneud mewn ffordd ysgafn a diofal, neu i gael ei orfodi oddi wrth y rhai hynny nad oes ganddynt deimlad gwirioneddol o gymeriad ffaithd pechod. Mae'r gyffes sydd yn dywalltiad o'r enaid mewnol yn mynd at y Duw o anfeidrol dosturi. Dywed y Salmydd, "Agos yw yr Arglwydd at y rhai drylliedig o galon; ac Efe a geidw y rhai briwedig o ysbryd." Salm 34:18.

Mae gwir gyffes bob amser o gymeriad penodol, ac yn cydnabod pechodau neilltuol. Gallant fod o'r fath natur fel ag i'w dwyn yn unig gerbron Duw; gallant fod yn feiau y dylid eu cyffesu wrth unigolion a niweidiwyd drwyddynt; neu gallant fod o gymeriad cyhoeddus, a dylent felly gael eu cyffesu yr un mor gyhoeddus. Eithr dylai pob cyffesiad fod yn benodol ac i'r pwynt, yn cydnabod y gwir bechodau yr ydych yn euog ohonynt.

Yn nyddiau Samuel, crwydrodd yr Israeliaid oddi wrth Dduw. Dioddef yr oeddynt ganlyniadau pechod; oblegid collasant eu ffydd yn Nuw, collasant eu gallu i weld ei allu a'i ddoethineb i reoli y genedl, collasant eu hymddiriedaeth yn ei gymhwyster i gynnal ac amddiffyn ei achos. Troesant oddi wrth Reolwr mawr y greadigaeth, gan ddymuno cael eu llywodraethu fel y cenhedloedd o'u hamgylch. Cyn cael heddwch, gwnaethant y gyffes benodol a ganlyn: "Canys chwanegasom ddrygioni ar ein holl bechodau, wrth geisio i ni frenin." 1 Sam. 12:19. Rhaid oedd cyffesu yr un pechod ag yr argyhoeddwyd hwy ohono. Bu eu haniolchgarwch yn gorthrymu eu heneidiau, a'u gwahanu oddi wrth Dduw.

Ni fydd cyffes yn gymeradwy gan Dduw heb wir edifeirwch a diwygiad. Rhaid fod cyfnewidiadau pendant yn y bywyd; rhaid bwrw ymaith bopeth sydd yn digio Duw. Hyn fydd ffrwyth gwir dristwch am bechod. Mae'r gwaith sydd gennym i'w gyflawni o'n hochr ni yn cael ei osod yn eglur ger ein bron: "Ymolchwch, ymlanhewch, bwriwch ymaith ddrygioni eich gweithredoedd oddi ger bron fy llygaid; peidiwch â gwneuthur drwg; dysgwch wneuthur daioni: ceisiwch farn, gwnewch uniondeb i'r gorthrymedig, gwnewch farn i'r amddifad, dadleuwch dros y weddw" (Esa. 1:16, 17), "Os yr annuwiol a ddadrydd wystl, ac a rydd yn ei ôl yr hyn a dreisiodd, a rhodio yn neddfau y bywyd, heb wneuthur anwiredd; gan fyw y bydd efe byw, ni bydd marw." Esec. 33:15. Dywed Paul, wrth siarad am waith edifeirwch, "Canys wele hyn yma, eich tristáu chwi yn

dduwiol, pa astudrwydd ei faint a weithiodd ynoch. ie, pa amddiffyn, ie, pa soriant, ie, pa ofn, ie, pa awyddfryd, ie, pa sêl, ie, pa ddial! Ym mhob peth y dangosasoch eich bod yn bur yn y peth hwn.” 2 Cor. 7:11.

Pan fod pechod wedi torri grym y ddirnadaeth foesol, nid yw'r drwg-weithredwr yn canfod diffygion ei gymeriad, nac yn sylweddoli y drwg ysgeler a wnaeth; ac oni ildia i ddylanwad argyhoeddiadol yr Ysbryd Gian, erys yn rhannol ddall i bechod. Nid yw ei gyffesiadau yn gywir a difrifol. At bob cydnabyddiaeth o'i euogrwydd, fe ychwanega amddiffyniad er esgusodi ei ymddygiad, gan ddweud pe na byddai am amgylchiadau penodol, na fuasai wedi cyflawni hyn neu arall, y ceryddir ef amdano.

Ar ôl i Adda ac Efa fwyta o'r ffrwyth gwaharddedig, fe u llanwyd gan deimlad o gywilydd a dychryn. Eu hunig feddwl ar y cyntaf oedd pa fodd y gallent esgusodi eu pechod, ac osgoi dedfryd fygythiol marwolaeth. Pan ymofynodd yr Arglwydd ynghylch eu pechod, atebodd Adda, gan daflu yr euogrwydd mewn rhan ar ei gydymaith ac mewn rhan ar Dduw, “Y wraig a roddaist gyda mi, hi a roddodd i mi o'r pren, a mi a fwyteais.” Rhoddodd y wraig y bai ar y sarff, gan ddywedyd. “Y sarff a'm twyllodd, a bwyta a wnaethum.” Gen. 3:12, 13. Paham y gwnaethost y sarff? Paham y goddefaist iddi ddyfod i Eden? Dyma y cwestiynau a awgrymid yn ei hesgus am ei phechod, ac felly yn taflu ar Dduw gyfrifoldeb eu cwyp. Dechreuodd ysbryd hunan-gyfiawnder yn nhad y celwyddau, ac mae wedi cael ei arddangos gan holl feibion a merched Adda. Nid yw cyffesiadau o'r math yma yn cael eu hysbrydoli gan yr Ysbryd Dwyfol, ac ni fyddant gymeradwy gan Dduw. Bydd i wir edifeirwch arwain dyn i ddwyn ei euogrwydd ei hunan, a'i gydnabod heb dwyll neu ragrith. Fel y publican druan, heb gymaint â chodi ei olygon tua'r nef, efe a weddïa, “O Dduw, bydd drugarog wrthyf fi bechadur.” A'r rhai

[31]

[32]

## Article 5—Ymgysgriad

ADDEWID DUW YDYW, “Ceisiwch fi hefyd, a chwi a’ m cewch, pan y m ceisioch â’ch holl galon.” Jer. 29:13.

Rhaid ildio’r holl galon i Dduw, neu ni ellir byth weithredu ynom y cyfnewidiad in hadfer i’w gyffelybrwydd Ef. Yr ydym wrth natur wedi ein dieithrio oddi wrth Dduw. Mae’r Ysbryd Glân yn disgrifio ein cyflwr yn y fath eiriau â’r rhai hyn: “Meirw mewn camweddau a phechodau,” “y pen oll sydd glwyfus, a’r holl galon yn llesg,” “nid oes dim cyfan ynddo.” Yr ydym yn cael ein dal yn gaeth yn magl Satan, “a ddelid ganddo wrth ei ewyllys ef.” Eph. 2:1; Esa. 1:5, 6; 2 Tim. 2:26. Mae Duw yn dymuno ein hiachâu, ein gollwng yn rhydd. Ond tra bo hyn yn gofyn diwygiad llwyr, adnewyddiad ein holl natur, rhaid i ni roddi ein hunain yn gwbl i fyny iddo Ef.

rhyfel yn erbyn hunan ydyw y frwydr fwyaf ymladdwyd erioed. Mae ildio hunan, rhoddi popeth i ewyllys Duw, yn gofyn ymdrech; eithr rhaid i’r enaid ymostwng i Dduw cyn y gellir ei adnewyddu mewn sancteiddrwydd.

Nid yw llywodraeth Duw, fel y mynasai Satan iddi ymddangos wedi’i seilio ar ymostyngiad dall, na rheolaeth ddireswm. Apelia at y deall a’r gydwybod. “Deuwch yr awr hon ac ymresymwn” (Esa. 1:18), ydyw gwahoddiad y Creawdwr i’r bodau a wnaeth. Nid yw Duw yn gorfodi ewyllys ei greaduriaid. Ni all dderbyn gwrogaeth nad yw yn cael ei rhoddi yn ewyllysgar ac yn ddeallgar. Byddai ymostyngiad gorfodol yn atal pob datblygiad gwirioneddol o feddwl neu gymeriad; gwnai ddyn yn beiriant yn unig. Nid hyn yw amcan y Creawdwr. Mae yn ewyllysio fod i ddyn, coron-waith ei allu creadigol, gyrraedd y datblygiad uchaf posibl. Gesyd ger ein bron uchder y fendith yr ewyllysia ein dwyn tuag ati, drwy ei ras. Gwahodda ni i roddi ein hunain iddo Ef, fel y gallo weithredu ei ewyllys ynom. Mae yn gorffwys arnom ni i ddewis a’n rhyddheir ni oddi wrth gaethiwed pechod, i gyfranogi o ryddid gogoneddus plant Duw.

[33]

Wrth roddi ein hunain i Dduw, rhaid i ni o angenrheidrwydd ymwadu â phob peth a'n gwahana oddi wrtho Ef. Yn gyson â hyn y dywed y Gwarddwr, "Pob un ohonoch chwithau nid ymwrthodo â chymaint ol ag a feddo, ni all fod yn ddisgybl i mi." Luc 14:33. Pa beth bynnag a ddena y galon oddi wrth Dduw rhaid ei ymwrthod. Mammon ydyw eilun llawer. Cariad at arian, dymuniad am olud, yw'r gadwyn aur sydd yn eu cysylltu wrth Satan. Enw ac anrhydedd bydol a addolir gan ddosbarth arall. Bywyd o esmwythyd hunanol a rhyddid oddi wrth gyfrifoldeb sydd eilun i eraill. Ond rhaid torri y rhwymau caethiwus hyn. Ni allwn fod mewn rhan yn eiddo yr Arglwydd a'r hanner arall yn eiddo y byd. Nid ydym blant Duw os nad ydym felly yn hollol.

Ceir rhai sy'n proffesu gwasanaethu Duw, tra maent yn ymddiried yn eu hymdrechion eu hunain i ufuddhau i'w gyfraith, i ffurfio cymeriad iawn a sicrhau iachawdwriaeth. Ni chyffroir eu calonnau gan unrhyw deimlad dwfn o gariad Crist, eithr ceisiant gyflawni dyl-etswyddau y bywyd cristionogol fel yr hyn a ofyna Duw ganddynt er mwyn ennill nefoedd. Nid yw'r cyfryw grefydd yn werth dim. Pan fydd Crist yn preswyllo yn y galon, llenwir yr enaid â'i gariad, gyda llawenydd cymundeb ag Ef, fel y bydd iddo lynu wrtho; ac yn y myfyrdod ohono Ef, bydd i hunan gael ei anghofio. Bydd cariad at Grist yn ffynhonell gweithrediad. Ni ofyna y rhai sy'n teimlo cariad cymhelliadol Duw cyn lleied a ellir ei roddi er cyfarfod a gofynion Duw; ni ofynant am y safon isaf, ond anelant at gydymffurfiaid perffaith ag ewyllys eu Hiachawdwr. Gyda dymuniad difrifol ymwrthodant â phopeth, a dangosant ddiddordeb cyfartal â gwerth yr amcan a geisiant. Nid yw proffes o Grist heb y cariad dwfn yma yn ddim ond siarad, ffurfioldeb sych, a chaledwaith beichus.

A wyt ti yn teimlo ei fod yn ormod o aberth i ymwrthod â phopeth i Grist? Gofyna y cwestiwn i ti dy hun, "Beth a roddodd Crist dros of fi?" Rhoddodd Mab Duw y cyfan - bywyd a chariad ac aberth - er ein hiachawdwriaeth. Ac a ddichon y bydd i ni, gwrthrychau anheilwng cariad mor fawr, atal ein calonnau oddi wrtho? Bob eiliad o'n bywydau, cawsom fendithion ei ras, ac am y rheswm syml yma ni allwn sylweddoli yn llawn ddyfnderoedd yr anwybodaeth a'r trueni y gwaredwyd ni oddi wrtho. A allwn ni edrych arno Ef a drywanwyd gan ein pechodau ac eto fynnu dirmygu ei holl gariad a'i aberth? Yng ngolwg ymddarostyngiad anfeidrol Arglwydd y



gogoniant, a fydd i ni rwgnach am na allwn fynd i mewn i fywyd ond yn unig trwy ymdrech a hunan-ddarostyngiad?

Ymfyniad llawer calon falch yw, “Paham y rhaid i mi fynd mewn edifeirwch ac ymddarostyngiad cyn y gallaf gael sicrwydd o’r cymeradwyaeth gyda Duw?” Cyfeiriaf chwi at Grist. Yr oedd Efe yn ddibechod, a mwy na hyn, yr oedd Efe yn Dywysog y nef-oedd; ond er mwyn dyn Efe a ddaeth yn bechod dros yr hil. “Efe a gyfrifwyd gyda’r troseddwr; ac efe a ddug bechodau llaweroedd, ac a eiriolodd dros y troseddwr.” Esa. 53:12.

Ond beth a roddwn i fyny, pan yn rhoddi y cwbl? - Calon halogedig drwy bechod i’r Iesu i’w phuro. i’w glanhau drwy ei waed ei hun, ac i’w chadw drwy ei gariad digymar. Ac eto tybia dynion ei bod yn anodd rhoddi y cwbl i fyny! Yr wyf yn cywilyddio clywed hynny yn cael ei grybwyll, mae arnaf gywilydd ei ysgrifenu.

Nid yw Duw yn gofyn i ni ymwrthod â dim y mae ei gadw er ein lles. Ym mhob peth a wna, mae ganddo mewn golwg ddedwyddwch ei blant. O na fyddai i bawb nad ydvnt yn dewis Crist sylweddoli fod ganddo rhywbeth llawer iawn gwell i’w gynnig iddynt nac y ceisiant eu hunain! Mae dyn yn gwneud y niwed a’r anghyfiawnder mwyaf â’i enaid ei hun wrth feddwl a gweithredu yn groes i ewyllys Duw. Ni ellir cael gwir lawenydd yn y llwybr a waherddir gan yr Hwn a wŷr beth sydd orau, a’r Hwn sydd yn cynllunio er daioni ei greaduriaid. Llwybr trosedd ydyw llwybr trueni a dinistr.

Camgymeriad ydyw’r coleddu y syniad fod yn dda gan Dduw weld ei blant yn dioddef. Mae’r holl nefoedd yn teimlo diddordeb yn nedwyddwch dyn. Nid yw ein Tad nefol yn cau rhodfeydd llawenydd i neb o’i greaduriaid. Mae’r gofynion Dwyfol yn galw arnom i ochel y penrhyddid hwnnw sy’n dwyn dioddefaint a siomedigaeth, sy’n cau dôr dedwyddwch a nefoedd yn ein herbyn. Mae Gwardwr y byd yn derbyn dynion fel y maent, gyda’u holl anghenion, amherffeithion, a gwendidau; ac nid yn unig y mae’n glanhau oddi wrth bechod, a rhoddi iachawdwriaeth drwy ei waed, ond y mae’n bodloni dyheadau calon pob un a gydsynia i wisgo ei iau, a dwyn ei faich. Ei amcan Ef ydyw cyfrannu heddwch a gorffwys i bawb a ddaw ato am fara y bywyd. Ni ofyna i ni gyflawni ond yn unig y dyletswyddau hynny sy’n cyfeirio ein camau i’r gwynfyd eithaf lle ni ddichon yr anufudd byth gyrraedd. Cael Crist wedi ei ffurfio oddi mewn, yn obaith o’r gogoniant, ydyw gwir fywyd llawen yr enaid.

Mae llawer yn gofyn, “Pa fodd yr wyf fi i roddi fy hunan i Dduw?” Yr wyt yn dymuno rhoddi dy hun iddo Ef; ond yr wyt yn wan mewn nerth moesol, yng nghaethiwed amheuaeth, ac yn cael dy lywodraethu gan arferion dy fywyd o bechod. Mae dy addewidion a’th benderfyniadau megis rhaffau o dywod. Ni elli reoli dy feddyliau, dy ysgogiadau, dy serchiadau. Mae’r wybodaeth am dy addewidion toredig a’r addunedau aethant yn ofer yn gwanhau dy ymddiried yn dy gywirdeb dy hun, ac yn peri i ti deimlo na all Duw dy dderbyn; ond ni raid i ti anobeithio. Yr hyn sydd eisiau arnat ydyw dealt gwir nerth yr ewyllys. Hwn yw y gallu llywodraethol yn natur dyn, y gallu i benderfynu, neu i ddewis. Mae popeth yn dibynnu ar weithrediad yr ewyllys. Rhoddodd Duw i ddynion y gallu i ddewis; hwynt-hwy sydd i’w ymarfer. Ni elli newid dy galon, ni elli ohonot dy hun roddi i Dduw ei serchiadau; ond gelli ddewis ei wasanaethu. Gelli roddi dy ewyllys iddo Ef, ac wedi hynny fe weithreda Ef ynot i ewyllysio a gweithredu yn ôl ei ewyllys da ei hun. Fel hyn dygir dy holl natur dan lywodraeth Ysbryd Crist; canolbwyntir dy serchiadau arno Ef, bydd dy feddyliau mewn cytgord ag Ef.

Mae dymuniad am ddaioni a sancteiddrwydd yn iawn, ond ni fydd o leshad os nad yw’n datblygu. Collir llawer tra bont yn gobeithio ac yn dymuno bod yn Gristionogion. Nid ydynt yn dyfod at y pwynt o ildio yr ewyllys i Dduw. Nid ydynt yn dewis bod yn Gristionogion.

Trwy iawn ymarferiad o’r ewyllys, gellir gwneud cyfnewidiad trwyadl yn dy fywyd. Wrth ildio dy ewyllys i Grist, yr wyt yn ymgyfathrachu â’r Gallu sydd uwchlaw tywysogaethau ac awdurdodau. Cei nerth oddi uchod i’th ddal yn gadarn, ac fel hyn, drwy ildio dy hunan yn barhaus i Dduw galluogir di i fyw y bywyd newydd, ie, bywyd y ffydd.

[36]

[37]

## Article 6—Ffydd a derbyniad

GAN FOD DY gydwybod wedi ei deffro gan yr Ysbryd Glân, yr wyt wedi gweld rhywbeth o ddrygioni pechod, o'i allu, ei euog-rwydd, a'i wae; ac yr wyt yn edrych arno gyda ffeidd-dod. Yr wyt yn teimlo fod pechod wedi dy ysgaru oddi wrth Dduw, dy fod mewn caethiwed i allu y drwg. Po fwyaf yr ymdrechi i ddianc, mwyaf oll yr wyt yn sylweddoli dy anallu i gynorthwyo dy hun. Mae dy amcanion yn amhur; mae dy galon yn aflan. Yr wyt yn gweld fod dy fywyd wedi bod yn llawn o hunanoldeb a phechod. Yr wyt yn hiraethu am gael maddeuant, am gael dy lanhau, cael dy wneud yn rhydd. Cytgord â Duw, cyffelybrwydd iddo Ef - beth elli wneud i'w gael?

Heddwch sydd eisiau arnat - maddeuant a heddwch a chariad y Nefoedd yn yr enaid. Ni all arian ei brynu, ni all dealltwriaeth ei sicrhau, ni all doethineb ei gyrraedd; ni elli byth obeithio ei sicrhau. trwy dy ymdrech dy hun. Ond y mae Duw yn ei gynnig i ti fel rhodd, "heb arian ac heb werth." Esa. 55:1. Mae yn eiddo i ti, dim ond i ti estyn allan dy law a chymryd gafael ynddo. Dywed yr Arglwydd. "Pe byddai eich pechodau fel ysgariad, ânt cyn wynnied a'r eira; pe cochent fel porffor, byddant fel gwllân." Esa. 1:18. "A rhoddaf i chwi galon newydd, ysbryd newydd hefyd a roddaf o'ch mewn chwi." Esec. 36:26.

Yr wyt wedi cyffesu dy bechodau. ac wedi eu bwrw ymaith yn dy galon. Yr wyt wedi penderfynu rhoddi dy hunan i Dduw. Yn awr dôs ato Ef, a gofyn am iddo olchi ymaith dy bechodau, a rhoddi i ti galon newydd. Yna cred ei fod yn gwneud hyn, am ei fod wedi addo. Dyma'r wers a ddysgodd yr Iesu pan oedd ar y ddaear. fod yn rhaid i ni gredu ein bod yn derbyn y rhodd y mae Duw yn ei addo i ni, ac y mae yn eiddo i ni. Yr oedd yr Iesu yn iachau y bobl o'u clefydau pan fyddai ganddynt ffydd yn ei allu; cynorthwyai hwynt yn y pethau y gallent eu gweld, a thrwy hynny eu hysbrydoli ag ymddiriedaeth ynddo Ef o berthynas i'r pethau na allent eu gweld - gan eu harwain i gredu yn ei allu i faddau pechodauGosododd hyn

[38]

allan yn amlwg yn iachâd y claf o'r parlys: "Eithr fel y gwypoch fod awdurdod gan Fab y dyn ar y ddaear i faddau pechodau (yna y dywedodd efe wrth y claf o'r parlys), Cyfod, cymer dy wely i fyny a dos i'th dy." Matt. 9:6. Felly hefyd y dywed Ioan yr efengylwr, wrth siarad am wyrthiau Crist. "Eithr y pethau hyn a ysgrifennwyd, fel y credoch chwi mai yr Iesu yw Crist, Mab Duw; a chan gredu, y caffoch fywyd yn ei enw ef." Ioan 20:31.

Oddi wrth hanes syml y Beibl am y modd yr oedd Crist yn iachau y claf, gallwn ddysgu rhwmbeth ynghylch sut i gredu ynddo am faddeuant pechodau. Gadewch i ni droi at stori'r claf o'r parlys ym Methesda. Yr oedd y dioddefydd druan yn ddiymadferth; nid oedd wedi defnyddio ei aelodau am 38 o flynyddoedd. Eto gorchymynai yr Iesu iddo, "Cyfod, cymer dy wely i fyny, a rhodia." Ioan 5:1-9. Gallasai y dyn claf ddweud, "Arglwydd, os Tydi a'm gwnei yn iach, mi a ufuddhaf i'th air." Ond na, efe a gredodd air Crist, credodd ei fod yn cael ei wneud yn iach, a gwnaeth yr ymdrech ar unwaith; ewyllysiodd gerdded, ac fe gerddodd. Gweithredodd ar air Crist, a rhoddodd Duw y gallu. Gwnaed ef yn iach.

Yr wyt tithau hefyd yn bechadur. Ni elli wneud iawn am dy bechodau yn y gorffennol, ni elli newid dy galon, a gwneud dy hun yn sanctaidd. Eithr mae Duw yn addo gwneud hyn oll i ti drwy Grist. Cred yr addewid honno. Cyffesa dy bechodau, a rho dy hun i Dduw. Ewyllysia ei wasanaethu Ef. A'r un mor sicr ag y bydd i ti wneud hyn bydd i Dduw gyflawni ei air i ti. Os wyt yn credu yr addewid - cred dy fod yn cael maddeuant ac yn cael dy lanhau - ac mae Duw yn rhoddi y ffaith; cei dy wneud yn iach. megis y rhoddodd Crist i'r claf o'r parlys y gallu i gerdded pan gredodd y dyn ei fod yn cael ei iachau. Y mae felly os wyt ti yn ei gredu.

Paid ag aros i deimlo dy fod wedi dy wneud yn iach, eithr dywed, "Yr wyf yn ei gredu; y mae felly, nid am fy mod i yn ei deimlo, ond am fod Duw wedi addo."

[39] Dywed yr Iesu, "Beth bynnag oll a geisioch wrth weddio, credwch y derbyniwch, ac efe fydd i chwi." Marc 11:24. Mae yna amod i'r addewid yma - ein bod yn gweddio yn ôl ewyllys Duw. Ond ewyllys Duw yw ein glanhau oddi wrth bechod, ein gwneud yn blant iddo, a'n galluogi i fyw bywyd sanctaidd. Felly gallwn ofyn am y bendithion hyn, a chredu ein bod yn eu derbyn, a diolch i Dduw ein bod wedi eu derbyn. Ein braint ydyw mynd at yr Iesu a chael

ein glanhau, a sefyll gerbron y ddeddf heb gywilydd nac anghysur. “Nid oes gan hynny yn awr ddim damnedigaeth i’r rhai sydd yng Nghrist Iesu, y rhai sydd yn rhodio nid yn ôl y cnawd, eithr yn ôl yr Ysbryd.” Rhuf. 8:1.

O hyn allan nid wyt yn eiddo dy hunan; ti a brynwyd er gwerth. “Gan wybod nad â phethau llygredig, megis arian neu aur, y’ch prynwyd, . . . eithr â gwerthfawr waed Crist, megis Oen difeius a difrycheulyd.” 1 Pedr. 1:18, 19. Trwy y weithred syml hon o gredu yn Nuw, mae’r Ysbryd Glân wedi cenhedlu bywyd newydd yn dy galon. Yr wyt yn awr megis plentyn wedi ei eni i deulu Duw, ac y mae Efe yn dy garu fel y mae yn caru ei Fab.

Yn awr gan dy fod wedi rhoddi dy hunan i’r Iesu paid â thynnu yn ôl, paid â chymryd dy hun ymaith oddi wrtho Ef, eithr dywed ddydd ar ôl dydd, “Yr wyf yn eiddo Crist; yr wyf wedi rhoddi fy hun iddo Ef;” a gofyn iddo roddi i ti ei Ysbryd, a’th gadw drwy ei ras. Gan mai trwy roddi dy hunan i Dduw, a chredu ynddo, y daethost yn blentyn iddo, felly yr wyt i fyw ynddo Ef. Dywed yr apostol, “Megis gan hynny y derbyniasoch Grist Iesu yr Arglwydd, felly rhodiwch ynddo.” Col. 2:6.

Ymddengys fod rhai yn teimlo eu bod ar brawf, rhaid profi i’r Arglwydd eu bod wedi diwygio cyn y gallant hawlio ei fendith. Ond gallant hawlio bendith Duw hyd yn oed yn awr. Rhaid iddynt gael ei ras Ef, Ysbryd Crist, i gynorthwyo eu gwendidau, neu ni allant wrthwynebu drwg. Mae’r Iesu yn caru ein cael ato Ef fel yr ydym, yn bechadurus, yn ddigynorthwy, ac yn ddibynol. Gallwn ddyfod gyda’n holl wendid, ein ffolineb, ein pechadurusrwydd, a syrthio wrth ei draed mewn edifeirwch. Ei ogoniant Ef ydyw ein hamgylchu ym mreichiau ei gariad, a rhwymo ein doluriau, ein glanhau oddi wrth bob anwiredd.

Dyma lle mae miloedd yn methu: nid ydynt yn credu fod yr Iesu yn maddau iddynt yn bersonol, yn unigol. Nid ydynt yn cymryd Duw ar ei air. Braint pawb sydd yn cydymffurfio â’r amodau ydyw gwybod drostynt eu hunain fod pardwn yn cael ei estyn yn rhad am bob pechod. Tafla ymaith yr amheuaeth nad yw addewidion Duw yn cael eu bwriadu i ti. Y maent i bob troseddwr edifeiriol. Mae nerth a gras wedi ei ddarparu drwy Grist i gael ei ddwyn gan angylion gwasanaethgar i bob enaid crediniol, Nid oes neb mor bechadurus fel na allant gael nerth, purdeb, a chyfiawnder yn yr Iesu, yr hwn

a fu farw drostynt. Y mae yn disgwyl i'w diosg o'u gwisgoedd a staeniwyd ac a halogwyd â phechod, ac i roddi amdanynt ynau gwynion cyfiawnder; gorchymyna iddynt fyw, ac nid marw.

Nid yw Duw yn delio â ni fel mae dynion meidrol yn delio â'i gilydd. Mae ei feddyliau Ef yn feddyliau o drugaredd, cariad, a chydymdeimlad tyneraf. Efe a ddywed, "Gadawed y drygionus ei ffordd, a'r gŵr anwir ei feddyliau; a dychweled at yr Arglwydd, ac efe a gymer drugaredd arno; ac at ein Duw ni, oherwydd efe a arbed yn helaeth." "Dileais dy gamweddau fel cwmwl. a'th bechodau fel niwl." Esa. 55:7; 44:22.

"Canys nid oes ewyllys gennvf i farwolaeth y marw, medd yr Arglwydd Dduw. Dychwelwch gan hynny, a byddwch byw." Esec. 18:32. Mae Satan yn barod i ladrata ymaith addewidion sicr a bendithiol Duw. Mae yn dymuno cymryd ymaith bob pelydryn o obaith a phob llewyrch o oleuni o'r enaid; ond rhaid i ti beidio caniatáu iddo wneud hyn. Na ddyro glust i'r temtiwr, eithr dywed, "Mae'r Iesu wedi marw fel y gallaf fi gael byw. Mae yn fy ngharu, ac nid yw yn ewyllysio fy mod yn golledig. Mae gennyf Dad Nefol tosturiol; ac er i mi ddifriō ei gariad. er fod y bendithion a roddodd i mi wedi eu hafradloni. mi a godaf. ac a af at fy Nhad, a dwwedaf, 'Pechais yn erbyn y nef, ac o'th flaen dithau; ac mwyach nid ydwyf deilwng i'm galw yn fab i ti; gwna fi fel un o'th weision cyflog.' " Dywed y ddameg wrthyt pa fodd y derbynir y crwydryn: "Pan oedd efe eto ymhell oddi wrtho, ei dad a'i canfu ef, ac a dosturiodd. ac a redodd, ac a syrthiodd ar ei wddf ef, ac a'i cusanodd." Luc 15:18-20.

Nid yw hyd yn oed y ddameg hon, er mor dyner ac effeithiol, yn gosod allan dosturi anfeidrol y Tad Nefol. Mynega yr Arglwydd trwy ei broffwyd, "A chariad tragwyddol y'th gerais: am hynny tynnais di â thrugaredd." Jer. 31:3. Tra mae'r pechadur eto ymhell o dy y

[41] Tad, yn gwastraffu ei dda mewn gwlad estronol, mae calon y Tad yn hiraethu amdano; ac nid yw pob awydd i ddychwelyd at Dduw a ddeffroir yn yr enaid, yn ddim ond ymryson tvner ei Ysbryd Ef, yn denu â chariad, yn ymbilio, ac yn tynnu y crwydryn at galon cariad ei Dad.

Gydag addewidion goludog y Beibl o'th flaen, a elli di roddi lle i amheuaeth? A elli di gredu pan fydd y pechadur druan yn hiraethu am ddychwelyd yn ôl, yn sychedu am adael ei bechodau, fod yr Arglwydd mewn modd sarrug yn ei atal rhag dyfod at ei draed

mewn edifeirwch? Ymaith â'r fath feddyliau! Ni all dim niweidio dy enaid dy hun yn fwy na choleddu y fath syniad am ein Tad Nefol. Y mae yn casâu pechod, ond y mae yn caru'r pechadur, ac Efe a roddodd ei hun, ym mherson Crist, fel y gallai pawb a fynn gael eu cadw. a chael tragwyddol wynfyd yn nheyrnas y gogoniant. Pa iaith gryfach a thynnerach y gellid ei defnuddio na'r un a ddewisodd Efe i arddangos ei gariad tuag atom ni? Efe a ddywed, "A anghofia gwraig ei phlentyn sugno, fel na thosturio wrth fab ei chroth? ie, hwy a allant anghofio, eto myfi nid anghofiaf di." Esa. 49:15.

Tydi, sydd yn amau ac yn crynu, edrych i fyny; oblegid mae'r Iesu yn byw i eiriol drosom ni. Diolcha i Dduw am rodd ei annwyl Fab, a gweddïa fel na byddo iddo farw drosot ti yn ofer. Mae'r Ysbryd yn dy wahodd heddiw. Tyred â'th holl galon at Iesu. a gelli hawlio ei fendith.

Wrth ddarllen yr addewidion. cofia eu bod yn fynegiad o gariad a thosturi anhraethadwy. Mae calon fawr Anfeidrol Gariad yn cael ei thynnu at y pechadur gyda thosturi diderfyn. "Yn yr hwn y mae i ni brynedigaeth trwy ei waed ef. sef maddeuant pechodau." Eph. 1:7. Ie, cred yn unig fod Duw yn gynorthwywr i ti. Mae arno eisiau adfer ei ddelw foisol mewn dyn. Fel y bydd i ti nesau ato Ef gyda chyffesiad ac edifeirwch, Efe a nesa atat ti gyda thrugaredd a maddeuant.

[42]

## Article 7—Y prawf o fod yn ddisgybl

“OD OES NEB yng Nghrist, y mae efe yn greadur newydd: yr hen bethau a aethant heibio; wele, gwnaethpwyd pob peth yn newydd.”

Cor. 5:17.

Gall na bydd dyn yn alluog i ddweud yn fanwl y pryd neu'r man, neu i olrhain holl gadwyn amgylchiadau yng ngwaith yr argyhoeddiad; eithr nid yw hyn yn profi ei fod heb ei argyhoeddi. Dywedodd Crist wrth Nicodemus, “Y mae'r gwynt yn chwythu lle y mynno; a thi a glywi ei sŵn ef, ond ni wyddost o ba le y mae yn dyfod, nac i ba le y mae yn myned: felly mae pob un a'r a aned o'r Ysbryd.” Ioan 3:8. Megis y gwynt, yr hwn sydd yn anweledig, eto effeithiau yr hwn a welir yn amlwg ac a deimlir, ydyw Ysbryd Duw yn ei waith ar y galon ddynol. Mae'r gallu ailenedig hwnnw, yr hwn nad dichon un llygad dynol ei weld, yn cenhedlu bywyd newydd yn yr enaid; crea fod newydd ar ddelw Duw. Tra bo gwaith yr Ysbryd yn ddistaw ac anweladwy, mae ei effeithiau yn amlwg. Os ydyw'r galon wedi ei hadnewyddu gan Ysbryd Duw, bydd i'r bywyd ddwyn tystiolaeth i'r ffaith. Tra na allwn wneud dim er newid ein calonau, neu tuag at ddwyn ein hunain i gytgord â Duw - tra na ddylem o gwbl ymddiried i ni ein hunain neu ein gweithredoedd da, dengys ein bywydau pa un a yw gras Duw yn trigo o'n mewn. Gwelir cyfnewidiad yn y cymeriad, a'r arferion. Bydd y gwrthgyferbyniad rhwng yr hyn a fu a'r hyn ydynt yn glir a diamheuol. Datguddir y cymeriad, nid drwy weithredoedd da yn achlysurol a gweithredoedd drwg yn achlysurol, eithr trwy dueddiad y geiriau a'r gweithredoedd arferol.

[43] Mae'n wir y gall cywirdeb ymarweddiad allanol fodoli heb allu adnewyddol Crist. Gall cariad at ddylanwad a'r dymuniad am barch gan eraill gynyrchu bywyd da, rheolaidd. Gall hunan-barch ein harwain i osgoi ymddangos yn ddrygionus. Gall calon hunanol gyflawni gweithredoedd haelionus. Ym mha ffordd, ynte, y penderfynwn ar ochr pwy yr ydym?



Pwy bia y galon? Gyda phwy y mae ein meddyliau? Am bwy yr ydym yn hoffi siarad? Beth sydd yn cael ein serchiadau gwresocaf a'n hegnion gorau? Os ydym yn eiddo Crist, mae ein meddyliau gydag Ef, ac amdano Ef y mae ein meddyliau melysaf. Mae'r oll sydd gennym ac a ydym yn gysegredig iddo Ef. Yr ydym yn sychedu am ddwyn ei ddelw, anadlu ei Ysbryd, gwneud ei ewyllys, a'i foddhau ym mhob peth.

Bydd i'r rhai a ddaw yn greaduriaid newydd yng Nghrist ddwyn ffrwythau yr Ysbryd - "cariad, llawenydd, tangnefedd, hirymaros, cymwynasgarwch, daioni, ffydd, addfwynder, dirwest." Gal. 5:22. Ni fyddant mwy yn nwydus fel o'r blaen, ond trwy ffydd Mab Duw, dilynant ei ôl, adlewyrchant ei gymeriad, a phurant eu hunain megis y mae yntau yn bur. Y pethau oeddynt gynt yn eu casâu, maent yn awr yn eu caru; a'r pethau oeddynt gynt yn eu caru, a gasânt. Daw y balch a'r hunan-dybiol yn addfwyn a gostyngedig o galon. Daw y coeg a'r trahaus yn ddifrifol ac yn anymwithgar. Daw y meddwyn yn sobr, a'r dihiryn yn bur. Gosodir o'r neilltu arferion a dulliau'r byd. Bydd i'r Cristionogion geisio nid y "trwsiad . . . oddi allan," ond "cuddiedig ddyn y galon, mewn anllygredigaeth ysbryd addfwyn a llonydd." 1 Pedr 3:3, 4.

Nid oes un prawf o edifeirwch gwir, oddieithr iddo ddwyn adnewyddiad. Os efe a ddadrydd wystl, ac a rydd yn ôl yr hyn a dreisiodd, os cyffesa ei bechodau ac os câr Duw a'i gyd-ddynion, gall y pechadur fod yn sicr ei fod wedi mynd trwodd o farwolaeth i fywyd.

Pan ddeuwn at Grist fel bodau pechadurus wedi cyfeiliorni, a dyfod yn gyfranogion o'i ras maddeuol, mae cariad yn ffrydio yn y galon. Mae pob baich yn ysgafn; oblegid mae iau Crist yn esmwyth. Daw dyletswydd yn hyfrydwch, ac aberth yn bleser. Y llwybr a ymddangosai o'r blaen yn gudd mewn tywyllwch sydd yn dyfod yn ddisglair gan belydrau oddi wrth Haul y Cyfiawnder.

Bydd prydferthwch cymeriad Crist i'w ganfod yn ei ganlynwyr. Ei bleser Ef oedd gwneud ewyllys Duw. Cariad at Dduw, sêl dros ei ogoniant, oedd y gallu llywodraethol ym mywyd ein Gwarddwr. Yr oedd cariad yn prydferthu ac urddasoli ei holl weithredoedd. Daw cariad o Dduw. Ni all y galon nad yw wedi ei chysegru roddi bod iddo, na'i gynhyrchu. Fe'i ceir yn unig yn y galon lle mae'r Iesu yn tevrnasu. "Yr ydym ni yn caru, am iddo ef yn gyntaf ein caru ni."

Ioan 4:19, BCN. Yn y galon a adnewyddwyd gan Ddwyfol ras, cariad yw egwyddor gweithrediad. Mae yn nodweddu y cymeriad, yn llywodraethu y cymhellion, yn rheoli'r nwydau, yn darostwng gelyniaeth, ac yn urddasoli y serchiadau. Mae'r cariad hwn, yn cael ei feithrin yn yr enaid, yn melysu'r bywyd, ac yn arllwys dylanwad pureiddiol ar bawb o gwmpas.

Mae dau gamsymad y dylai plant Duw - yn enwedig y rhai hynny sydd newydd ddyfod i ymddiried yn ei ras - warchod rhagddynt. Y cyntaf yw, edrych ar eu cyflawniadau eu hunain, ymddiried mewn rhywbeth y gallant hwy wneud, er dwyn eu hunaingytgoradiad â Duw. Mae'r hwn a gesia ddod yn sanctaidd trwy ei ymdrech ei hun i gadw y ddeddf yn amcanu at amhosibilrwydd. Mae y cwbl all dyn wneud heb Grist yn halogedig â hunaniaeth a phechod. Gras Crist yn unig, drwy ffydd, a ddichon ein sancteiddio.

Yr ail gamsyniad, ac un sydd heb fod yn llai peryglus yw. fod crediniaeth yng Nghrist yn rhyddhau dynion oddi wrth gadw cyfraith Duw; am mai drwy ffydd yn unig y deawn yn gyfranogion o ras Crist; nad oes a fynno ein gweithredoedd ddim â'n prynedigaeth.

Eithr sylwer yma nad cydsyniad allanol yn unig yw ufudd-dod, ond gwasanaeth cariad. Mae cyfraith Duw yn dangos ei wir natur; y mae yn gorfforiad o egwyddor fawr cariad, a thrwy hynny yn sail ei lywodraeth mewn nef a daear. Os yw ein calonnau wedi eu hadnewyddu ar ddelw Duw, os yw'r cariad Dwyfol wedi ei blannu yn yr enaid, oni chaiff cyfraith Duw ei chario allan yn y bywyd? Pan fo egwyddor cariad yn blanedig yn y galon, pan fo dyn wedi ei adnewyddu yn ôl delw yr Hwn a'i gwnaeth, cyflawnir addewid y cyfamod newydd, "Myfi a osodaf fy nghyfreithiau yn eu calonnau, ac a'u hysgrifennaf yn eu meddyliau." Heb. 10:16. Ac os yw'r gyfraith yn ysgrifenedig yn y galon, oni wna ffurfio'r bywyd? Ufudd-dod - gwasanaeth a gwrogaeth cariad - yw gwir arwydd disgyblaeth. Fel hyn y dywed yr Ysgrythyr, "Canys hyn yw cariad Duw; bod i ni gadw ei orchymynion." "Yr hwn sydd yn dywedyd, Mi a i hadwaen ef, ac heb gadw ei orchymynion ef, celwyddog yw, a'r gwirionedd nid yw ynddo." 1 Ioan 5:3; 2:4. Yn hvtrach na rhyddhau dyn oddi wrth ufudd-dod, ffydd. ffydd yn unig, sydd yn ein gwneud yn gyfranogion o ras Crist, yr hwn sydd yn ein galluogi i roddi ufodd-dod.

[45]

Nid ydym yn ennill iachawdwriaeth drwy ein hufudd-dod; oblegid iachawdwriath yw rhad rodd Duw, i'w derbyn drwy ffydd.

Eithr mae ufodd-dod yn ffrwyth ffydd. “A chwi a wyddoch ymddangos ohono ef. fel y dileai ein pechodau ni; ac ynddo ef nid oes pechod. Pob un a’r sydd yn aros ynddo ef, nid yw yn pechu: pob un a’r sydd yn pechu, nis gwelodd ef, ac nis adnabu ef.” 1 Ioan 3:5, 6. Cawn yma y gwir brawf. Os ydym yn aros yng Ngrist, os yw cariad Duw yn preswyllo ynom. bydd ein teimladau, ein meddyliau, ein bwriadau, ein gweithredoedd. mewn cytgordiad ag ewyllys Duw fel ei gosodir allan yng ngorchymynion ei gyfraith sanctaidd. “O blant bychain, na thwyllled neb chwi: yr hwn sydd yn gwneuthur cyfiawnder, sydd gyfiawn, megis y mae yntau yn gyfiawn.” 1 Ioan 3:7. Mae cyfiawnder yn cael ei ddiffinio wrth safon deddf sanctaidd Duw, fel ei gosodir allan yn y deg gorchymyn ar Sinai.

Nid ffydd. ond tybiaeth. ydyw y ffydd honno yng Ngrist, sy’n proffesu rhyddhau dynion oddi wrth y cyfrifoldeb o roddi ufudd-dod Dduw. “Trwy ras yr ydych yn gadwedig, trwy ffydd.” Ond “ffydd heb weithredoedd, marw yw.” Eph. 2:8; Iago 2:26. Dywedodd Crist amdano ei hun cyn ei ddyfod i’r ddaear, “Da gennyf wneuthur dy ewyllys, O fy Nuw: a’th gyfraith sydd o fewn fy nghalon.” Salm 40:8. Ac ychydig cyn ei esgyniad i’r nef yn ôl, Efe a ddywedodd, “Fel y cedwais i orchmynion fy Nhad, ac yr wyf yn aros yn ei gariad ef.” Ioan 15:10. Yr Ysgrythur a ddywed, “Ac wrth hyn y gwyddom yr adwaenom ef, os cadwn ni ei orchmynion ef. ... Yr hwn a ddywed ei fod yn aros ynddo ef, a ddylai yntau felly rodio, megis ag y rhodiodd ef.” 1 Ioan 2:3-6. “Oblegid Crist yntau a ddiodeffodd drosom ni, gan adael i ni esampl, fel y canlynech ei ôl ef.” 1 Pedr. 2:21.

Mae amod bywyd tragwyddol yn awr fel yr hyn a fu bob amser yn union yr hyn ydoedd ym Mharadwys cyn cwmp ein rhieni cyntaf - perffaith ufodd-dod i gyfraith Duw, perffaith gyfiawnder. Pe caniateid bywyd tragwyddol ar rhyw delerau llai na hyn, yna byddai dedwyddwch yr holi gyfanfyd yn cael ei beryglu. Bvddai y ffordd yn agored i bechod, a’i holl gyfres o wae a thrueni, gael ei anfarwoli.

Yr oedd yn bosibl i Adda, cyn y cwmp, ffurfio cymeriad cyfiawn trwy ufudd-dod i ddeddf Duw. Ond methodd wneud hyn, ac oherwydd ei bechod et mae ein natur wedi syrthio, ac ni allwn wneuthur ein hunain yn gyfiawn. Tra’r ydym yn bechadurus, an-sanctaidd, ni allwn ufuddhau yn berffaith i ddeddf sanctaidd. Nid oes gennym gyfiawnder o’r eiddom ein hunain i gyfarfod hawliau

cyfraith Duw. Ond y mae Crist wedi gwneud i ni ffordd dihangfa. Bu fyw ar y ddaear ymysg treialon a themtasiynau fel y rhai y mae'n rhaid i ninnau eu cyfarfod. Bu fyw bywyd dibechod. Bu farw drosom, ac yn awr mae yn cynnig tynnu ymaith ein pechodau, a rhoddi i ni ei gyfiawnder. Os bydd i ti roddi dy hunan iddo Ef, a'i dderbyn fel dy Waredwr, yna, er ei fwyn Ef, fe'th gyfrifir yn gyfiawn, yn bechadurus fel y dichon y bu dy fywyd. Mae cymeriad Crist yn sefyll yn lle dy gymeriad di, a chymeradwyir di gerbron Duw fel pe buaset heb bechu.

Mwy na hyn, mae Crist yn newid y galon; Efe a breswylia yn dy galon drwy ffydd. Yr wyt i ddal y cysylltiad yma â Christ drwy ffydd ac ymroddiad parhaus dy ewyllys iddo Ef; a chyhyd ag y gwnei hyn Efe a weithreda ynot i ewyllysio a gweithredu yn ôl ei ewyllys da. Felly gelli ddweud, "A'r hyn yr ydwyf yr awron yn ei fyw yn y cnawd, ei fyw yr ydwyf trwy ffydd Mab Duw, yr hwn a'm carodd, ac a'i dodes ei hun dros of fi." Gal. 2:20. Felly y dywedodd yr Iesu wrth ei ddisgyblion, "Canys nid chwychwi yw'r rhai sydd yn llefaru, ond Ysbryd eich Tad yr hwn sydd yn llefaru ynoch." Matt. 10:20. Wedi hynny, gyda Christ yn gweithio ynot, bydd i ti amlygu yr un ysbryd a chyflawni yr un gweithredoedd - gweithredoedd cyfiawnder, ufudd-dod.

Gan hynny nid oes gennym ynom ein hunain ddim y gallwn ymffrostio ynddo. Nid oes gennym unrhyw sail i hunan-ddyrchafiad. Mae unig sail ein gobaith yng nghyfiawnder Crist yn cael ei gyfrif i ni, ac yn yr hyn a weithredir gan ei Ysbryd yn gweithio ynom a thrwom.

[47] Pan fyddwn yn siarad am ffydd, mae yna wahaniaeth y dylid ei gadw mewn cof. Mae yna fath o gredu sydd yn hollol wahanol i ffydd. Mae bodolaeth a gallu Duw, gwirionedd ei Air, yn ffeithiau na all Satan na'i luoedd eu gwadu yn eu calonnau. Dywed y Beibl fod "y cythreuliaid hefyd yn credu, ac yn crynu;" Iago 2:19, eithr nid ffydd ydyw hyn. Lle ceir nid yn unig grediniaeth yng ngair Duw, eithr ymddarostyngiad yr ewyllys iddo; lle mae'r galon wedi ei rhoddi iddo Ef, y serchiadau wedi eu sefydlu arno, mae yno ffydd - ffydd yn gweithio drwy gariad, ac yn puro yr enaid. Trwy'r ffydd hon yr adnewyddir y galon ar ddelw Duw. Ac mae'r galon, heb ei hail-eni, heb fod yn "darostyngedig i ddeddf Duw; oblegid nis gall chwaith" (Rhuf. 8:7), yn awr yn ymhyfrydu yn ei gorchymynion sanctaidd, gan

dorri allan i ddweud gyda'r Salmydd, “Mor gu gennyf dy gyfraith di! hi yw fy myfyrdod beunydd.” Salm 119:97. A chyflawnir cyfiawnder y ddeddf ynom ni. “y rhai sydd yn rhodio nid yn ôl y cnawd, eithr yn ôl yr Ysbryd.” Rhuf. 8:1.

Ceir y rhai hynny sydd yn adnabod cariad maddeuol Crist, ac mewn gwirionedd yn dymuno bod yn blant Duw; eto maent yn sylweddoli fod eu cymeriad yn amherffaith, eu bywyd yn ddiffygiol, ac y maent yn amau a ydyw eu calonnau wedi eu hadnewyddu gan yr Ysbryd Glân. Wrth y cyfryw y dywedaf. Na thynnwch yn ôl mewn anobaith. Bydd rhaid i ni yn aml i blygu i lawr a wylo wrth draed yr Iesu oherwydd ein diffygion a'n camgymeriadau; ond nid ydym i ddigaloni. Hyd yn oed os gorchfygir ni gan y gelyn nid ydym yn cael ein bwrw ymaith, yn anghofedig a gwrthodedig i Duw. Na; mae Crist ar ddeheulaw Duw, yr hwn sydd bob amser yn eiriol drosom. Meddai yr annwyl Ioan, “Fy mhlant bychain, y pethau hyn yr wyf yn eu hysgrifennu atoch. fel na phechoch. Ac o phecha neb, y mae i ni Eiriolwr gyda'r Tad, Iesu Grist y Cyfiawn.” 1 Ioan 2:1. Ac nac anghofiwrch eiriau Crist, “Canys y Tad ei hun sydd yn eich caru chwi.” Ioan 16:27. Mae yn dymuno eich adfer iddo ei hun, i gael gweld ei burdeb a'i sancteiddrwydd ei hunan yn cael ei lewyrchu ynoch chwi. A dim ond i chwi roddi eich hunain i fyny iddo Ef, yr Hwn a ddechreuodd ynoch waith da a'i dwg ymlaen hyd ddydd Iesu Grist. Gweddiwch yn daerach; credwch yn fwy llawn. Fel y deawn i golli ymddiried yn ein gallu ein hunain, bydded i ni ymddiried yng ngallu ein Prynwr, a ni a'i moliannwn Ef yr hwn yw goleunni ein bywyd.

Po agosaf y deui at Iesu, mwyaf oll y bydd i ti ymddangos yn feius yn dy olwg dy hun; canys bydd dy welediad yn gliriach, a bydd

[48]

[49]

## Article 8—Cynyddu i Grist

MAE'R NEWID BRYD a'n gwna yn blant Duw yn cael ei grybyll yn y Beibl fel genedigaeth. Hefyd, mae yn cael ei gymharueginiaid yr had da a heuwyd gan y llafurwr. Yr un modd mae'r rhai sydd newydd ddychwelyd at Grist "fel rhai bychain newydd-eni," i "gynyddu" (1 Pedr 2:2; Eph. 4:15), hyd at fesur oedran dynion a merched yng Nghrist Iesu. Neu megis yr had da a heuwyd mewn maes maent i dyfu a dwyn ffrwyth. Dywed Esaiah "y gelwid hwynt yn brennau cyfiawnder, yn blanhigyn yr Arglwydd, fel y gogonedder ef." Esa. 61:3. Felly, cawn engreiffiau o fywyd naturiol, i'n cynorthwyo yn well i ddeall gwirioneddau dirgel y bywyd ysbrydol.

Ni all holl ddoethineb a medr dyn gynyrchu bywyd yn y gwrthrych lleiaf mewn natur. Trwy'r bywyd a gyfrannodd Duw ei hun yn unig y dichon i blanhigyn neu anifail fyw. Felly hefyd trwy'r bywyd oddi wrth Dduw yn unig y mae bywyd ysbrydol yn cael ei genhedlu yng nghalonau dynion. "Oddieithr geni dyn oddi uchod" loan 3:3 (ymylnod) ni all ddyfod yn gyfranogydd y bywyd y daeth Crist i'w roddi.

Megis gyda bywyd, felly mae gyda thyfiant. Duw yw'r hwn sydd yn dwyn y blaguryn yn flodeuyn a'r blodeuyn yn ffrwyth. Trwy ei allu Ef y mae'r had yn datblygu, "yn gvntaf yr eginyn, ar ôl hynny y dywysen, yna yr yd yn llawn yn y dywysen." Marc 4:28. A dywed y proffwyd Hosea am Israel, "Efe a flodeua fel y lili." "Adfywiant fel yd, blodeuant hefyd fel y winwydden." Hosea 14:5, 7. A'r Iesu a'n geilw i ystyried "y lili, pa fodd y maent yn tyfu." Luc 12:27. Mae planhigion a'r blodau yn tyfu nid drwy eu gofal, eu pryder, na'u hymdrech eu hunain, eithr trwy dderbyn yr hyn a ddarparodd Duw i wasanaethu i'w bywyd. Ni all y plentyn, trwy unrhyw bryder na gallu o'r eiddo ei hun, ychwanegu at ei faint. Ni ellwch chwithau [50] mwy na hynny, drwy bryder nag ymdrech ohonoch eich hunain, sicrhau cynydd ysbrydol. Mae'r planhigyn, y plentyn, yn tyfu trwy dderbyn oddi wrth y pethau o'u cylch yr hyn sydd yn gwasanaethu i'w bywyd - awyr, heulwen, ac ymborth. Yr hyn yw'r rhoddion

naturiol hyn i'r anifail a'r planhigyn, hynny yw Crist i'r rhai hynny sydd yn ymddiried ynddo. Efe yw eu “goleuni tragwyddol”, “haul a tharian.” Esa. 60:19; Salm 84:11. Efe a fydd “fel gwllith i Israel.” “Efe a ddisgyn fel glaw ar gnu gwllân.” Hosea 14:5; Salm 72:6. Efe yw dwfr y bywyd. “bara Duw . . . sydd yn dyfod i waered o'r nef, ac yn rhoddi bywyd i'r byd.” Ioan 6:33.

Mae Duw, yn rhodd anghymarol ei Fab, wedi amgylchu yr holl fyd ag awyrgylch o ras mor wirioneddol â'r awyr sydd yn cylchred-ego gwmpas y ddaear. Caiff pawb sydd am anadlu yr awyr bywiol hwn fyw. a chynyddu hyd at fesur oedran dynion a merched yng Nghrist Iesu.

Fel y try y blodeuyn at yr haul, er mwyn i'r pelydrau disglair allu cynorthwyo i berffeithio ei brvdfwrthwch a'i gymesuredd, felly y dylem ninnau droi at Haul y Cyfiawnder, er mwyn i oleuni y Nefoedd allu tywynnu arnom, fel y gall ein cymeriad gael ei ddatblygu yn nhebygrwydd Crist.

Mae'r Iesu yn dysgu yr un peth pan ddywed, “Arhoswch ynof fi, a mi ynoch chwi. Megis na all y gangen ddwyn ffrwyth ohoni ei hun, onid erys yn y winwydden; felly ni ellwch chwithau, onid arhoswch ynof fi . . . hebof fi ni ellwch chwi wneuthur dim.” Ioan 15:4, 5. Yr wyt mor ddibynol ar Grist i fyw bywyd sanctaidd. ag ydyw y gangen ar y boncyff am dyfiant a ffrwythlondeb. Ar wahân iddo Ef, nid oes gennynt fywyd; nid oes gennynt nerth i wrthwynebu temtasiwn nac i gynyddu mewn gras a sancteiddrwydd. Trwy aros ynddo Ef, gelli flodeuo. Trwy dynnu dy fywyd ohono Ef, ni bydd i ti wywo na bod yn ddiffwrth. Byddi megis pren wedi ei blannu ar Ian afonydd dyfroedd.

Mae gan lawer syniad fod yn rhaid iddynt wneud rhyw ran o'r gwaith eu hunain. Maent wedi ymddiried yng Nghrist am faddeuant pechod, ond yn awr ceisiant fyw yn iawn drwy eu hymdrechion eu hunain. Eithr rhaid i bob ymgais o'r fath fethu. Yr Iesu a ddywed, “Hebof fi ni ellwch chwi wneuthur dim.” Mae ein cynydd mewn gras, ein llawenydd. ein defnyddioldeb - oll yn dibynu ar ein hundeb â Christ. Trwy gymundeb ag Ef, bob dydd, bob awr - trwy aros ynddo Ef - yr ydym i gynyddu mewn gras. Mae Efe nid yn unig yn Awdur, ond yn Berffeithydd ein ffydd. Crist yn gyntaf ac olaf ac yn wastadol. Mae Efe i fod gyda ni, nid yn unig ar ddechrau a diwedd ein gyrfa, eithr pob cam o'r ffordd. Dafydd a ddywed, “Gosodais yr

Arglwydd bob amser ger fy mron; am ei fod ar fy neheulaw, ni'm hysgogir" Salm 16:8.

A wyt ti yn gofyn, "Pa fodd yr wyf i aros yng Nghrist?" - Yn yr un ffordd ag y derbyniasist Ef ar y cyntaf. "Megis gan hynny y derbyniasoch Grist lesu yr Arglwydd. felly rhodiwch ynddo." "Y cyfiawn a fydd byw trwy ffydd." Col. 2:6; Heb. 10:38. Yr wyt wedi rhoddi dy hun i Dduw. i fod yn eiddo cyfangwbl iddo, i'w wasanaethu ac ufuddhau iddo, a chymeraist Grist fel dy Waredwr. Ni allaset dy hunan wneud iawn am dy bechodau neu newid dy galon; ond wrth roddi dy hunan i Dduw, yr oeddyt yn credu ei fod Ef, er mwyn Crist, wedi gwneud hyn oll drosot. Trwy ffydd y daethost yn eiddo Crist, a thrwy ffydd yr wyt i gynyddu ynddo - trwy gymryd a rhoddi. Yr wyt i roddi yr oll - dy galon, dy ewyllys, dy wasanaeth - rhoddi dy hunan iddo Ef i ufuddhau i'w holl ofynion; a rhaid i ti gymryd yr oll - Crist, cyflawnder pob bendith, i drigo yn dy galon. i fod yn nerth i ti, yn gyfiawnder, dy Gynorthwywr tragwyddol - i roddi i ti allu i ufuddhau.

Cysegra dy hunan i Dduw yn y bore; gwna hyn y gwaith cyntaf oll. Boed i'th weddi fod, "Cymer fi, O Arglwydd, fel dy eiddo cyfan gwbl. Yr wyf yn gosod fy holl gynlluniau wrth dy draed. Defnyddia fi heddiw yn dy wasanaeth. Aros gyda mi, a gad i'm holl waith gael ei gyflawni ynot Ti." Mae hwn yn weithred ddvddiol. Bob bore ymgysagra i Dduw am y dydd hwnnw. Dyro dy holl gynlluniau iddo Ef, i'w cario allan neu i'w hepgor yn ôl fel y dengys ei ragluniaeth Ef. Fel hyn o ddydd i ddydd y galli roddi dy fywyd yn nwylo Duw, ac fel hyn bydd dy fywyd yn cael ei ffurfio yn fwyfwy yn ôl bywyd Crist.

[52] Bywyd yng Nghrist sydd fywyd o orffwys. Dichon na fydd yna unrhyw bêr-lesmair o deimlad, eithr dylai fod yna ymddiried tangnefeddus parhaus. Nid yw dy obaith ynot dy hun; y mae yng Nghrist. Mae dy wendid di wedi ei uno â'i nerth Ef, dy anwybodaeth â'i ddoethineb, dy lesgedd â'i allu parhaol Ef. Gan hynny nid wyt i edrych arnat dy hun, nid wyt i adael y meddwl i aros ar yr hunan. eithr edrych at Grist. Bydded i'r meddwl canolbwyntio ar ei gariad Ef, ar brydferthwch, perffeithrwydd ei gymeriad. Crist yn ei hunan-ymwadiad, Crist yn ei ymddarostyngiad. Crist yn ei burdeb a'i sancteiddrwydd, Crist yn ei gariad digymar - dyma destyn myfyr-



dod yr enaid. Trwy ei garu Ef, ei efelychu Ef, dibynnu yn gwbl arno Ef, yr wyt i gael dy drawsffurfio iw ddelw.

Dywed yr Iesu, “Arhoswch ynof fi.” Mae’r geiriau hyn yn cyfleu y syniad o orffwys, sefydlogrwydd, ymddiriedaeth. Drachefn Efe a wahodda, “Deuwch ataf fi, . . . a chwi a gewch orffwystra.” Matt. 11:28, 29. Mae gan y Salmydd yr un meddwl: “Distawa yn yr Arglwydd, a disgwyl wrtho.” Ac mae Esaiah yn rhoddi’r sicrwydd, “Mewn llonyddwch a gobaith y bydd eich cadernid.” Psalm 37:7; Esa. 30:15. Nid ywr gorffwys hwn i’w gael mewn seguryd; canys yng ngwahoddiad y Gwardwr mae’r addewid am orffwys yn gyfun â’r alwad i lafur: “Cymerwch fy iau arnoch, ... a chwi a gewch orffwystra.” Matt. 11:28, 29. Y galon sydd yn gorffwys lawnaf ar Grist a fydd y fwyaf difrifol a gweithgar mewn llafur drosto.

Pan fo meddwl dyn yn aros ar hunan, mae yn cael ei droi ymaith oddi wrth Grist, ffynhonell nerth a bywyd. Am hynny y mae Satan yn ymdrechu’n gyson i dynnu y sylw oddi wrth y Gwardwr, a thrwy hynny rwystro undeb a chymundeb yr enaid â Christ. Pleserau y byd, gofalon ac anhawsterau a gofidiau bywyd, diffygion eraill, neu dy ddiffygion a’th amherffeithrwydd dy hunan - at un neu yr oll o’r rhai hyn y ceisia efe denu’r meddwl. Paid â chymryd dy gamarwain gan ddichellion Satan. Mae llawer yn wir gydwybodol, ac yn dymuno byw i Dduw. yn cael eu harwain ganddo yn rhy fynych i aros ar eu gwendidau a’u diffygion eu hunain, ac felly, trwy eu gwahanu oddi wrth Grist, gobeithia ennill y fuddugoliaeth. Ni ddylem wneud hunan yn ganolbwynt, a mynwesu pryder ac ofn gyda golwg ar gael ein cadw. Mae hyn oll yn troi’r enaid ymaith oddi wrth Ffynhonell ein nerth. Cyflwynna gadwraeth dy enaid i Dduw, ac ymddiried ynddo. Boed i ti siarad a meddwl am Iesu. Gad i’r hunan gael ei golli ynddo Ef. Bwrw ymaith bob amheuaeth; ymlid dy ofnau. Dywed gyda’r Apostol Paul, “Eithr byw ydwyf; eto nid myfi, ond Crist sydd yn byw ynof fi; a’r hyn yr ydwyf yr awron yn ei fyw yn y cnawd, ei fyw yr ydwyf trwy ffydd Mab Duw yr hwn a’ m carodd, ac a’i dodes ei hun dros of fi.” Gal. 2:20. Gorffwys yn Nuw. Y mae Efe yn abl i gadw yr hyn a roddaist iddo. Os bydd i ti adael dy hunan yn ei ddwylaw Ef, Efe a’th ddyg di allan yn fwy na choncwerwr trwy’r Hwn a’th garodd.

Pan gymerodd Crist arno ei hunan y natur ddynol. rhwymodd ddynoliaeth wrtho ei hun â rhwymyn cariad na ellir byth ei dorri gan

unrhyw allu ond dewisiad y dyn ei hun. B\dd i Satan osod gerbron yn barhaus hudoliaethau i'n denu i dorri y rhwymyn hwn - i ddewis ysgaru ein hunain oddi wrth Grist. Dyma lle mae angen am i ni wyllo, i ymdrechu, a gweddio, fel na alio dim ein hudo i ddewis meistr arall; oblegid yr ydym bob amser yn rhydd i wneud hyn. Ond bydded l ni gadw ein llygaid yn sefydlog ar Grist, ac Efe a'n ceidw. Wrth edrych ar Iesu yr ydym yn ddiogel. Ni all dim ein cipio o'i law Ef. Wrth edrych yn wastadol arno Ef, ni "a newidir i'r unrhyw ddelw, o ogoniant i ogoniant, megis gan Ysbryd yr Arglwydd." 2 Cor. 3:18.

Dyma fel yr enillodd y disgyblion cynnar eu tebygolrwydd i'r Gwarddwr annwyl. Pan glywodd y disgyblion hynny eiriau yr Iesu teimlasant eu hangen amdano. Chwiliasant amdano, cawsant Ef, a chanlynasant Ef. Yr oeddynt gydag Ef yn y tŷ, wrth y bwrdd, yn y ddirgelfa, yn y maes. Yr oeddynt gydag Ef fel disgyblion gydag athro, yn derbyn bob dydd wersi o wirionedd sanctaidd o'i enau. Edrychent arno, fel gweision ar eu meistr. i ddysgu eu dyletswydd. Yr oedd y disgyblion hynny yn ddynion "o'r un anian â ninnau." Iago 5:17. BCN. Yr oedd ganddynt yr un frwydr â phechod i'w hymladd; yr oeddynt mewn angen am yr un gras, er mwyn byw bywyd sanctaidd.

Nid oedd hyd yn oed Ioan y disgybl annwyl, a lewyrchai lawnaf ddelw y Gwarddwr, yn meddu ar y serchowgrwydd cymeriad hwnnw yn naturiol. Yr ydoedd nid yn unig yn hunan-dybus ac uchelgeisiol am anrhydedd, ond yn danbaid ac anfoddog dan niweidiau. Ond fel yr oedd cymeriad yr Un Dwyfol yn cael ei egluro iddo, gwelodd ei ddiffyg ei hunan, ac fe'i darostyngwyd gan y wybodaeth. Llanwyd ei enaid ag edmygedd a chariad, gan y nerth a'r amynedd, y gallu a'r tynerwch, y mawredd a'r addfwynder a welai ym mywyd dyddiol Mab Duw. Dydd ar ôl dydd tynnid ei galon at Grist, nes iddo golli golwg ar yr hunan mewn cariad at ei Feistr. Ei dymer digofus uchelgeisiol a ildwyd i ddylanwad ffurfiadol Crist. Darfu i ddylanwad yr Ysbryd Glân adnewyddu ei galon. Darfu i allu cariad Crist weithredu trawsffurfiad cymeriad. Hyn yw canlyniad sicr undeb a'r Iesu. Pan breswylia Crist yn y galon mae'r holl natur yn cael ei thrawsffurfio. Mae Ysbryd Crist, a'i gariad, yn tyneru y galon, yn darostwng yr enaid, ac yn dyrchafu y meddyliau a'r dymuniadau i gyfeiriad Duw a'r nef.

[54]

Pan esgynodd Crist i'r nef yr oedd yr ymdeimlad o'i bresenoldeb gyda'i ganlynwyr yn barhaus. Presenoldeb personol ydoedd, llawn cariad a goleuni. Yr oedd Iesu, y Gwardwr, yr Hwn a fu'n cerdded, yn siarad a gweddïo gyda hwy, yr Hwn fu yn llefaru gobaith a chysur wrth eu calonau, tra'r oedd cenadwri heddwch eto ar ei wefusau, wedi ei gymryd i fyny i'r nefoedd oddi wrthynt. ac yr oedd seiniau ei lais wedi dyfod yn ôl atynt, fel yr oedd y cwmwl o angylion yn ei dderbyn - "Wele, yr ydwyf fi gyda chwi bob amser hyd ddiwedd y byd." Matt. 28:20. Yr oedd wedi esgyn i'r nef yn ffurf dynoliaeth. Gwyddent ei fod gerbron gorseddfainc Duw, o hyd yn Gyfaill a Gwardwr iddynt; fod ei gydymdeimlad heb newid; ei fod eto yn un â dynoliaeth yn ei dioddefaint. Yr oedd ei ddwylo clwyfedig, y traed anafus, yng nghanol llysoedd gogoniant, wrth ddadlau dros yr hil syrthiedig, yn dwyn tystiolaeth i'r cariad oedd ynddo at ei waredigion. Gwyddent ei fod wedi esgyn i'r nefoedd i baratoi lle iddynt hwy, ac y deuai drachefn, i'w cymryd ato ei hun.

Fel yr ymgynullent ynghyd, ar ôl yr esgyniad, yr oeddynt yn awchus i osod eu ceisiadau gerbron y Tad yn enw yr Iesu. Mewn parchedig ofn yr ymostyngent mewn gweddi, gan adrodd yr addewid sicr, "Pa bethau bynnag a ofynoch i'r Tad yn fy enw, efe a'u rhydd i chwi. Hyd yn hyn ni ofynasoch ddim yn fy enw i: gofynnwch, a chwi a gewch; fel y byddo eich llawenydd yn gyflawn." Ioan 16:23,24. Hwya a estynasant law ffydd yn uwch ac yn uwch gyda'r ddadl gref, "Crist yw'r hwn a fu farw, ie, yn hytrach, yr hwn a gyfodwyd hefyd; yr hwn hefyd sydd ar ddeheulaw Duw, yr hwn hefyd sydd yn erfyn trosom ni." Rhuf. 8:34. A dygodd y Pentecost iddynt bresenoldeb y Diddanydd, am yr Hwn y dywedodd Crist, "ynoch y bydd efe." Ac Efe a ddywedasai ymhellach, "Buddiol yw i chwi fy myned i ymaith: canys onid af fi, ni ddaw'r Diddanydd atoch: eithr os mi a af, mi a'i hanfonaf ef atoch." Ioan 14:17; 16:7. O hyn allan, yr oedd Crist, trwy'r Ysbryd, i drigo yn barhaus yng nghalonau ei blant. Yr oedd

[55]

[56]

## Article 9—Y gwaith a'r bywyd

DUW YDYW FFYNHONELL bywyd a goleuni a llawenydd y cyfanfyd. Megis pelydrau goleuni o'r haul, megis y ffrydiau sy'n torri allan o'r ffynnon fyw, y mae bendithion yn llifo allan oddi wrtho Ef i bawb o'i greaduriaid. A pha le bynnag y mae bywyd Duw yng nghalonnau dynion, fe lifa allan mewn cariad a bendith i eraill.

Yr oedd llawenydd ein Gwardwr yn nyrchafiad ac adferiad dynion syrthiedig. Er mwyn hyn ni chyfrifodd ei fywyd yn annwyl iddo ei hunan, ond dioddefodd y groes, gan ddiystyru gwaradwydd. Felly mae'r angylion bob amser yn gweithio er dedwyddwch eraill. Dyma eu llawenydd. Yr hyn a ystyriai calonnau hunanol fel gwasanaeth darostyngol, gwasanaethu y rhai sydd yn druenus, ac ym mhob ffordd yn israddol mewn cymeriad a gradd, yw gwaith yr angylion dibechod. Ysbryd cariad hunanaberthol Crist ydyw yr ysbryd a dreiddia drwy'r nefoedd, a dyma yw gwir hanfod ei gwynfyd. Hwn yw'r ysbryd a feddiennir gan ganlynwyr Crist, y gwaith a wnânt hwy.

Pan fo cariad Crist yn y galon, fel pêr-arogl hyfryd, ni ellir ei guddio. Teimlir ei ddylanwad sanctaidd gan bawb y deawn i gysylltiad â hwy. Mae Ysbryd Crist yn y galon fel ffynnon yn yr anialwch, yn llifo i adfywio pawb, a gwneuthur y rhai sy'n barod i drengi yn awchus i yfed o ddŵr y bywyd.

Bydd i gariad at Grist gael ei amlygu mewn dymuniad i weithio, fel y gweithiodd Efe, er bendith a dyrchafiad dynoliaeth. Arweinia i gariad, tynerwch, a chydymdeimlad tuag at holl greaduriaid ein Tad Nefol.

[57] Nid bywyd o esmwythyd ac ymroddiad iddo ei hunan oedd bywyd y Gwardwr ar y ddaear, ond Efe a lafuriodd gydag ymdrech ddiflino, ddifrifol, a pharhaol er iachawdwriaeth dynoliaeth golledig. O'r preseb i Galfaria dilynodd Iwybr hunan-ymwadiad, ac ni chcisiodd ymryddhau oddi wrth orchwylion celyd. teithiau poenus, na gofal a llafur llethol. Dywedodd, "Megis na ddaeth Mab y dyn i'w wasanaethu, ond i wasanaethu, ac i roddi ei enioes yn bridwerth dros

lawer.” Matt. 20:28. Dyma oedd un amcan mawr ei fywyd. Yr oedd popeth arall yn israddol. Ei fwyd a'i ddiod oedd gwneuthur ewyllys Duw a gorffen ei waith Ef. Nid oedd i'r hunan na hunan-lesâd ran yn ei lafur.

Yr un modd, y rhai hynny ydynt gyfranogion o ras Crist fydd yn barod i wneud unrhyw aberth, fel y gall eraill dros y rhai y bu Efe farw gyfranogi o'r rhodd nefol. Gwnant yr oll a allant i wneud y byd yn well yn ystod eu harosiad ynddo. Mae'r ysbryd hwn yn dwf sicr enaid gwir ddychweledig. Nid cynt y daw un at Grist, nad oes yn ei galon ddymuniad i wneud yn hysbys i eraill y fath gyfaill gwerthfawr a gafodd yn yr Iesu; ni ellir cau yn ei galon y gwirionedd achubol a sancteiddiol. Os ydym wedi ein gwisgo â chyfiawnder Crist, a'n llenwi â llawenydd ei Ysbryd, ni fyddwn alluog i dewi â sôn. Os ydym wedi gweld a phrofi fod yr Arglwydd yn dirion, bydd gennym rywbeth i'w draethu. Fel Philip, pan ddarganfu'r Gwardwr, byddni wahodd eraill i'w bresenoldeb. Bydd i ni geisio gosod ger eu bron atyniadau Crist, a sylweddau anweledig y byd a ddaw. Bydd dymuniad angerddol i ddilyn y llwybr a droediodd yr Iesu. Bydd hiraeth dwys am i'r rhai o'n cwmpas allu gweld “Oen Duw, yr hwn sydd yn tynnu ymaith bechodau'r byd.” Ioan 1:29.

A bydd i'r ymdrech i fendithio eraill weithio yn ôl mewn bendithion arnom ein hunain. Dyma oedd amcan Duw yn rhoddi i ni ran i weithredu yng nghynllun yr iachawdwriaeth. Mae wedi caniatáu i ddynion y fraint o ddyfod yn gyfranogion o'r Ddwyfol natur, ac yn eu tro, o wasgaru bendithion i'w cyd-ddynion. Dyma'r anrhydedd uchaf, y llawenydd pennaf, y mae yn bosibl i Dduw ei roddi ar ddynion. Y rhai a ddeuant fel hyn yn gyfranogion yn llafur cariad, a ddygir agosaf at eu Creawdwr.

Gallasai Duw ymddiried cenadwri yr efengyl, a holl waith gweinidogaeth cariad, i'r angylion nefol. Gallasai ddefnyddio ffyrdd eraill er dwyn ei amcan i ben. Ond yn ei gariad anfeidrol dewisodd ein gwneud ni yn gydweithwyr gydag Ef ei hunan, gyda Christ a'r angylion, fel y gallem ni gyfranogi o'r fendith, y llawenydd, y dyrchafiad ysbrydol, sydd yn dilyn oddi wrth y weinidogaeth anhunanol hon.

Dygir ni i gydymdeimlad â Christ trwy gymdeithas ei ddiodeff-iadau. Mae pob gweithred o hunanaberth er lles eraill yn cryfhau ysbryd haelioni yng nghalon y rhoddwr, gan ei gyfathrachu yn agosach ag Iachawdwr y byd, “Ef, ac yntau'n gyfoethog, fyned er eich

mwyn chwi yn dlawd, fel y cyfoethogid chwi trwy ei dlodi ef.”Cor. 8:9. Ac fel y byddwn fel hyn yn cyflawni yr amcan Dwyfol yn ein creadigaeth yn unig y gall bywyd fod yn fendith i ni.

Os bydd i ti fynd i weithio fel mae Crist yn bwriadu i’w ddisgyblion wneud, ac ennill eneidiau iddo Ef, bydd i ti deimlo angen am brofiad dyfnach a gwybodaeth lawnach mewn pethau Dwyfol, a newynnu a sychedu am gyfiawnder. Bydd i ti bledio gyda Duw, a’th ffydd a gryfheir, a’th enaid a yf ddrachtiau dyfnach o ffynnon yr iachawdwriaeth. Gwrthwynebiadau a threialon a’th arweiniant at y Beibl ac at weddi. Bydd i ti gynyddu mewn gras a gwybodaeth o Grist, a datblygu profiad cyfoethog.

Mae llafur anhunanol dros eraill yn rhoddi dyfnder, sefydlogrwydd, a hawddgarwch fel eiddo Crist i’r cymeriad, ac yn dwyn tangnefedd a hapusrwydd i’w berchennog. Dyrchefir gobeithion. Nid oes lle i ddiogi a hunanoldeb. Y rhai a ymarferant fel hyn y grasusau Cristionogol a gynyddant, ac a ddeuant yn gryfion i weithio dros Dduw. Bydd ganddynt ddirnadaethau ysbrydol clir, ffydd sefydlog, gynyddol, a nerth cynyddol mewn gweddi. Mae Ysbryd Duw wrth ymsymud ar wyneb eu hysbryd hwy, yn galw allan gerddoriaeth gysegredig yr enaid. yn atebiad i’r Dwyfol gyffyrddiad. rhai sydd fel hyn yn cysegru eu hunain i ymdrech anhunanger er lles eraill yw’r rhai sydd yn gweithio allan sicraf eu hiachawdwriaeth eu hunain.

Yr unig ffordd i gynyddu mewn gras ydyw gwneuthur yn hollol y gwaith a orchymynwyd arnom gan Grist heb elw personol mewn golwg - bod ar waith, hyd eithaf ein gallu, er cynorthwyo a bendithio y rhai hynny sydd mewn angen am y cymorth y gallwn roddi iddynt. Daw nerth drwy ymarferiad; gweithgarwch ydyw gwir amod bywyd. Y rhai hynny a ymdrechant gynnal bywyd Cristionogol trwy dderbyn yn oddefol y bendithion a ddaw drwy foddion gras, gan wneud dim dros Grist, a geisiant fyw yn unig trwy fwyta heb weithio. Ac yn y

[59] byd ysbrydol yn ogystal â’r naturiol, mae hyn bob amser yn terfynu mewn dirywiad a llygriad. Y dyn a wrthodai arfer ei aelodau a gollai yn fuan y gallu i’w defnyddio. Yr un modd y Cristion nad yw’n defnyddio y galluoedd a roddwyd iddo gan Dduw, nid yn unig a fetha gynyddu yng Nghrist, eithr cyll y nerth oedd ganddo yn barod.

Eglwys Crist a benodwyd gan Dduw er iachawdwriaeth dynion. Ei chenhadaeth yw cludo yr Efengyl i’r byd. Ac mae’r rhwymedigaeth yn perthyn i bob Cristion. Mae pob un, hyd eithaf ei dalent a’i

gyfleustra, i gyfiawn i comisiwn y Gwardwr. Mae cariad Crist, a ddatguddiwyd i ni, yn ein gwneud yn ddyledwyr i bawb na wyddant amdano. Rhoddodd Duw i ni oleuni, nid i ni ein hunain yn unig, ond i'w wasgar arnynt hwy.

Pe byddai canlynwyr Crist yn effro i ddyletswydd, byddai yna filoedd lle mae dim ond un heddiw yn cyhoeddi yr Efengyl mewn gwledydd paganaidd. A byddai pawb na all yn bersonol ymrwymo yn y gwaith, eto yn ei gynnal â'u heiddo, eu cydymdeimlad, a'u gweddiau. A byddai yna lafur llawer mwy egniol dros eneidiau mewn gwledydd Cristionogol.

Ni raid i ni fynd i'r gwledydd paganaidd. neu hyd yn oed adael cylch cyfyng cartref, os mai yno y gorffwys ein dyletswydd, er mwyn gweithio dros Grist. Gallwn wneud hyn yng nghylch y cartref, yn yr Eglwys, ymysg y rhai hynny y cymdeithaswn â hwy, a chyda'r rhai y gwnawn fasnach.

Treuliwyd y rhan fwyaf o fywyd ein Gwardwr ar y ddaear mewn llafur amyneddgar yng ngweithdy'r saer yn Nasareth. Yr oedd angylion gwasanaethgar yn gweini ar Arglwydd y bywyd fel y rhodiai ochr yn ochr gyda gweision a gweithwyr, heb ei adnabod na'i anrhydeddu. Yr oedd yn cyflawni ei genhadaeth yr un mor ffyddlon wrth ddilyn ei alwedigaeth gyffredin a phan iachâi'r claf neu rodiai ar y tonnau a gurid gan storm yng Ngalyilea. Gallwn felly rodio a gweithio gyda'r Iesu, yn y dyletswyddau mwyaf darostyngol a safleoedd isaf bywyd.

Yr Apostol a ddywed, "Yn yr hyn y galwyd pob un, frodyr, yn hynny arhosed gyda Duw." 1 Cor. 7:24. Gall y masnachwr gario ymlaen ei fasnach mewn ffordd a ogonedda ei Feistr oherwydd ei onestrwydd. Os yw yn wir ganlynwr Crist, fe gluda ei grefydd i bopeth a wneir, a datguddia i ddynion ysbryd Crist. Gall y creftwr fod yn gynrychiolydd diwyd a ffyddlon i'r hwn a lafuriodd yn rhodfeydd isel bywyd rhwng bryniau Galilea. Dylai pob un sydd yn enwi enw Crist weithio yn y fath fodd, fel y byddo i eraill, wrth weld ei weithredoedd da, gael eu harwain i ogoneddu eu Creawdwr a'u Gwardwr.

Mae llawer wedi esgusodi eu hunain rhag rhoddi eu gwasanaeth i Crist oherwydd fod eraill yn meddu doniau a manteision uwch. Mae syniad wedi ymledu mai y rhai hynny sydd yn neilltuol dalentog yn unig sydd i gysegru eu galluoedd i wasanaeth Duw. Y mae llawer

yn meddwl na roddir talentau ond i ddosbarth breintiedig, ar draul cau allan eraill, ac na ellir galw arnynt i gyfranogi yn y llafur na'r gwobrwyon. Eithr nid felly y dywed y ddameg. Pan alwodd arglwydd y tŷ ar ei weision, roes i bob un ohonynt ei waith.

Gydag ysbryd hawddgar y gallwn gyflawni dyletswyddau isaf bywyd “megis i'r Arglwydd.” Col. 3:23. Os yw cariad Duw yn y galon, bydd yn amlwg yn y bywyd. Bydd i bêrarogl Crist ein hamgylchu, a bydd i'n dylanwad ddyrchafu a bendithio.

Nid wyt i aros am achlysuron pwysig na disgwyl cymwysterau anghyffredin cyn mynd i weithio dros Dduw. Ni raid i ti ystyried beth a feddylia y byd amdanat. Os yw dy fywyd beunyddiol yn dystiolaeth i burdeb a chywirdeb dy ffydd, a bod eraill yn argyhoeddedig dy fod yn dymuno eu llesau ni bydd i'th ymdrechion gael eu colli yn llwyr.

Gall yr isaf a'r tlotaf o ddisgyblion yr Iesu fod yn fendith i eraill. Dichon na fyddant yn sylweddoli eu bod yn gwneud dim daioni neilltuol, ond trwy eu dylanwad anymwybodol gallant gychwyn tonnau o fendith a ledant ac a ddyfnhânt, a dichon na chant fyth wybod y canlyniadau bendithiol hyd ddydd olaf y gwobrwyo. Nid ydynt yn teimlo nac yn gwybod eu bod yn gwneud dim byd mawr. Ni ofynnir iddynt ymboeni gan bryder ynghylch llwyddiant. Nid oes angen iddynt ond mynd ymlaen yn ddistaw, gan wneud yn ffyddlon y gwaith a fwriada rhagluniaeth Duw iddynt, ac ni fydd eu bywyd yn ofer. Bydd i'w heneidiau eu hunain gynyddu yn

[61]

[62]



## Article 10—Gwybodaeth am dduw

LLUOSOG YW'R FFYRDD y ceisia Duw wneud ei hunan yn hysbys i ni a'n dwyn i gymundeb ag Ef. Mae natur yn llefaru wrth ein synhwyrau yn ddiball. Bydd i'r galon agored gael argraffu arni gan gariad a gogoniant Duw fel eu datguddir drwy weithredoedd ei ddwylo. Gall y glust sydd yn gwrando glywed a deall ymadroddion Duw trwy bethau natur. Mae'r maesydd gwyrddion, y coed uchel, yr egin a'r blodau, y cwmwl wrth fynd heibio, y glaw sydd yn disgyn, y nant yn sisial, gogoniant y nefoedd, oll yn siarad wrth ein calonnau, ac yn ein gwahodd i ddyfod yn gydnabyddus ag Efe yr hwn a'u gwnaeth oll.

Cyfunai ein Gwardwr ei wersi gwerthfawr gyda phethau natur.coed, yr adar, blodau'r maes, y bryniau, y llynnoedd, a'r nefoedd brydferth, yn ogystal a digwyddiadau ac amgylchyniadau bywyd beunyddiol, yr oeddynt oll yn cael eu dolennu wrth eiriau gwirionedd, fel y gallai ei wersi drwy hynny gael eu galw yn ôl i'r meddwl, hyd yn oed yng nghanol gofalon prysur bywyd llafurus dyn.

Mynnai Duw gael ei blant i werthfawrogi ei weithredoedd. ac ymhyfrydu yn y prydferthwch syml, distaw yr addurnodd ein cartref daearol â hwy. Y mae yn edmygydd o'r prydferth, ac uwchlaw pob peth sydd atyniadol, y mae yn caru prydferthwch cymeriad; mynnai i ni ddiwyllio purdeb a symlrwydd, grasusau distaw y blodau.

Dim ond i ni wrando. bydd i weithredoedd creëdig Duw ddysgu i ni wersi gwerthfawr o ufudd-dod ac ymddiried. O'r sêr y rhai o oes i oes a ddilynant eu llwybrau penodedig yn eu cwrs anolrhein-iadwy drwy'r gofod, i lawr at y atomau eiddilaf, mae pethau natur yn ufuddhau i ewyllys y Creawdwr. Ac y mae Duw yn gofalu am bob peth ac yn cynnal pob peth a greodd. Yr hwn sydd yn cynnal y bydoedd afrifed ym mhob man drwy yr eangder annherfynol, sydd ar yr un pryd yn gofalu am anghenion aderyn bach y tô sydd yn canu ei ganig heb fraw. Pan â dynion allan i'w gwaith dddiol, felly hefyd gyda'r gorchwyl o wedd iö; wrth orwedd y nos ac wrth godi yn y

[63]

bore; pan fydd y goludog yn gwledda yn ei balas, neu pan fydd y tlawd yn casglu ei blant ynghyd oddeutu y bwrdd llwm, mae pob un yn cael ei wyllo yn dyner gan y Tad Nefol. Ni thywelltir un deigrin nad yw Duw yn sylwi arno. Nid oes gwên nad yw Efe yn craffu ami.

Pe mynem ond credu hyn yn llawn, bwridd allan bob pryderon amhriodol. Ni fyddai ein bywydau mor lawn o siomedigaeth ag ydynt yn awr; oherwydd y byddai pob peth, pa un bynnag bach neu fawr, yn cael ei adael yn nwylo Duw, yr Hwn nad yw yn drysu gyda lluosowgrwydd gofalon, nac yn cael ei lethu gan eu pwys. Dylem gan hynny fwynhau y gorffwys enaid y mae llawer wedi bod yn hir yn ddieithr iddo.

Fel bydd dy synhwyrâu yn ymhyfrydu ym mhrydferthwch hudol y ddaear, meddwl am y byd a ddaw, yr hwn na wŷr byth am falltod pechod a marwolaeth; Ile na bydd wyneb natur mwy yn gwisgo cysgod o'r felltith. Boed i'th ddychymyg dynnu darlun o gartref y gwaredigion, a chofia y bydd yn fwy gogoneddus na dim y gall dy ddychymyg disgleiriaf ei bortreadu. Yn amrywiol ddoniau Duw mewn natur ni welwn ond y llewyrch gwannaf o'i ogoniant. Mae yn ysgrifenedig, "Ni welodd llygad, ac ni chlywodd clust, ac ni ddaeth i galon dyn, y pethau a ddarparodd Duw i'r rhai a'i carant ef." 1 Cor. 2:9.

Mae gan y bardd a'r naturiaethwr lawer o bethau i'w dweud ynghylch natur; ond y Cristion sydd yn mwynhau prydfferthwch y ddaear gyda'r gwerthfawrogiad uchaf, canys y mae ef yn gweld gwaith dwylaw ei Dad, ac yn gweld ei gariad mewn blodeuyn, a phrysgwydd, a choeden. Ni all unrhyw un werthfawrogi yn llawn arwyddocâd y bryn a'r dyffryn, yr afon a'r môr, os nad yw yn edrych arnynt fel mynegiad o gariad Duw at ddyn.

[64] Mae Duw yn llefaru wrthym drwy ei weithredoedd rhagluniaethol, a thrwy ddylanwad ei Ysbryd ar y galon. Gallwn gael gwersi gwerthfawr, dim ond i'n calonnau fod yn agored i'w canfod, yn ein hamgylchiadau a'n hamgylchedd, yn y cyfnewidiadau sydd yn digwydd o'n cylch bob dydd. Y Salmydd, wrth olrhain gwaith rhagluniaeth Duw, a ddywed, "O drugaredd yr Arglwydd y mae y ddaear yn gyfiawn." "neb sydd ddoeth, ac a gadwo hyn, hwy a ddeallant drugareddau yr Arglwydd." Salmau 33:5; 107:43.

Mae Duw yn llefaru wrthym yn ei Air. Cawn yma mewn llinellau cliriach y datguddiad o'i gymeriad, o'i ymdrafodaethau gyda dynion.

a gwaith mawr y brynedigaeth. Cawn yma yn agored o'n blaen hanes patriarchiaid a phroffwydi a dynion sanctaidd eraill yr hen amser. Yr oeddynt yn ddynion "o'r un anian â ninnau." Iago 5:17. BCN. Gwelwn pa fodd yr ymdrechasant drwy anhawsterau fel yr eiddom ninnau, fel y syrthiasant dan demtasiwn fel y gwnaethom ninnau, ac eto yn cymryd calon drachefn a gorchfygu drwy ras Duw; ac wrth edrych vr ydym yn cael ein calonogi yn ein hymdrech am gyfiawnder. Wrth i ni ddarllen am y profiadau gwerthfawr a ganiatawyd iddynt hwy, am y goleuni a'r cariad a'r fendith oedd iddynt i'w mwynhau, ac am y gwaith a gyflawnasant drwy y gras roed iddynt, mae'r ysbryd a'i hysbrydolodd hwy yn ennyn fflam o eiddgedd sanctaidd yn ein calonnau, a dymuniad am fod yn debyg iddynt mewn cymeriad - fel hwythau i rodio gyda Duw.

Dywedodd yr Iesu am Ysgrythyrau yr Hen Destament - a pha faint mwy gwir ydyw am y Newydd - "Hwynt-hwy yw'r rhai sydd yn tystiolaethu amdanaf fi" (Ioan 5:39), y Prynwr, Efe yn yr Hwn y mae ein gobeithion am fywyd tragwyddol yn canolbwyntio. Ydyw, mae'r holl Feibl yn dweud am Grist. O'r cofnodiad cyntaf am y greadigaeth - canys "hebdo ef ni wnaethpwyd dim a'r a wnaethpwyd" (Ioan 1:3) - hyd yr addewid derfynol, "Ac wele, yr wyf yn dyfod ar frys" (Dat. 22:12), yr ydym yn darllen am ei weithredoedd, ac yn gwrandao ar ei lais. Os mynnwch ddyfod yn gydnabyddus â'r Gwaredwr. astudiwch yr Ysgrythyrau Sanctaidd.

Llanw dy holl galon â geiriau Duw. Hwynt-hwy yw'r dŵr bywiol, sy'n torri dy syched angerddol. Hwynt-hwy yw'r bara bywiol o'r nef. Yr Iesu a fynega, "Oni fwytewch gnawd Mab y dyn, ac onid yfwch ei waed ef. nid oes gennych fywyd ynoch." Ac Efe a eglura ei hun trwy ddweud, "Y geiriau yr ydwyf fi yn eu llefaru wrthy, ysbryd ydynt, a bywyd ydynt." Ioan 6:53, 63. Mae ein cyrff yn cael eu gwneud i fyny o'r hyn a fwytawn ac a yfwn; ac fel yn y trefniant naturiol, felly yn y trefniant ysbrydol; yr hyn y myfyriwn arno yw'r hyn sydd yn rhoddi iechyd a nerth i'n natur ysbrydol. [65]

Mae thema'r prynedigaeth yn un y mae'r angylion yn chwenychu edrych i mewn iddo, a bydd yn wyddoreg a chân y gwaredigion drwy oesoedd diddarfod tragwyddoldeb. Onid yw yn deilwng o sylw ac astudiaeth ofalus yn awr? Mae anfeidrol drugaredd a chariad Iesu, yr aberth a wnaed drosom ni, yn galw am y myfyrdod mwyaf dwys a difrifol. Dylem aros ar gymeriad ein hanwyl Waredwr a'n Cyf-

ryngwr. Dylem fyfyrrio ar genhadaeth yr Hwn a ddaeth i waredu ei bobl oddi wrth eu pechodau. Wrth i ni fel hyn fyfyrrio ar bynciau nefol, bydd i'n ffydd a'n cariad gryfhau, a bydd ein gweddiau yn fwy-fwy cymeradwy gan Dduw, am y byddant yn fwy-fwy gymysg â ffydd a chariad. Byddant yn ddeallgar a gwresog. Bydd yna ymddiriedaeth fwy cyson yn yr Iesu, a phrofiad byw beunyddiol o'i allu i achub hyd yr eithaf bawb a ddeuant at Dduw drwyddo Ef.

Wrth i ni fyfyrrio ar berffeithrwydd y Gwarddwr, bydd i ni ddymuno am gael ein cwbl drawsffurfio a'n hadnewyddu ar ddelw ei burdeb Ef. Bydd yna newyn a syched enaid am gael bod yn debyg i'r Hwn a addolwn. Po fwyaf y bydd ein meddyliau ar Grist, mwyaf oll y siaradwn amdano wrth eraill, a'i gynrychioli yn y byd.

Ni ysgrifenydd y Beibl i'r ysgolor yn unig; i'r gwrthwyneb, bwriadwyd ef i'r bobl gyffredin. Gwneir y gwirioneddau mawrion sy'n hanfodol er iachawdwriaeth mor glir â'r dydd; ac ni bydd i neb gangymryd a cholli eu ffordd, oddieithr y rhai hynny a ddilynant eu barn eu hunain yn lle ewyllys amlwg ddatguddiedig Duw.

Ni ddylem dderbyn tystiolaeth unrhyw ddyn am y hyn a ddysga yr Ysgrythyrau, ond dylem astudio geiriau Duw drosom ein hunain. Os caniatawn i eraill feddwl drosom ni bydd i ni gael egnïon gwanychol a galluoedd crebachlyd. Gall cyneddfau ardderchog y meddwl gael eu corachu trwy ddiffyg ymarferiad ar bynciau teilwng, fel ag i golli eu gallu i ddirnad ystyron dyfnion Gair Duw. Bydd i'r meddwl ehangu os ydyw ar waith yn olrhain perthynas pynciau y Beibl, gan gymharu ysgrythur gydag ysgrythur, a phethau ysbrydol â'r ysbrydol.

[66] Nid oes dim cymhwysach er cryfhau y deall nag astudiaeth o'r Ysgrythyrau. Nid oes un llyfr arall mor alluog i ddyrchafu y meddyliau, i roddi grym i'r cyneddfau, a gwirioneddau llydain dyrchafol y Beibl. Pe byddai Gair Duw yn cael ei astudio fel y dylai, cai dynion y fath lydanrwydd meddwl, urddasolrwydd cymeriad, a sefydlogrwydd amcan na welir ond yn anfynych.

Ond ychydig fantais sydd yn deillio o ddarlleniad brysiog o'r Ysgrythyrau. Gall dyn ddarllen yr holl Feibl drwodd, ac eto fethu canfod ei brydferthwch, neu amgyffred ei ystyr ddofn a chuddiedig. Mae un adran yn cael ei hastudio hyd nes byddo ei harwyddocâd yn eglur i'r meddwl, a'i pherthynas â chynllun yr iachawdwriaeth yn amlwg, o fwy o werth na darllen llawer o benodau heb un amcan

penodol na dim addysg bendant. Cadw dy Feibl gyda thi. Pan fo'n gyfleus, darllen ef; sefydla yr adnodau yn dy gof. Hyd yn oed pan fyddi yn cerdded yr heolydd, gelli ddarllen adran, a myfyrio arni, a thrwy hynny ei sefydlu yn dy feddwl.

Ni allwn gael doethineb heb sylwi'n ddwys ac astudio'n weddigar. Mae rhai rhannau o'r Ysgrythyr yn wir yn rhy hawdd i'w camgymryd; ond mae eraill nad yw eu hystyr yn gorwedd ar y wyneb, i'w ganfod â chipdrem. Rhaid cymharu ysgrythur âg ysgrythur. Rhaid fod ymchwiliad gofalus a myfyrdod gweddigar. A bydd i'r cyfryw astudiaeth dalu yn ôl yn oludog. Fel y darganfydda y mwynwr wythiennau y metel gwerthfawr a guddiwyd dan wyneb y ddaear, felly y cenfydd y sawl a chwilia Air Duw yn ddyfal, fel am drysor cuddiedig, wirioneddau o'r gwerth mwyaf, y rhai ydynt guddiedig o olwg yr ymchwiliwr diofal. Bydd geiriau ysbrydoliaeth, wedi myfyrio arnynt yn y galon, megis ffrydiau yn tarddu o ffynnon bywyd.

Ni ddylai y Beibl byth gael ei astudio heb weddi. Cyn agor ei ddalennau dylem ofyn am oleuni yr Ysbryd Glân, ac fe'i rhoddir i ni. Pan ddaeth Nathanael at yr Iesu, dywedodd y Gwardwr, "Wele Israeliad yn wir, yn yr hwn nid oes dwyll!" Dywedodd Nathanael, "Pa fodd y'm hadwaenost?" Iesu a atebodd, "Cyn i Philip dy alw di, pan oeddit tan y ffigysbren, mi a'th welais di." Ioan 1:47, 48. Gwêl yr Iesu ninnau hefyd yn nirgel fannau gweddi, os ceisiwn Ef am oleuni, fel y gallom wybod beth yw gwirionedd. Bydd angylion o fyd y goleuni gyda'r rhai hynny a geisiant arweiniad Dwyfol mewn gostyngeddwydd calon.

Mae'r Ysbryd Glân yn dyrchafu a gogoneddu y Gwardwr. Ei swyddogaeth ydyw gosod Crist, purdeb ei gyfiawnder, a'r

[67]

[68]

## Article 11—Rhagorfraint gweddi

TRWY NATUR A datguddiad, trwy ei ragluniaeth, a thrwy ddy-lanwad ei Ysbryd, y mae Duw yn llefaru wrthym. Eithr nid yw'r rhai hyn yn ddigon; rhaid i ninnau hefyd dywallt allan ein calonnau iddo Ef. Er mwyn cael bywyd ysbrydol a grymusder rhaid i ni gael cyf-athrach weithredol â'n Tad Nefol. Gall ein meddyliau gael eu tynnu allan tuag ato Ef; gallwn fyfyrion ar ei weithredoedd, ei drugareddau, ei fendithion; eithr nid yw hyn, yn yr ystyr lawnaf, yn gymundeb ag Ef. Er mwyn dal cymundeb â Duw, rhaid fod gennym rhywbeth i'w ddweud wrtho am ein bywyd fel ag y mae.

Gweddi yw agoriad y galon i Dduw megis i gyfaill. Nid am fod hynny yn angenrheidiol er mwyn gwneud yn hysbys i Dduw yr hyn ydym, ond er mwyn ein galluogi ni i'w dderbyn Ef. Nid yw gweddi yn dwyn Duw i lawr atom ni, ond ein dwyn ni i fyni ato Ef.

Pan oedd Iesu ar y ddaear dysgodd ei ddisgyblion sut i weddio. Cyfarwyddodd hwynt i osod eu hanghenion beunyddiol gerbron Duw, a bwrw eu holl ofal arno Ef. Ac mae'r sicrwydd a roddodd iddynt y gwrandedid eu deisyfiadau, yn sicrwydd i ninnau hefyd.

Yr oedd Iesu ei hunan, pan drigai gyda dynion, yn fynych mewn gweddi. Ystyriai y Gwardwr ei hun yn un â ninnau yn ein anghenion a'n gwendidau, yn gymaint ag y daeth yn ymbiliwr a gweddiwr, gan geisio oddi wrth ei Dad gyflenwadau adnewyddol o nerth, fel y gallai ddyfod allan wedi ymwregysu ar gyfer dyletswydd a phrofedigaeth. Mae yn esiampl i ni ym mhob peth. Mae yn frawd yn ein gwendidau, "wedi ei demtio ym mhob peth yr un ffunud â ninnau;" Heb 4:15. ond fel y dibechod ciliai ei natur oddi wrth ddrwg; dioddefodd ymrysonau ac arteithiau enaid mewn byd o bechod. Gwnaeth ei ddynoliaeth weddi yn angenrheidrwydd a braint. Yr oedd yn cael cysur a llawenydd mewn cymundeb â'i Dad. Ac os oedd Gwardwr dynion, Mab Duw, yn teimlo angen gweddi, pa faint mwy y dylai pechaduriaid gwan deimlo yr angenrheidrwydd am weddi wresog barhaus!

[69]

Mae ein Tad Nefol yn disgwyl am gael rhoddi arnom gyflawnder ei fendith. Ein braint ydyw cael yfed yn helaeth o ffynnon cariad anherfynol. Y fath syndod yw ein bod yn gweddio cyn lleied! Mae Duw yn barod ac ewyllysgar i wrando gweddi gywir yr isaf o'i blant, ac eto mae yna gryn anfodlonrwydd o'n tu ni i hysbysu ein anghenion i Dduw. Beth all fod angylion y nef yn ei feddwl o drueiniaid, sydd yn ddarostyngedig i demtasiwn, tra bo calon anfeidrol gariad Duw yn cynhyrfu gan dosturi tuag atynt, yn barod i roddi iddynt fwy nac y gallant ofyn neu feddwl amdano, a hwythau er hynny yn gweddio cyn lleied, a chanddynt cyn lleied o ffydd? Mae'r angylion yn caru ymostwng gerbron Duw; maent yn caru bod yn agos ato. Ystyriant gymundeb â Duw fel eu llawenydd pennaf; ac eto ymddengys plant y ddaear, sydd mewn cymaint o angen am y cymorth na all ond Duw yn unig ei roddi, yn fodlon i rodio heb oleuni ei Ysbryd. cymdeithas ei bresenoldeb.

Mae tywyllwch yr un drwg yn cau am y rhai sy'n esgeuluso gweddio. Mae temtasiynau sibrydol y gelyn yn eu hudo i bechod; ac mae hyn oll am na wnânt ddefnydd o'r rhagorfreintiau a roddwyd iddynt gan Dduw yn yr apwyntiad Dwyfol o weddi. Paham y dylai meibion a merched Duw fod yn hwyrfrydig i weddio, pan fo gweddi yn agoriad yn llaw ffydd i agor stordy'r nefoedd, lie mae adnoddau diderfyn Hollalluowgrwydd? Heb weddi ddibaid a gwyliadwriaeth ddyfal, yr ydym mewn perygl o dyfu yn ddiotal ac o wyro oddi ar y llwybr iawn. Ceisia y gwrthwynebwr yn barhaus rwystro y ffordd at y drugareddfa, fel na byddo i ni trwy daer ymbil a ffydd dderbyn gras a nerth i wrthwynebu temtasiwn.

Mae yna amodau penodol ar ba rai y gallwn ddisgwyl y gwna Duw wrando ac ateb ein gweddiâu. Un o'r rhai cyntaf ohonynt ydyw ein bod yn teimlo ein hangen am help oddi wrtho Ef. Y mae wedi addo, "Canys tywalltaf ddyfroedd ar y sychedig, a ffrydiau ar y sychdir." Esa. 44:3. Gall y rhai sydd â newyn a syched am gyfiawnder, y rhai sydd yn hiraethu am Dduw, fod yn sicr y cant eu llanw. Ond rhaid i'r galon fod yn agored i ddylanwad yr Ysbryd, onide ni ellir derbyn bendith Duw.

Mae ein mawr angen ei hunan yn ymresymiad, ac yn eiriol mor huawdl ar ein rhan. Eithr rhaid yw ceisio yr Arglwydd i wneud y pethau hyn i ni. Efe a ddywed, "Gofynnwch, a rhoddir i chwi." Hefyd "Yr hwn nid arbedodd ei briod Fab, ond a'i traddododd ef

trosom ni oll; pa wedd gydag ef hefyd na ddyry efe i ni bob peth.’ Matt. 7:7; Rhuf. 8:32.

Os ydym yn mawrhau anwiredd yn ein calonnau, os ydym yn glynu wrth rhyw bechod gwybyddus, ni bydd i’r Arglwydd ein gwrandu; ond y mae gweddi’r enaid edifeiriol cystuddiedig, bob amser yn gymeradwy. Pan wneir yn union bob camwedd gwybyddus, gallwn gredu y gwna Duw ateb ein deisyfiadau. Ni wna ein haeddiant ein hunain byth ein cymeradwyo i ffafr Duw; haeddiant yr Iesu a’n ceidw, ei waed Ef a’n glanhâ; eto mae gennym waith i’w gyflawni i gydymffurfio ag amodau cymeradwyaeth.

Elfen arall mewn gweddi Iwyddiannus ydyw ffydd. “Oblegid rhaid yw i’r neb sydd yn dyfod at Dduw, gredu ei fod ef, a’i fod yn obrwywr i’r rhai sydd yn ei geisio ef.” Dywedodd yr Iesu wrth ei ddisgyblion, “Beth bynnag oll a geisioch wrth weddio, credwch y derbyniwch, ac fe fydd i chwi.” Heb. 11:6; Marc 11:24. A ydym ni yn ei gymryd ar ei air?

Mae’r addewid yn llydan ac heb derfyn, a ffyddlon yw’r Hwn a addawodd. Pan na dderbyniwn yn hollol y pethau y gofynwn amdanynt, yr ydym eto i gredu fod yr Arglwydd yn gwrandu, ac yr ateba ein gweddïau. Yr ydym ni mor gyfeiliornus a chibddall fel ein bod weithiau yn gofyn am bethau na fydd yn fendith i ni, ac mae ein Tad Nefol o’i gariad yn ateb ein gweddïau trwy rododi i ni yr hyn fydd er ein daioni uchaf - yr hyn y byddem ni ein hunain yn ei ddymuno pe gallem weld pob peth fel y maent mewn gwirionedd gyda gwelediad dwyfol oleuedig. Pan ymddengys fod ein gweddïau heb gael eu hateb, yr ydym i ddal gafael yn yr addewid; canys mae’r amser i ateb yn sicr o ddyfod, a derbyniwm y fendith yr ydym mewn mwyaf o angen amdani. Ond tybiaeth ydyw honni y bydd i weddi bob amser gael ei hateb yn union yn y ffordd ac er rhoddi y peth neilltuol a ddymunwn ni. Mae Duw yn rhy ddoeth i gyfeiliorni, ac yn rhy dda i atal daioni oddi wrth y rhai a rodiant yn berffaith. Gan hynny nac ofnwch ymddiried ynddo, hyd yn oed er nad ydych yn gweld yr atebiad uniongyrchol i’ch gweddïau. Ymddiriedwch yn ei addewid sicr, “Gofynnwch, a rhoddir i chwi.”

[71]

Os ymgynghorwn â’n hamheuron a’n hofnau, neu geisio datrys pob peth na allwn ei weld yn glir, cyn y bydd gennym ffydd, ni wna dyrswch ond cynyddu a dyfnhau. Ond os deunw at Dduw, gan deimlo yn ddigynorthwy a dibynnol, fel yr ydym mewn gwirion-



edd, a gwneud yn hysbys ein hanghenion mewn ffydd ymddiriedol ostyngedig i'r Hwn sydd â'i wybodaeth yn anfeidrol, yr Hwn a wêl bob peth mewn creadigaeth, a'r Hwn sydd yn llywodraethu pob peth â'i ewyllys a'i air, Efe a all ac a wna dalu sylw i'n cri, ac a bâr i oleuni dywynnu i'n calonnau. Trwy weddi ddiragrith fe'n dygir i gysylltiad â meddwl yr Anfeidrol. Dichon na fydd gennym ar y pryd un prawf arbennig fod wyneb ein Prynwr yn gwyro mewn tosturi a chariad i edrych arnom; eithr hyn yn wir yw'r ffaith. Hwyrach na theimlwn ei gyffyrddiad gweledig, eithr mae ei law arnom mewn cariad a thynerwch tosturiol.

Pan ddeuwn i ofyn trugaredd a bendith gan Dduw, dylem gael ysbryd cariad a maddeuant yn ein calonnau. Pa fodd y gallwn weddio, "Maddau i ni ein dyledion, fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr" (Matt. 6:12), ac eto anwesu ysbryd anfaddeugar? Os ydym yn disgwyl i'n gweddiâu ein hunain gael eu gwrando, rhaid i ni faddau i eraill yn yr un dull, ac i'r un graddau, ag y gobeithiwn gael maddau i ni.

Mae dyfal-barhad mewn gweddi wedi ei wneud yn amod derbyn-iad. Rhaid i ni weddio yn ddibaid os mynnwn gynyddu mewn ffydd a phrofiad. Yr ydym i "ddyfalbarhau mewn gweddi," i "barhau mewn gweddi, gan wylid ynddi gyda diolchgarwch." Rhuf. 12:12; Col. 4:2. Pedr a gynghora gredinwyr i fod yn "sobr, a gwyliadwrus i weddiâu" 1 Pedr. 4:7. Paul a gyfarwydda, "Ym mhob peth mewn gweddi ac ymbil gyda diolchgarwch, gwneuler eich deisyfiadau chwi yn hysbys gerbron Duw." Phil. 4:6. "Eithr chwychwi, anwylyd" meddai Judas, "gan . . . weddio yn yr Ysbryd Glân, ymgedwch yng nghariad Duw." Judas 20, 21. Gweddi ddibaid ydyw undeb didor yr enaid gyda Duw, nes mae bywyd oddi wrth Dduw yn llifo i'n bywyd ni; ac o'n bywyd ninnau llifa purdeb a sancteiddrwydd yn ôl at Dduw.

Mae angen am ddiwydrwydd mewn gweddi; na foed i ddim dy rwystro. Gwna bob ymdrech i gadw yn agored y cymundeb rhwng yr Iesu a'th enaid dy hun. Achub bob cyfle i fynd lle mae gweddi yn cael ei harfer. Y rhai hynny sydd mewn gwirionedd yn ceisio cymundeb â Duw a welir yn y cyfarfod gweddi, yn ffyddlon i gyflawni eu dyletswydd, ac yn ddifrifol a phryderus am feddi yr holl fanteision y gallant ennill. Defnyddiant bob cyfleustra i osod eu hunain lle gallant dderbyn pelydrau y goleuni o'r nef.

Dylem weddio hefyd yn y cylch teuluaid; ac uwchlaw y cwbl rhaid i ni beidio esgeuluso gweddi ddirgel, canys dyma fywyd yr enaid. Amhosibl yw i'r enaid Iwyddo tra yr esgeulusir gweddi. Nid yw gweddi deuluaid neu gyhoeddus yn unig yn ddigon. Mewn unigedd boed i'r enaid gael ei osod yn agored i lygad Duw sydd yn edrych i mewn. Mae gweddi ddirgel yn cael ei gwrando yn unig gan y Duw sydd wrandawr-gweddi. Nid oes un glust gywrain i dderbyn baich y cyfryw ddeisyfiadau. Mewn gweddi dirgel mae'r enaid yn rhydd oddi wrth ddylanwadau allanol, yn rhydd oddi wrth gyffroad. Yn dawel, eto yn wresog, y bydd i'r enaid ymestyn allan at Dduw. Hyfryd ac arhosol fydd y dylanwad a lifa oddi wrth yr Hwn a wêl yn y dirgel, yr Hwn sydd yn gwrando y weddi a esgyna o'r galon. Trwy ffydd seml, dawel. deil yr enaid gymundeb â Duw, a chasgla iddo ei hunan belydrau dwyfol oleum i'w nerthu a'i gynnal yn y frwydr â Satan. Duw yw tŵr ein nerth.

Gweddïa yn dy ystafell-ddirgel; ac fel y byddi yn mynd ynghylch dy lafur dyddiol gad i'th galon yn aml esgyn i fyny at Dduw. Dyma fel yr oedd Enoch yn rhodio gyda Duw. Mae'r gweddïau distaw hyn yn esgyn fel arogl-darth gwerthfawr gerbron gorsedd gras. Ni all Satan orchfygu yr hwn y mae ei galon fel hyn wedi ei sefydlu ar Dduw.

Nid oes nac amser na lle amhriodol i offrymu gweddi i Dduw. Nid oes dim all ein cadw rhag dyrchafu ein calonnau mewn ysbryd gweddi daer. Yn nhorfeydd yr heol, yng nghanol ymrwymiad masnachol, gallwn anfon ddeisyfiad at Dduw, ac eiriol am arweiniad Dwyfol, fel y gwnaeth Nehemiah wrth osod ei gais gerbron y brenin Artacsercses. Gellir canfod dirgelfa cymundeb pa le bynnag yr ydym. Dylem adael drws y galon yn agored bob amser, a'n gwahoddiad yn esgyn fel y gallo yr Iesu ddyfod ac aros fel ymwelydd nefol yn yr enaid.

[73] Er y gall fod o'n hamgylch awrygylch heintus, lygredig, ni raid i ni anadlu ei sawr, ond gallwn fyw yn awyr bur y nef. Gallwn gau bob drws rhag dychymygion amhur a meddyliau ansanctaid trwy dyrchafu yr enaid i bresenoldeb Duw trwy weddi daer. Y rhai hynny sydd a'u calonnau yn agored i dderbyn cymorth a bendith Duw a rodiant mewn awrygylch sancteiddiach nac eiddo y ddaear, a chânt gymundeb cyson â'r Nefoedd.

Mae arnom angen am gael golwg gliriach ar yr Iesu, ac amgyffrediad llawnach o werth y sylweddau tragwyddol. Bydd i brydferthwch sancteiddrwydd lanw calonnau plant Duw; ac er dwyn hyn i fod dylem geisio dadleniadau Dwyfol o bethau nefol.

Bydded i'r enaid gael ei dynnu allan ac i fyny, fel y gallo Duw ganiatâu i ni anadliad o'r awyrgylch nefol. Gallwn gadw mor agos at Dduw fel y byddo in meddyliau ym mhob profedigaeth annisgwyl-iadwy droi ato Ef mor naturiol ag y try y blodeuyn at yr haul.

Cadw dy anghenion, dy lawenydd, dy drallodion, dy ofalon, a'th ofnau gerbron Duw. Ni elli ei orlwytho Ef; ni elli ei flino Ef. Nid yw'r Hwn sydd yn cyfrif gwallt dy ben yn ddifater ynghylch anghenion ei blant. "Oblegid tosturiol iawn yw'r Arglwydd, a thrugarog." Iago 5:11. Cyffyrddir ei galon o gariad gan ein trallodion, ac hyd yn oed gan ein mynegiad ohonynt. Dwg ato Ef bob peth sydd yn drysu'r meddwl. Nid oes dim yn rhy fawr ganddo Ef ei ddwyn, oblegid y mae yn cynnal bydoedd, mae yn llywodraethu dros holl amgylchiadau y cyfanfyd. Nid oes dim sydd mewn unrhyw ffordd yn dal perthynas â'n heddwch ni yn rhy fychan iddo Ef sylwi arno. Nid oes yr un bennod yn ein profiad yn rhy dywyll iddo Ef ei darllen; yr un dryswch yn rhy anodd iddo Ef ei ddatrys. Ni all unrhyw ddrygfyd ddigwydd i'r lleiaf o'i blant, unrhyw bryder flino yr enaid, unrhyw lawenydd sirioli, unrhyw weddi gywir ddianc oddi ar y gwefusau, heb i'n Tad Nefol sylwi arnynt, neu heb iddo deimlo diddordeb uniongyrchol ynddynt. "Efe sydd yn iacháu y rhai briwedig o galon, ac yn rhwymo eu doluriau." Salm 147:3. Mae'r berthynas rhwng Duw a phob enaid unigol mor wahanol a llawn â phe na buasai yna enaid arall ar y ddaear i gyfranogi o wylidwriaeth ei ofal, un enaid arall dros yr hwn y rhoddodd ei annwyl Fab.

Yr Iesu a ddywedodd, "Y dydd hwnnw y gofynnwch yn fy enw: ac nid wyf yn dywedyd i chwi, y gweddïaf fi ar y Tad trosoch: canys y Tad ei hun sydd yn eich caru chwi." "Myfi a'ch dewisais chwi, . . . megis pa beth bynnag a ofynnoch gan y Tad yn fy enw i, y rhoddo efe i chwi." Ioan 16:26, 27; 15:16. Ond mae gweddio yn enw Iesu yn rhywbeth mwy na chrybwyll yr enw hwnnw yn unig ar ddechrau a diwedd gweddi. Golyga weddio ym meddwl ac ysbryd yr Iesu, tra yn credu ei addewidion, ymddiried yn ei ras, a gweithio ei waith.

Nid yw Duw eisiau i neb ohonom ddyfod yn feudwyon neu fynachod, ac ymneilltuo o'r byd i ymgysegru i weithredoedd o add-

[74]

oliad. Rhaid i'r bywyd fod yn gyffelyb i fywyd Crist - rhwng y mynydd a'r tyrfaoedd. Yr hwn nad yw yn gwneud dim ond gweddio yn fuan a beidia â gweddio, neu bydd i'w weddiau ddyfod yn arfer a defod ffurfiol. Pan gymer dynion eu hunain allan o fywyd cymdeithasol, allan o gylch dyletswydd Gristionogol a dwyn y groes; pan beidiant â gweithio o ddifrif dros y Meistr, yr hwn a weithiodd o ddifrif drostynt hwy, hwy a gollant ddefnydd gweddi, ac ni bydd ganddynt symbyliad i ymroddiad. Daw eu gweddïau yn bersonol a hunanol. Ni allant weddio gyda golwg ar anghenion dynolryw, nac ar adeiladu deyrnas Crist, gan eiriol am nerth i weithio.

Yr ydym yn cael colled pan esgeuluswn y rhagorfraint o gymdeithasu ynghyd i gryfhau a chalonogi y naill a'r llall yng ngwasanaeth Duw. Cyll gwirioneddau ei Air eu bywiogrwydd a'u pwysigrwydd yn ein meddyliau. Peidia ein calonnau â chael eu goleuo a'u cyffroi gan y dylanwad sancteiddiol, a bydd i ni adfeilio mewn ysbrydolrwydd. Yn ein cymdeithas â'n gilydd fel Cristionogion yr ydym yn colli llawer trwy ddiffyg cydymdeimlad y naill gyda'r llall. Yr hwn sydd yn cau ei hunan i fyny iddo ei hun nid yw yn llanw'r safle y bwriadodd Duw iddo. Mae diwylliad priodol yr elfenau cymdeithasol yn ein natur yn ein dwyn i gydymdeimlad ag eraill, ac yn foddion datblygiad a nerth i ni yng ngwasanaeth Duw.

Pe mynnai Cristionogion gymdeithasu a'u gilydd, gan siarad y naill wrth y llall am gariad Duw, ac am wirioneddau gwerthfawr y brynedigaeth, adnewyddid eu calonnau eu hunain, a hwy a adnewyddent ei gilydd. Gallwn bob dydd ddysgu mwy am ein Tad Nefol, gan ennill profiad newydd o'i ras; yna ni a ddymunwn siarad am ei gariad; ac fel y gwnawn hyn bydd i'n calonnau ein hunain gael eu cynhesu a'u calonogi. Pe meddyliem ac ymddiddanem fwy am Iesu, a llai am yr hunan, cawsem lawer mwy o'i bresenoldeb.

[75]

Pe mynnem ond meddwl am Dduw mor aml ag y cawn brawf o'i ofal amdanom, dylem ei gadw bob amser yn ein meddyliau, ac ymhyfrydu mewn siarad amdano a'i foliannu. Yr ydym yn siarad am bethau tymhorol am fod gennym ddiddordeb ynddynt. Yr ydym yn siarad am ein cyfeillion am ein bod yn eu caru; mae ein llawenydd a n tristwch wedi eu rhwymo i fyny gyda hwy. Eto mae gennym reswm anfeidrol fwy dros garu Duw na charu ein cyfeillion daearol, a dylai fod y peth mwyaf naturiol yn y byd i'w wneuthur Ef yn flaenaf yn ein holl feddyliau, i siarad am ei ddaioni a thraethu am

ei allu. Ni fwriadwyd i'r doniau goludog a roddwyd i ni ganddo Ef lyncu ein meddyliau a'n cariad yn gymaint fel na byddo gennym ddim i'w gyflwyno i Dduw; y maent i'n hatgoffa yn wastadol ohono Ef, ac i'n rhwymo mewn rhwymau cariad a diolchgarwch wrth ein Cymwynaswr Nefol. Yr ydym yn trigo yn rhy agos i iseldiroedd y ddaear. Bydded i ni ddyrchafu ein golygon at ddrws agored y cysegr uchod, lle mae goleuni gogoniant Duw yn llewyrchu yng ngwyneb Crist, yr Hwn sydd yn abl "hefyd i gwbl iachau y rhai trwyddo ef sydd yn dyfod at Dduw." Heb. 7:25.

Rhaid i ni foli Duw yn fwy "am ei ddaioni, a'i ryfeddodau i feibion dynion." Salm 107:8. Ni ddylai ein hymarferiadau addolgar fod yn gyfangwbl mewn gofyn a derbyn. Na fydded i ni bob amser feddwl am ein anghenion, a byth am y bendithion a dderbyniwn. Nid ydym yn gweddio yn ormod, ond yr ydym yn rhy gynnill mewn rhoddi diolch. Yr ydym yn dderbynwyr cyson o drugareddau Duw, ac eto pa mor fach o ddiolch a ddangoswn, cyn lleied a foliannwn Ef am yr hyn a wnaeth i ni!

Archodd Duw ar Israel yn yr hen amser, pan wedi iddynt gyfarfod ynghyd yn ei wasanaeth, "A bwyteuoch yno gerbron yr Arglwydd eich Duw, a llawenhewch ym mhob dim y rhoddoch eich llaw arno, chwychw i a'ch teuluoedd, yn yr hyn y'th fendithiodd yr Arglwydd dy Dduw." Deut. 12:7. Dylai yr hyn a wneir er gogoniant Duw gael ei wneud gyda sirioldeb, gyda chaniadau o fawl a diolchgarwch, nid gyda thristwch a phrudd-der.

Mae ein Duw ni yn Dad tyner, trugarog. Ni ddylem edrych ar ei wasanaeth fel ymarferiad poenus sy'n tristáu'r galon. Dylai addoli'r Arglwydd, a chymryd rhan yn ei waith fod yn bleser. Ni fynnai Duw gael ei blant, i'r rhai y darparwyd iachawdwriaeth, i weithredu fel pe byddai Efe yn feistr caled a manwl. Efe yw eu cyfaill gorau: a phan addolant Ef disgwylia gael bod gyda hwynt, i'w bendithio a'u cysuro, gan lanw eu calonnau â llawenydd a chariad. Mae'r Arglwydd yn dymuno fod ei blant yn cymryd cysur yn ei wasanaeth, ac yn cael mwy o bleser na chaledi yn ei waith Ef. Mae'n ewyllysio i'r sawl a ddeuant i'w addoli Ef gludo ymaith i'w canlyn feddyliau gwerthfawr am ei ofal a'i gariad, fel y gallont gael eu sirioli yn holl oruchwylion bywyd dyddiol, ac y caffont ras i ddelio yn onest a ffyddlon ym mhob peth.

Rhaid i ni ymgasglu o gwmpas y groes. Crist, a Hwnnw wedi ei groeshoelio, ddylai fod yn destun ein myfyrdod, ein hymddiddan, a'n teimlad mwyaf gorfoleddus. Dylem gadw yn ein meddyliau bob bendith a dderbyniasom gan Dduw; a phan sylweddolwn ei fawr gariad, dylem ewyllysio ymddiried pob peth i'r llaw a hoeliwyd ar y groes er ein mwyn.

Gall yr enaid esgyn yn nes i'r nefoedd ar adenydd moliant. Addolir Duw â chân a cherddoriaeth yn y llysoedd fry, ac fel y byddwn yn datgan ein diolchgarwch, fe dynnwn yn nes at addoliad y lluoedd nefol. "Yr hwn a abertho foliant, a'm gogonedda i." Salm 50:23. Bydded i ni gyda llawenydd parchusol ddyfod gerbron ein Creawdwr, gyda "diolch, a llais can." Esa. 51:3.

[77]

## Article 12—Beth I’w wneud ag amheuaeth

MAE LLAWER, YN enwedig y rhai sydd yn newydd i’r bywyd Cristionogol, yn cael eu blino ar adegau gan awgrymiadau amheuaeth. Cânt yn y Beibl lawer o bethau na allant eu hegluro, neu hyd yn oed eu deall, ac mae Satan yn defnyddio y pethau hyn i siglo eu ffydd yn yr Ysgrythyrau fel datguddiad oddi wrth Dduw. Gofynnant, “Pa fodd y gallwn wybod y ffordd iawn? Os yw’r Beibl mewn gwirionedd yn Air Duw, pa fodd y gallwn gael ein rhyddhau oddi wrth yr amheuon a’r anhawsterau hyn?”

Nid yw Duw byth yn gofyn i ni gredu heb roddi i ni dystiolaeth ddigonol fel sylfaen i’n ffydd. Mae ei fodolaeth, ei gymeriad, gwirionedd ei Air oll yn cael eu profi trwy dystiolaeth ac yn apelio at ein rheswm; mae’r dystiolaeth hon yn gyflawn. Eto ni ddarfu Duw erioed symud y posibilrwydd o amehuaeth. Rhaid i’n ffydd orffwys ar dystiolaeth, nid ar bethau amlwg a gweledig. Caiff y rhai a ddymuna amau y cyfle i wneud hynny. Caiff y sawl a wir ddymuna wybod y gwirionedd dystiolaeth helaeth i seilio ei ffydd arni.

Amhosibl yw i feddyliau meidrol amgyffred yn llawn gymeriad a gweithredoedd yr Anfeidrol. Rhaid i’r Bod sanctaidd hwnnw fod byth yn orchuddedig mewn dirgelwch, i’r dealltwriaeth craffaf, hyd yn oed i’r meddwl mwyaf dysgedig. “A elli di wrth chwilio gael gafael ar Dduw? a elli di gael yr Hollalluog hyd berffeithrwydd? Cyfuwch â’r nefoedd ydyw, beth a wnei di? dyfnach nac uffern yw, beth a elli di ei wybod?” Job 11:7, 8.

Dywedodd yr Apostol Paul, “O ddyfnder golud doethineb a gwybodaeth Duw! mor anchwiliadwy yw ei farnau ef! a’i ffyrdd mor anolrheinadwy ydynt!” Rhuf. 11:33. Ond er mai “cymylau a thywyllwch sydd o’i amgylch ef, cyfiawnder a barn yw trigfa ei orseddfainc ef.” Salm 97:2. Gallwn amgyffred ei ymwneud á ni, a’i gymhellion, gallwn ganfod cariad a thrugaredd annherfynol mewn undeb â gallu anfeidrol. Gallwn ddeall cymaint o’i amcanion ag y mae eu gwybod yn ddaioni i ni; ymhellach rhaid i ni o hyd ymddiried yn y llaw hollalluog, a’r galon sydd lawn o gariad.

[78]

Mae Gair Duw, fel cymeriad ei Awdwr Dwyfol, yn dwyn gerbron ddirgelion na all bodau meidrol byth eu hamgyffred yn llawn. Dyfodiad pechod i'r byd, ymgnawdoliad Crist, adenedigaeth, yr atgyfodiad, a llawer o faterion eraill a gyflwynir yn y Beibl, maent yn rhy ddirgel i'r meddwl dynol eu hegluro, neu hyd yn oed eu hamgyffred yn llawn. Ond nid oes gennym reswm o gwbl dros amau ei Air am na allwm ddeall dirgelion ei ragluniaeth. Yr ydym yn cael ei hamgylchu yn barhaus yn y hyd naturiol â dirgelion na allwn eu dirnad. Mae hyd yn oed y ffurfiau isaf o fywyd yn dwyn gerbron ddryswch na all y doethaf o athronwyr mo'i ddehongli. Cawn ym mhob man ryfeddodau uwchlaw ein dirnadaeth. Gan hynny a ddylem synnu os cawn fod yn y byd ysbrydol hefyd ddirgelion na allwn eu dirnad? Gorwedda yr anhawster yn gwbl yng ngwendid a chyfyngdra y meddwl dynol. Mae Duw wedi rhoddi i ni yn yr Ysgrythyrau dystiolaeth ddigonol o'u cymeriad Dwyfol, ac nid oes gennym reswm o gwbl dros amau ei Air am na allwm ddeall dirgelion ei ragluniaeth.

Dywed yr Apostol Pedr fod yn yr Ysgrythyrau “bethau anodd eu deall, y rhai y mae'r annysgedig a'r anwastad yn eu gŵyrdroi, . . . i'w dinistr eu hunain.” 2 Pedr 3:16. Cymerwyd gafael yn y pethau hyn gan amheuwyr fel prawf yn erbyn y Beibl; ond mor bell oddi wrth hynny ydynt, fel eu bod yn brawf cryf dros eu hysbrydoliaeth Dwyfol. Pe na chynwysai'r Beibl dim ond hanes am Dduw y gallem ei ddeall yn hawdd; pe gallai ei fawredd a'i ragoriaeth gael eu dirnad gan feddyliau meidrol, yna ni fuasai y Beibl yn dwyn tystiolaeth diamheuol o Dduw awdurdod. Dylai hyd yn oed rhagoriaeth a dirgelwch y pynciau a ddygir gerbron ysbrydoli ffydd ynddo fel Gair Duw.

[79] Mae'r Beibl yn dadlennu gwirionedd gyda symlrwydd a chyfaddasiad perffaith at anghenion a dyheadau y galon ddynol nes synnu a swyno y meddyliau mwyaf diwylledig, tra'n galluogi'r isel a'r annysgedig i weld ffordd iachawdwriaeth. Ac eto mae'r gwirioneddau yma a gyfleir mor syml yn ymadrin â phynciau dyrchafedig, sydd uwchlaw gallu amgyffred dynol, fel na allwn ond eu derbyn am fod Duw wedi eu datgan. Dyna gynllun prynedigaeth yn cael ei daflu yn agored o'n blaen, fel y gall pob enaid weld y camau i gymryd mewn edifeirwch tuag at Dduw, a ffydd tuag at ein Harglwydd Iesu Grist, er mwyn iddo gael ei achub yn ffordd apwyntiedig Duw; eto, dan y



gwirioneddau hyn, sydd mor hawdd i'w deall, gorwedda dirgelion sydd yn guddfa i'w ogoniant - dirgelion sydd yn llethu'r meddwl yn ei ymchwiliad, ond sydd yn ysbrydoli yr ymgeisydd gonest am wirionedd gyda pharch a ffydd. Po fwyaf y chwilia'r Beibl, dyfnaf yw ei argyhoeddiad ei fod yn air y Duw byw, ac mae rheswm dynol yn plygu o flaen mawrhydi y datguddiad Dwyfol.

Nid yw cydnabod na allwn lawn amgyffred wirioneddau y Beibl, yn ddim ond cyfaddef fod y meddwl meidrol yn annigonol i ddirnad yr anfeidrol; na all dyn gyda'i wybodaeth ddynol gyfyng, ddeall bwriadau Hollwybodaeth.

Am na allant ddirnad ei holl ddirgelion, gwrthoda yr amheuw'r a'r infidel Air Duw; ac nid pawb sy'n proffesu credu y Beibl sydd yn rhydd oddi wrth berygl yn y cyfeiriad yma. Dywed yr apostol, "Edrychwch, frodyr, na byddo . . . yn neb ohonoch galon ddrwg anghrediniaeth, gan ymado oddi wrth Dduw byw." Heb. 3:12. Mae'n iawn astudio dysgeidiaeth y Beibl yn fanwl, a chwilio i mewn i "ddyfnion bethau Duw" (1 Cor. 2:10), cyn belled ag y maent wedi eu datguddio. Tra mae "y dirgeledigaethau yn eiddo yr Arglwydd ein Duw," y "pethau amlwg a roddwyd i ni." Deut. 29:29. Ond gwaith Satan ydyw llygru galluoedd ymchwiliadol y meddwl. Mae rhyw falchder yn gymysg ag ystyriaeth o wirionedd y Beibl, nes mae dynion yn teimlo yn ddiamynedd a gorchfygedig os na allant egluro pob rhan o'r Ysgrythur i'w bodlonrwydd. Mae'n ormod o ddarostyngiad i gydnabod nad ydynt yn deall y geiriau ysbrydoledig. Maent yn anfodlon aros yn amyneddgar hyd nes gwêl Duw yn dda ddatguddio ei wirionedd iddynt. Teimplant fod eu doethineb dynol digynhorthwy yn ddigonol i'w galluogi i amgyffred yr Ysgrythur, a phan fethant â gwneud hyn, maent yn gwadu ei awdurdod. Gwir fod yna lawer o ddamcaniaethau ac athrawiaethau, y tybir yn boblogaidd eu bod yn tarddu o'r Beibl, nad oes iddynt sail o gwbl yn ei ddysgeidiaeth, ac yn wir maent yn wrthwynebus i holl rediad ysbrydoliaeth. Mae'r pethau hyn wedi bod yn achos amheuaeth a dryswch i lawer o feddyliau. Nid ydynt, fodd bynnag, i'w priodoli i Air Duw, eithr i lygriad dyn ohono.

[80]

Pe byddai yn bosibl i fodau crëedig ymgyrraedd at ddealltwriaeth gyflawn o Dduw a'i weithredoedd, yna wedi cyrraedd y pwynt hwn, ni fyddai iddynt hwy ddarganfyddiad pellach o wirionedd, dim cynnydd mewn gwybodaeth, dim datblygiad pellach o feddwl na chalon.

Ni fyddai Duw mwy yn oruchaf; a byddai dyn, wedi cyrraedd terfyn gwybodaeth a chyrhaeddiad, byddai yn darfod â chynyddu. Bydded i ni ddiolch i Dduw nad felly y mae. Mae Duw yn anfeidrol; ynddo Ef y mae “holl drysorau doethineb a gwybodaeth.” Col. 2:3. Hyd dragwyddoldeb gall dynion fod bob amser yn chwilio, bob amser yn dysgu, ac eto byth yn disbyddu trysorau ei ddoethineb, ei ddaioni, a’i allu Ef.

Mae Duw yn bwriadu i wirioneddau ei Air Ef gael eu dadlennu yn gyson i’w bobl hyd yn oed yn y bywyd hwn. Nid oes ond un ffordd yn unig i gyrraedd y wybodaeth hon. Gallwn gyrraedd at ddealltwriaeth o Air Duw yn unig drwy oleuni yr Ysbryd hwnnw y rhoddwyd y Gair trwyddo. “Pethau Duw nid edwyn neb, ond Ysbryd Duw;” “canys yr Ysbryd sydd yn chwilio pob peth; ie, dyfnion bethau Duw hefyd.” 1 Cor. 2:11, 10. Ac addewid y Gwardwr i’w ganlynwyr oedd, “Pan ddêl efe, sef Ysbryd y gwirionedd efe a’ch tywys chwi i bob gwirionedd, . . . canys efe a gymer o’r eiddof, ac a’i mynega i chwi.” Ioan 16:13, 14.

Mae Duw yn dymuno i ddyn arfer y gallu i ymresymu; a bydd i astudiaeth o’r Beibl gryfhau a dyrchafu y meddwl mewn modd na all un efrydiaeth arall. Eto rhaid i ni wyllo rhag dwyfoli rheswm, sydd yn ddarostyngedig i wendid a gwaeledd dynoliaeth. Os na fynwn gael yr Ysgrythyrau wedi eu cymylu i’n dealltwriaeth, fel na fydd i’r gwirioneddau amlycaf gael eu hamgyffred, rhaid i ni gael symlrwydd a ffydd plentyn bach, bod yn barod i ddysgu, a deisyf am gymorth yr Ysbryd Glân. Dylai ymdeimlad o allu a doethineb Duw, ac o’n hanallu ninnau i amgyffred ei fawredd, ein hysbrydoli â gostyngeddwydd, a dylem agor ei Air, fel pe yr elem i’w bresen-oldeb, gydag ofn sanctaidd. Pan ddeuwn at y Beibl, rhaid i reswm gydnabod awdurdod uwchraddol iddo ei hun, a rhaid i’r galon a’r deall blygu i’r YDWYF mawr.

[81]

Mae lawer o hethau yn ymddangos yn ddyrys neu dywyll a wneir yn amlwg a syml gan Dduw i’r rhai sydd yn ceisio dealltwriaeth ohonynt. Eithr heb arweiniad yr Ysbryd Glân, byddwn o hyd yn agored i wyrdroi’r Ysgrythyrau neu i’w comesbonio. Mae yna lawer o ddarllen ar y Beibl nad yw yn fuddiol. ac mewn llawer o achosion sydd yn niwed pendant. Pan agorir Gair Duw heb barch, ac heb weddi; pan nad yw’r meddyliau a’r serchiadau wedi eu sefydlu ar Dduw, neu mewn cytgorod a’i ewyllys Ef, mae’r meddwl yn cael ei

gymylu gan amheuaeth; ac hyd yn oed yn yr astudiaeth o'r Beibl mae amheuaeth yn cryfhau. Cymer y gelyn reolaeth dros y meddyliau, ac awgryma ddehongliadau nad ydynt gywir. Pa bryd bynnag y mae dynion, mewn gair neu weithred, heb fod yn ymgeisio at fod mewn cytgorod â Duw, yna, pa mor ddysgedig bynnag y bônt, maent yn agored i gyfeiliorm yn eu dealltwriaeth o'r Ysgrythyr, ac nid diogel ymddiried yn eu hesboniadau. Y rhai a edrychant i'r Beibl am anghysonderau, nid oes ganddynt ddeall ysbrydol. Gyda gwelediad gwyrddroedig gwelant achosion lawer dros amheuaeth ac anghrediniaeth mewn pethau gwirioneddol blaen a syml.

Er na dderbyniant hynny, gwir achos amheuaeth ac anghrediniaeth yn y rhan fwyaf o achosion, ydyw cariad at bechod. Nid yw dysgeidiaeth a gofynion manwl Gair Duw yn gymeradwy i'r galon falch sydd yn caru pechod, a pharod yw'r rhai hynny sydd yn anewyllysgar i ufuddhau i'w ofynion i amau ei awdurdod. Er mwyn ymgyrraedd at wirionedd, rhaid cael dymuniad gonest i wybod y gwirionedd, a pharodrwydd calon i ufuddhau iddo. A phawb a ddeuant yn yr ysbryd yma i astudio y Beibl a gânt brofion digonol ei fod yn Air Duw, a gallant ennill dealltwriaeth o'i wirioneddau a'i gwnânt yn ddoeth i iachawdwriaeth.

Crist a ddywedodd, "Os ewyllysia neb wneuthur ei ewyllys ef, efe a gaiff wybod am y ddysgeidiaeth." Ioan 7:17. Yn hytrach nac ymddadlau ac ymgecru ynghylch yr hyn nad wyt yn ei ddeall, dal ar y goleuni sydd yn tywynnu arnat yn barod, a thi a dderbyni oleuni mwy. Trwy ras Crist cyflawna bob dyletswydd a wnaed yn amlwg i'th ddeall, a galluogir di i ddeall a chyflawni y dyletswyddau hynny yr wyt yn awr mewn amheuaeth yn eu cylch.

Mae tystiolaeth sydd yn agored i bawb - y mwyaf dysgedig a'r mwyaf anllythrennog - tystiolaeth y profiad. Mae Duw yn ein gwahodd i brofi drosom ein hunain wirionedd ei Air, a gwirionedd ei addewidion. Geilw arnom gan ddweud, "Profwch, a gwelwch mor dda yw yr Arglwydd." Salm 34:8. Yn hytrach na dibynnu ar air un arall, yr ydym i brofi drosom ein hunain. Efe a ddywed, "Gofynnwch, a chwi a gewch." Ioan 16:24. Ei addewidion a gyflawnir. Ni fethasant erioed; ni allant byth fethu. Ac fel y byddwn yn agosáu at yr Iesu, ac yn llawenhau yng nghyflawnder ei gariad, cilia ein hamheuaeth a'n tywyllwch yng ngoleuni ei bresenoldeb Ef.

Dywed yr Apostol Paul i Dduw ein gwaredu ni “allan o feddiant y tywyllwch, ac a’n symudodd i deyrnas ei annwyl Fab.” Col. 1:13. Ac y mae pob un sydd wedi mynd trwodd o farwolaeth i fywyd yn alluog i selio “mai geirwir yw Duw.” Ioan 3:33. Gall ef dystiolaethu, “Yr oedd arnaf angen cymorth, a chefais ef yn yr Iesu. Pob angen a ddiwallwyd, newyn fy enaid a ddigonwyd; ac yn awr mae’r Beibl i mi yn ddatguddiad o Iesu Grist. A ofynwch paham y credaf yn yr Iesu? - Am ei fod i mi yn Waredwr Dwyfol. Paham y credaf y Beibl? - Am i mi ei gael yn llais Duw i fy enaid.” Gallwn gael y tyst ynom ein hunain fod y Beibl yn wir, a bod Crist yn Fab Duw. Gwyddom nad ydym yn dilyn chwedlau.

Mae Pedr yn annog ei frodyr i “gynyddu mewn gras a gwybod-aeth ein Harglwydd a’n Hiachawdwr Iesu Grist.” 2 Pedr. 3:18. Pan fydd pobl Dduw yn cynyddu mewn gras, derbyniant yn barhaus ddealltwriaeth gliriach o’i Air. Canfyddant oleuni a phrydferthwch newydd yn ei wirioneddau cysegredig. Bu hyn yn wir yn hanes yr Eglwys ym mhob oes, ac fel hyn y parha hyd y diwedd. “Llwybr y cyfiawn sydd fel y goleuni, yr hwn a lewyrcha fwyfwy hyd ganol dydd.” Diar. 4:18.

Trwy ffydd gallwn edrych i’r dyfodol, ac ymaflyd yn addewid Duw am gynydd dealltwriaeth, y cyneddfau dynol yn uno â’r rhai dwyfol, a phob gallu o eiddo yr enaid wedi eu dwyn i gysylltiad uniongyrchol â Ffynhonell goleuni. Gallwn lawenychu y bydd i’r oll fu yn ein drysu yn rhagluniaethau Duw, yn cael eu gwneud yn amlwg; pethau anodd eu deall a gânt eglurhad y pryd hynny; a lle nad oedd ein meddyliau meidrol yn gweld dim ond anhrefn a bwriadau drylliedig, cawn weld yr unoliaeth perffeithiaf a

[83]

[84]

## Article 13—Llawenhau yn yr arglwydd

MAE PLANT DUW yn cael eu galw i fod yn gynrychiolwyr Crist, i ddangos daioni a thrugaredd yr Arglwydd. Fel y datguddiodd yr Iesu i ni gymeriad y Tad, felly yr ydym ninnau i ddatguddio Crist i'r byd nas gŵyr ei gariad tyner, tosturiol. “Fel yr anfonais fi i'r byd,” meddai yr Iesu, “felly yr anfonais innau hwythau i'r byd.” “Myfi ynddynt hwy, a thithau ynof fi, ... fel y gwypo'r byd mai tydi a'm hanfonaist i.” Ioan 17:18, 23. Dywed yr Apostol Paul wrth ddisgyblion yr Iesu, “Gan fod yn eglur mai llythyr Crist ydych,” “yr hwn a ddeallir ac a ddarllenir gan bob dyn.” 2 Cor. 3:3, 2. Ym mhob un o'i blant mae'r Iesu yn anfon llythyr i'r byd. Os wyt ti yn ddilynwr Crist, mae yn anfon ynot ti lythyr at y teulu, y pentref, yr heol, lle yr wyt yn byw. Mae'r Iesu, wrth drigo ynot. yn ewyllysio llefaru wrth galonnau y rhai hynny nad ydynt gydnabyddus ag Ef. Hwyrach nad ydynt yn darllen y Beibl, neu nad ydynt yn clywed y llais sydd yn llefaru wrthynt yn ei ddalennau; nid ydynt yn gweld cariad Duw drwy ei weithredoedd. Ond os wyt ti yn wir gynrychiolydd yr Iesu, dichon mai trwot ti yr arweinir hwy i ddeall rhywbeth o'i ddaioni, a'u hennill i'w garu a'i wasanaethu Ef.

Mae'r Cristionogion yn cael eu gosod fel dygwyr goleuni ar y ffordd i'r nefoedd. Maent i adlewyrchu i'r byd y goleuni a lewyrcha arnynt oddi wrth Grist. Dylai eu bywyd a'u cymeriad fod y fath, fel y caiff eraill drwyddynt hwy iawn syniad am Grist ac am ei wasanaeth.

Os ydym yn cynrychioli Crist, bydd i ni wneud ei wasanaeth ymddangos yn atyniadol, fel y mae mewn gwirionedd. Mae'r Cristionogion sydd yn casglu prudd-der a thristwch i'w heneidiau, ac yn cwyno a grwgnach, yn rhoddi i eraill gam-gynrychiolaeth o Dduw a'r bywyd Cristionogol. Rhoddant yr argraff nad yw Duw yn cael ei foddhau wrth weld ei blant yn ddedwydd; ac yn hyn maent yn dwyn cam-dystiolaeth yn erbyn ein Tad Nefol.

Mae Satan yn llamu gan lawenydd pan all arwain plant Duw i anghrediniaeth a digalondid. Mae yn ymhyfrydu ein gweld yn peidio ymddiried yn Nuw, ac yn amau ei barodrydd a'i allu i'n hachub.

[85]

Mae yn caru ein cael i deimlo y gwna yr Arglwydd niwed i ni drwy ei ragluniaethau. Gwaith Satan ydyw gosod yr Arglwydd allan fel un diffygiol mewn cydymdeimlad a thosturi. Fe gamosoda y gwirionedd â chamargraffiadau am Dduw. Lleinw y dychymyg â gwirionedd am Dduw; ac yn hytrach nac aros ar y gwirionedd am ein Tad Nefol, yr ydym yn rhy fynvch yn sefydlu ein meddyliau ar gamosodiadau Satan, ac yn dianrhydeddu Duw drwy beidio ymddiried ynddo a grwgnach yn ei erbyn. Mae Satan o hyd yn ceisio gwneud y bywyd crefyddol yn uno brudd-der. Dymuna iddo ymddangos yn llafurus ac anodd; a phan fo'r Cristion yn ei fywyd ei hun yn cyflwyno'r olwg yma ar grefydd, y mae drwy anghrediniaeth yn eilio cyfeiliornad Satan.

Mae llawer, wrth rodio ar hyd llwybr bywyd. yn aros ar eu camgymeriadau a'u methiannau a'u siomedigaethau, a llenwir eu calonau â gofid a digalondid. Pan oeddwn yn Iwrop, ysgrifennodd chwaer oedd wedi bod yn gwneud hyn, ac a oedd mewn dwfn drallod, i ofyn i mi am rhyw air o gefnogaeth. Y noson ar ôl darllen ei llythyr, breuddwydiais fy mod mewn gardd, ac arweiniodd perchennog yr ardd fi drwy ei llwybrau. Yr oeddwn yn casglu y blodau ac yn mwynhau eu pêrarogl, pan dynnodd y chwaer hon, a gerddai wrth fy ochr, fy sylw at ryw fieri hyllion oedd yn rhwystro ei ffordd. Dyna He yr oedd hi yn galaru a thrithâu. Nid oedd yn cerdded ar y llwybr. gan ddilyn yr arweinydd, ond yn cerdded ymysg y mieri a'r drain. "O," galarai, "onid yw yn resyn fod yr ardd brydferth hon yn cael ei difetha gan ddrain?" Yna dywedodd yr arweinydd. "Gadewch y drain yn llonydd, oblegid ni wnant hwy ond eich anafu. Casglwch y blodau. y lilis, a'r rhosynnau pine "

Oni fu yna rhyw fannau disglair yn dy brofiad? Oni chefaist rai adegau gwerthfawr, pan oedd dy galon yn curo gan lawenydd mewn ateb i Ysbryd Duw? Wrth edrych yn ôl ar benodau profiad dy fywyd, onid wyt yn gweld rhai tudalennau hyfryd? Onid yw addewidion Duw, fel y blodau peraroglus, yn tyfu oddeutu dy Iwybr ar bob llaw?

[86] Oni addewi di i'w prydferthwch a'u hyfrydwch lenwi dy galon â llawenydd?

Ni wna y mieri a'r drain ond dy anafu a'th drallodi; ac os y bydd i ti gasglu ond y pethau hyn yn unig, a'u cyflwyno i eraill, onid wyt yn bychanu daioni Duw dy hunan, ac yn atal y rhai o'th gwmpas rhag rhodio yn llwybr y bywyd?

Nid doeth ydyw casglu ynghyd holl atgofion anhyfryd bywyd - ei anwireddau a'i siomedigaethau - siarad amdanynt a galaru amdanynt nes ein gorchfygu gan ddigalondid. Yr enaid a ddigalonnir ac a lenwir â thywyllwch, nes cau goleuni Duw allan oddi wrtho ei hun, gan daflu cysgod ar lwybr eraill.

Diolch i Dduw am y darluniau disglair a roddodd i ni! Gadewchni grynhoi ynghyd addewidion bendigedig ei gariad, fel y gallwn edrych arnynt yn wastad. Mab Duw yn gadael gorsedd ei Dad, yn gwisgo ei Ddwyfoldeb â dynoliaeth, fel y gallo waredu dyn oddi wrth allu Satan; ei fuddugoliaeth er ein mwyn, yn agor y nef i ddynion, yn datguddio i olwg dynol y gyfarchfa lle mae'r Dwyfol yn dadlennu ei ogoniant; yr hil syrthiedig yn cael ei dyrchafu o bydew dinistr lle'r oedd pechod wedi ei suddo, a'i dwyn drachefn i gysylltiad â'r Duw anfeidrol; ac wedi dal y prawf Dwyfol drwy ffydd yn ein Prynwr, yn cael ei gwisgo â chyfiawnder Crist, a'i dyrchafu i'w orseddfainc - dyma'r darluniau y mynnai Duw ein cael i fyfyrion arnynt.

Pan ymddangoswn ein bod yn amau cariad Duw ac yn peidio ymddiried yn ei addewidion, yr ydym yn ei ddianrhydeddu Ef ac yn tristau ei Ysbryd Glân. Pa fodd y teimlai mam pe byddai ei phlant yn grwgnach o'i hachos yn barhaus, fel pe na byddai yn ewyllysio yn dda iddynt, a holl ymdrech ei bywyd wedi bod er hyrwyddo eu buddiannau a rhoddi cysur iddynt? Tybiwch eu bod yn amau ei chariad; torrai hynny ei chalon. Pa fodd y teimlai unrhyw riant o gael plentyn yn ymddwyn ato fel hyn? A pha fodd y gall ein Tad Nefol edrych arnom ni pan fyddwn yn gwrthod ymddiried yn ei gariad, a'i harweiniodd i roddi ei unig anedig Fab fel y caffom fywyd? Ysgrifenna yr apostol, "Yr hwn nid arbedodd ei briod Fab, ond a'i traddododd ef trosom ni oll; pa wedd gydag ef hefyd na ddyry efe i ni bob peth." Rhuf. 8:32. Ac eto sawl un a ddywed, mewn gweithred, os nad mewn gair, "Nid yw'r Arglwydd yn bwriadu hyn i mi. Hwyrach ei fod yn caru eraill, ond nid yw yn fy ngharu i."

[87]

Niweidio dy enaid dy hun yw hyn oll; oblegid pob gair o amheuaeth a fynegi sy'n gwahodd temtasiynau Satan; mae yn cryfhau ynot y duedd i amau, ac yn tristáu yr angylion gwasanaethgar. Pan fydd Satan yn dy demtio, nac anadla air o amheuaeth na thywyllwch. Os dewisi agor y drws i'w awgrymiadau, llenwir dy feddwl â diffyg ymddiried a holi gwrthryfelgar. Os mynegi dy deimladau, mae pob

amheuaeth nid yn unig yn adweithio yn dy erbyn, ond yn had a egina ac a ddwyn ffrwyth ym mywyd eraill, a dichon y bydd yn amhosibl gwrthweithio dylanwad dy ymadroddion. Dichon y byddi di dy hunan yn gwella oddi wrth y tymor o demtasiwn, ac o fagl y diafol; ond gall na fyddo eraill, a reolwyd gan dy ddylanwad di, yn alluog i ddianc rhag yr anghrediniaeth a awgrymaist. Mor bwysig ydyw i ni siarad yn unig y pethau hynny sy'n rhoi nerth a bywyd ysbrydol!

Mae angylion yn gwranddo er clywed pa fath adroddiad yr wyt yn ei ddwyn i'r byd am dy Feistr nefol. Bydded i'th ymddiddan fod am yr Hwn sydd yn byw i eiriol drosot gerbron y Tad. Wrth gymryd llaw cyfaill boed i foliant i'r Arglwydd fod ar dy wefusau ac yn dy galon. Bydd hyn yn atynnu ei feddyliau at yr Iesu.

Mae gan bawb eu treialon; trallodion anodd eu dwyn, temtasiynau anodd i'w gwrthwynebu. Paid â mynegi dy drallodion i'th gyd-farwoliau, eithr dyga y cyfan at Dduw mewn gweddi. Gwna reol i beidio byth â datgan un gair o amheuaeth na digalondid. Gelli wneud llawer i sirioli bywyd eraill a chryfhau eu hymdrechion trwy eiriau gobaith a sirioldeb sanctaidd.

Mae llawer enaid gwrol yn cael ei lethu gan demtasiwn, ac yn barod i lewygu yn y gwrthdaro â'r hunan a chyda galluoedd drygionus. Na ddigalonwch un felly yn ei ymdrech galed. Siriolwch ef â geiriau gwrol, gobeithiol; a'i cymhellant yn ei ffordd. Fel hyn gall goleuni Crist lewyrchu oddi wrthy chwi. "Nid oes yr un ohonom yn byw iddo'i hun." Rhuf. 14:7. Gall eraill drwy ein dylanwad anymwybodol gael eu calonogi a'u nerthu, neu gallant gael eu digaloni a'u gyrru oddi wrth Grist a'r gwirionedd.

[88] Mae llawer a chanddynt syniad cyfeiliornus am fywyd a chymeriad Crist. Tybiant ei fod yn amddifad o gynhesrwydd a sirioldeb, ei fod yn arw, yn chwerw, a dilawenydd. Mewn llawer o achosion mae'r holl brofiad crefyddol yn cael ei liwio â'r syniadau pruddaidd hyn.

Dywedir yn fynych i'r Iesu wylo, ond na wybuwyd iddo erioed wenu. Yr oedd ein Gwardwr yn wir yn ŵr gofidus a chynefin â dolur; canys agorodd ei galon i holl ofidiau dynion. Ond er fod ei fywyd yn hunanymwadol ac yn cael ei gymylu gan boen a gofal, ni lethwyd ei ysbryd. Ni wisgai ei wyneb-pryd argraff gofid a grwg-nachrwydd, eithr bob amser argraff o degwch tangnefeddus. Yr oedd



ei galon yn ffynnon ddihsbydd o fywyd; a pha le bynnag yr elai cludai orffwysdra a thangnefedd, llawenydd a llonder.

Yr oedd ein Gwardwr yn ddwys ac o ddifrif, ond byth yn bruddglwyfus nac yn drymaidd. Bydd bywyd y rhai a'i hefelychant yn llawn amcan difrifol; bydd ganddynt syniad dwfn o gyfrifoldeb. Bydd i ysgafnder gael ei ddarostwng; ni fydd dim difyrrwch terfysgaid, dim cellwair anfoesgar; ond y mae crefydd Iesu yn rhoddi heddwch fel yr afon. Nid yw yn diffodd goleuni llawenydd, nid yw yn lladd sirioldeb, nac yn cymylu'r wyneb llawen. Daeth Crist nid i gael ei wasanaethu, ond i wasanaethu; a phan deyrnasa ei gariad yn y galon, dilynwn ei esiempl.

Os cadwn weithredoedd angharedig ac anghyfiawn rhai eraill uchaf yn ein meddyliau, cawn y bydd yn amhosibl eu caru fel y carodd Crist ninnau; ond os erys ein meddyliau ar gariad a thosturi rhyfeddol Crist tuag atom, bydd i'r un ysbryd lifo allan i eraill. Dylem garu a pharchu ein gilydd, er y diffygion a'r amherffeithion na allwn beidio eu gweld. Dylid diwyllio gostyngeddwydd a diffyg ymddiried mewn hunan, a dylid bod yn amyneddgar gyda diffygion eraill. Bydd i hyn ladd pob hunanaeth gyfyngol, a'n gwneud yn eang-galon ac yn hael.

Dywed y Salmydd, "Gobeithia yn yr Arglwydd, a gwna dda; felly y trigi yn y tir, a thi a borthir yn ddiau." Salm 37:3. "Gobeithia yn yr Arglwydd." Mae i bob diwrnod ei feichiau, ei ofalon a'i anhawsterau; a phan gyfarfyddwn, mor barod ydym i siarad am ein hanawsterau a'n treialon. Mae cymaint o drallodion benthyciol yn ymwithio i mewn, cymaint o ofnau yn cael eu hanwesu, y fath bwysau o bryder yn cael eu harddangos, fel y gallai un dybio nad oes genym Waredwr tosturiol a chariadlon, yn barod i wrando ein holl ddeisyfiadau, ac i fod i ni yn gymorth pan mewn angen.

Mae rhai bob amser yn ofni, ac yn benthycu trallodion. Bob dydd y maent yn cael eu hamgylchynu ag arwyddion o gariad Duw; bob dydd y maent yn mwynhau rhoddion ei ragluniaeth; ond y maent yn edrych heibio y bendithion presennol yma. Mae eu meddyliau yn barhaus yn aros ar rhywbeth annymunol. yr ofnant sy'n dod. neu rhyw anhawster sy'n bodoli mewn gwirionedd. ac, er yn fychan, eu dallu i lawer o bethau sy'n haeddu ddiolchgarwch. Mae'r anhawsterau yr ymladdant yn eu herbyn, yn hytrach na'u gyrru at Dduw, unig

[89]

ffynhonell eu cymorth, yn eu hysgaru oddi wrtho, oblegid eu bod yn deffro aflonyddwch ac ymddigiad.

A ydym yn gwneud yn iawn wrth anghredu fel hyn? Paham y dylem fod yn anniolchgar ac anobeithiol? Mae'r Iesu yn gyfaill i ni; mae'r holl nefoedd yn teimlo diddordeb yn ein llwyddiant. Ni ddylem oddef i anhawsterau a blinderau bywyd beunyddiol boeni y meddwl. Os gwnawn, cawn rhywbeth i'n poeni a'n blino o hyd. Ni ddylem feithrin pryder i'n poeni a'n trethu, pryder na chynorthwya ni i ddioddef ein treialon.

Efallai dy fod mewn dryswch masnachol; gall fod dy ragolygon yn mynd yn dywyllach a thywyllach, ac efallai fod colled yn dy figwth; ond paid â digalonni; dyro dy ofal ar Dduw, ac aros yn dawel a siriol. Gweddïa am ddoethineb i reoli dy faterion gyda challineb. a thrwy hynny osgoi colled a thrychineb. Gwna yr oil a elli dy hunan i ddwyn canlyniadau ffafriol. Mae'r Iesu wedi addo ei gymorth, ond nid ar wahân i'n hymdrech ni. Pan, wrth ymddiried yn dy Gynorthwywr, y byddi wedi gwneud pob peth a elli, derbyn y canlyniad yn siriol.

Nid yw yn ewyllys Duw fod i'w bobl gael eu trethu â gofal. Eithr nid yw ein Harglwydd am ein twyllo. Ni ddywed wrthym, "Nac ofnwch; nid oes peryglon yn eich llwybr." Gŵyr Ef fod yna dreialon a pheryglon, ac y mae yn delio gyda ni yn blaen. Nid yw yn cynnig cymryd ei bobl allan o fyd pechod a drygioni, ond mae yn eu cyfeirio at noddfa na fetha byth. Ei weddi ar ran ei ddisgyblion oedd, "Nid wyf yn gweddio ar i ti eu cymryd hwynt allan o'r byd, eithr ar i ti eu cadw hwynt rhag y drwg." "Yn y byd." meddai, "gorthrymder a gewch: eithr cymerwch gysur. myfi a orchfygais y byd." Ioan 17:15; 16:33.

[90] Dysgodd Crist i'w ddisgyblion, yn ei Bregeth ar y Mynydd, wersi gwerthfawr am yr angenrheidrwydd o ymddiried yn Nuw. Bwriadwyd y gwersi hyn i galonogi plant Duw ym mhob oes, ac y maent wedi dyfod i lawr i'n dyddiau ni yn llawn addysg a chysur. Galwodd y Gwarddwr sylw ei ganlynwyr at adar y nefoedd fel y canent eu carolau o fawl heb fod yn llwythog gan ofalon, "oblegid nid ydynt yn hau, nac yn medi." Ac eto mae y Tad mawr yn darpar ar gyfer eu hanghenion. Gofynna y Gwarddwr, "Onid ydych chiwi yn rhagori llawer arnynt hwy?" Matt. 6:26. Mae Gofalwr mawr dyn ac anifail yn agor ei law a diwallu ei holl greaduriaid. Nid yw adar y

nefoedd islaw ei sylw. Nid yw yn rhoddi y bwyd yn eu pigau, eithr darpara ar gyfer eu hanghenion. Rhaid iddynt gasglu y gronynnau a wasgarodd iddynt. Rhaid iddynt baratoi y defnydd ar gyfer eu nythod bychain. Rhaid iddynt borthi eu cywion. Ânt allan dan ganu at eu gwaith, oblegid “mae eich Tad nefol yn eu porthi hwy.” Ac “onid ydych chi yn rhagori llawer arnynt hwy?” Onid ydych chi, fel addolwyr deallgar, ysbrydol, o fwy o werth nac adar y nefoedd? Oni wna Awdur ein bodolaeth, Ceidwad ein bywyd, yr Hwn a’n lluniodd ar ei ddelw Ddwyfol ei hun, ddarpar ar gyfer ein hanghenion ond i ni ymddiried ynddo?

Cyfeiriodd Crist ei ddisgyblion at flodau'r maes, sy'n tyfu mewn helaethrwydd goludog, ac yn danlliw yn y prydferthwch syml a roddwyd iddynt gan y Tad Nefol, fel arddangosiad o'i gariad at ddyn. Dywedodd, “Ystyriwch lili'r maes, pa fodd y maent yn tyfu.” Mae prydferthwch a symlrwydd y blodau naturiol hyn yn tra-ragori ar ogoniant Solomon. Ni all y wisg orwychaf a gynyrchwyd gan fedr celfyddyd ddal cymhariaeth â harddwch naturiol a phrydferthwch llachar blodau creadigaeth Duw. Gofynna Crist, “Os dillada Duw felly lysieuyn y maes, yr hwn sydd heddiw, ac yfory a fwir i'r ffwrn, oni ddillada efe chwi yn hytrach o lawer, O chwi o ychydig ffydd?” Matt. 6:28, 30. Os yw Duw, yr Arlunydd Dwyfol, yn rhoddi i'r blodau syml sydd mewn un dydd yn trengi, eu lliwiau tyner ac amrywiol, pa faint mwy o ofal a gymer dros y rhai a grewyd ar ei lun! Mae'r wers hon o eiddo Crist yn gerydd i'r meddwl gorbryderus, i ddryswch ac amheuaeth y galon ddi-ffydd.

Dymuna'r Arglwydd fod ei holl feibion a'i ferched yn hapus, tangnefeddus, ac ufudd. Yr Iesu a ddywed, “Yr wyf yn gadael i chwi dangnefedd; ... nid fel y mae y byd yn rhoddi, yr wyf fi yn rhoddi i chwi. Na thralloder eich calon, ac nac ofned.” “Hyn a ddywedais wrthyh. fel yr arhosai fy llawenydd ynoch, ac y byddai eich llawenydd yn gyfiawn.” Ioan 14:27; 15:11.

[91]

Yr hapusrwydd a geisir oddi ar gymhellion hunanol, tu allan i lwybr dyletswydd, sydd yn anghytwys, yn oriog a diflanedig; y mae yn mynd ymaith, a llenwir yr enaid ag unigrwydd a gofid; ond y mae llawenydd a bodlonrwydd yng ngwasanaeth Duw; ni adewir y Cristion i rodio llwybrau ansicr; ni adewir ef i ymofidiau ofer a siomedigaethau. Os nad ydym yn cael pleserau y bywyd hwn, gallwn er hynny fod yn llawen wrth edrych at y bywyd sydd draw.

Ond hyd yn oed yma gall Cristionogion gael y llawenydd o gymundeb â Christ; gallant gael goleuni ei gariad, diddanwch tragwyddol ei bresenoldeb. Gall pob cam mewn bywyd ein dwyn yn nes at Iesu, gall roddi i ni brofiad dyfnach o'i gariad, a gall ein dwyn gam yn nes at gartref dedwydd tangnefedd. Gan hynny na fwriwn ymaith ein hyder, ond mynnwn sicrwydd cadarnach, cadarnach nac erioed o'r blaen. "Hyd yma y cynorthwyodd yr Arglwydd" (1 Sam. 7:12), ac Efe a'n cynnal hyd y diwedd. Boed i ni edrych ar y cofgolofnau, atgofion o'r hyn a wnaeth yr Arglwydd i'n diddanu ni ac i'n cadw o law y distrywiwr. Boed i ni gadw yn fyw yn ein cof yr holl drugaredd tyner a ddangosodd Duw tuag atom - y dagrau a sychodd ymaith. y poenau a leddfodd, y pryderon a symudodd, yr ofnau a ymlid-iwyd, yr anghenion a ddiwallwyd, y bendithion a roddwyd, a thrwy hynny ymgryfhau ar gyfer yr oll sydd o'n blaen drwy weddill ein pererindod.

Ni allwn lai nac edrych ymlaen at anhawsterau newydd yn yr ymgyrch sydd i ddod; ond gallwn edrych ar y pethau a aeth heibio, yn ogystal ag ar y pethau sydd i ddyfod, gan ddweud, "Hyd yma y cynorthwyodd yr Arglwydd ni." "Megis dy ddyddiau, y bydd dy nerth." Deut. 33:25. Ni bydd y brofedigaeth yn fwy na'r nerth a roddir i ni i'w dwyn. Gan hynny gadewch i ni gymryd i fyny ein gwaith yn union lle cawn ef, gadewch i ni gredu pa beth bynnag a ddaw, y rhoddir i ni nerth cyfartal i'r prawf.

Ac yn y man teflir pyrth y nef yn agored i dderbyn plant Duw, ac oddi ar wefusau Brenin y Gogoniant y disgyn y fendith ar eu clustiau fel cerddoriaeth goeth, "Deuwch, chwi fendigedigion fy Nhad, etifeddwch y deyrnas a baratowyd i chwi er seiliad y byd."

[92] Matt. 25:34.

Y pryd hynny y croesawir y gwardedigion i'r cartref a baratoir iddynt gan yr Iesu. Yno nid gwaelion y ddaear fydd eu cymdeithion; cclwyddwyr, eilunaddolwyr, y rhai amhur ac anghrediniol; eithr hwy a gymdeithasant a'r rhai hynny a orchfygasant Satan, a thrwy ddwyfol ras a ffurfiodd gymeriadau perffaith. Mae pob tuedd bechadurus, pob amherffeithrwydd sydd yn eu blino yma, wedi eu symud drwy waed Crist; a chyfrennir iddynt hwythau ratoriaeth a disgleirdeb ei ogoniant Ef, yr hwn sydd yn tra-ragori ar ddisgleirdeb yr haul. Ac mae'r prydferthwch moesol. perffeithrwydd ei gymeriad Ef, yn tywynnu drwyddynt, mewn gwerth llawer rhagorach na'r ysblan-

der allanol yma. Maent yn ddi-fai gerbron yr orsedd wen fawr. yn cyfranogi o urddas a rhagorfreintiau'r angylion.

Yn yr olwg ar yr etifeddiaeth ogoneddus all fod yn eiddo iddo, “pa beth a rydd dyn yn gyfnewid am ei enaid?” Matt. 16:26. Gall ei fod yn dlawd, eto medda ar gyfoeth ac urddas na allai y byd byth ei roddi. Yr enaid a waredwyd ac a olchwyd oddi wrth bechod. gyda'i holl gyneddfau ardderchog yn gyflwynedig i wasanaeth Duw. sydd o werth rhagorach; ac y mae llawenydd yn y nef yng ngŵydd Duw a'r angylion sanctaidd am un enaid achubedig - llawenydd yn cael ei ddatgan mewn caniadau o fuddugoliaeth sanctaidd.